



Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Rhodd i
Glwb Hwyl
Llanllwni**



Tudalen 5

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 29

**Enillwyr
Rali C.Ff.I.
Ceredigion**



Tudalen 32

Dathlu o gwmpas yr ardal



Cynhaliwyd Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Nhalybont ar ddechrau mis Mehefin. Brenhines: Bethan Roberts (Mydroilyn) a'i dirprwyon Lauren Jones (Llanwenog), Meirian Morgan (Llangeitho), Elli Dafydd (Bro'r Dderi) a Megan Lewis (Trisant) a'r Ffermwr Ifanc y Flwyddyn: Dewi Jenkins (Talybont).



Miss Cherry Leishman Llywydd a beirniad carnifal Llanybydder gyda brenhines y carnifal Hana Jones a'i morwynion Lily Smith a Kiah Brown ynghyd â'r frenhines fach Amy Rees a'r gwas bach sef Mason Brown.



Angharad James a Rhys Lloyd-Jones, Alltyblaca yn cyflwyno sic i aelodau staff Uned Arbenigol Babanod Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin ar ôl cynnal nifer o ddigwyddiadau i godi arian i'r uned yn dilyn genedigaeth cynnar ei merch Betsan Fflur Lloyd-Jones dros flwyddyn yn ôl.

Ceir mwy o hanes a datblygiad Betsan Fflur ar dudalen 27.



Aelodau a chyn-aelodau Sefydliad y Merched Llambed, ynghyd â Maer a Maeres y dref a swyddogion Sefydliad y Merched Ceredigion, yn ystod cinio dathlu'r canmlwyddiant ar gampws y coleg, 23 Mehefin.

Digwyddiadau yn Llambed



Cynhaliwyd te prynhawn yn y Pantri, Llambed, 25 Mai er budd Sefydliad y Galon, cangen Llanybydder a Llambed. Diolch i Delyth Jones am ei haelioni yn darparu'r holl fwyd. Llywyddion y diwrnod oedd Dennis a Helen Jones, Llwynieir. Codwyd £1,052.60. Yn y llun mae Maer a Maeres y dref; David a Meg Smith; Dennis a Helen Jones; Delyth Jones; Jayne Lewis, un o swyddogion Sefydliad y Galon; Jennie Bracher, ysgrifennydd y gangen; a'r Cynghorydd Ifor Williams, cadeirydd.



Ymweliad Mark Williams AS â Labco Ltd yn Llambed. Symudodd Dr David Ashton i Lambed 4 blynedd yn ôl gan gyflogi pedwar person. Erbyn hyn mae ei fusnes wedi ehangu ac mae'n cyflogi dros ugain. Gyda nhw'n y llun mae'r Cynghorydd David Smith, Maer Llambed.



ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydownen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@CFfICwmann
Mehefin 9

Noson grêt yn chwaraeon **@cffiisigar** heno! Da iawn i'r tîm rownderi

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@cffiianwenog
Mehefin 19

Merched y clwb yn ail nithwr yn y rygbi tag! DA IAWN FERCHED!!!!
@CeredigionYFC

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@MICered
Mehefin 21

Dyma Rob a Delyth Phillips yn croesawu'r Ras i Lambed! Pythefnos i fynd a pawb yn edrych mlaen!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Sianrj1
Mehefin 22

Prowd iawn o ferched **@CarregHirfaen** yn athletau Dyfed heno. 6ed allan o 21 yn y ras gyfnewid.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@ElinCeredigion
Mehefin 23

Criw mawr o bobol hapus **@Plaid_Llambed** heno yn y Shapla! Diolch bawb!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
@Clonc360
Mai 6

Bethan a Sian a enillodd helfa drysor ar droed y carnifal yn #Llanybydder. Diolch i Heulwen, Wes a Nathan am drefnu.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Gorffennaf Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Medi Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddwch rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwch am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Mewn neu mas?!

Maen nhw'n dweud bod wythnos yn amser hir mewn gwleidyddiaeth. Ar hyn o bryd, mae diwrnod fel tragwyddoldeb!

Fore Gwener, 24 Mehefin, mae'n siŵr i drwch y boblogaeth ddihuno mewn syndod o glywed y newyddion: bod gwledydd Prydain wedi pleidleisio o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Doedd gen i ddim barn bendant am y peth fisoedd yn ôl pan ddechreuodd y sôn am y refferendwm. Ond amhosib oedd bod yn glae ar wrth i'r ymgyrchu godi stêm a'r siarad a'r gweithredu droi'n gas. Amhosib oedd peidio teimlo rhyw fath o emosiwn o weld hiliaeth yn cael rhyddhynt ar ein strydoedd - ie, gan gynnwys yma yn ardal Clonc.

Sylweddolom erbyn amser cinio dydd Gwener bod nifer o'r bobol a bleidleisiodd mas wedi cael eu twyllo gan gelwyddau. Does dim sicrwydd y bydd £350 miliwn yr wythnos yn mynd i'r Gwasanaeth Iechyd. Does dim sicrwydd y bydd modd rheoli mewnffordd. Doedd dim Plan A, heb sôn am Plan B. Ac mae hynny yn fy hala i'n grac.

Ond grac neu beidio, mae angen i wledydd Prydain gael rhyw fath o siâp ar bethe. Y tebygrwydd ar hyn o bryd yw y bydd yr Alban yn mynd yn annibynnol, ac o bosib y bydd Gogledd Iwerddon yn uno â Gweriniaeth Iwerddon. Gan ein gadael ni, yng Nghymru fach, yn rhan o Loegr fawr. Neu - ac efallai taw dyma'r wobr ar ddiwedd y daith droellog - y cawn ninnau fel Cymry fyw mewn gwlad annibynnol, a'n croesawu fel'ny i'r Undeb Ewropeaidd. Amser a ddengys.

Yn y cyfamser, wrth i ni wrando ar y newyddion a dilyn troeon yr yrfa, mae'n bwysig inni gadw'n pwyll a charu'n cymydog, waeth pwy yw e neu hi. Hen beth salw yw hiliaeth: does neb yn licio rhywun sydd yn gweithredu'n frwnt ac sydd â geiriau cas i ddweud am rywun arall. Er cystal y liciwn innau fyw mewn iwtopia lle mae pawb yn siarad Cymraeg, yn canu cerdd dant ac yn nyddu gwllân, nid dyma'n cymdeithas ni heddiw. Oni bai am arbenigedd doctoriaid o dramor, fyddwn i ddim yn fyw heddiw i allu sgrifennu'r geiriau yma. Beth amdanoch chi?

Cloncen

Gwobrau i Ysgol Y Dderi



Daeth llwyddiant i rai o ddisgyblion Ysgol Y Dderi, Llangybi yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Y Fflint yn ddiweddar yn Adran Celf a Chrefft.

Cafodd Gwaith Lluniadu 2D Bl. 2 ac iau Anna Gaiger 2il; Serameg / Crochenwaith Bl. 2 ac iau Beca Ebenezer 2il; Pyped Bl. 3 a 4 Riley Lovell 1af; Pyped Bl. 5 a 6 - William Tomos James 2il; Pypedau (Gwaith Grŵp) Bl. 3 a 4 3ydd; Creu Gwefan Bl. 6 ac iau 1af [isod]; Ffilm neu animeiddiad 1af [uchod dde].

Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.



CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn
cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.



Sue's Hair Stylist




- Edfau
- Trin ewinedd
- Trin traed



- Triniaeth hwyneb
- Lliwio ael a lliwio blew llygald

Cynigion arbennig yn yr ystafell driniaeth newydd



Ystafell driniaeth newydd ar agor nawr!!

- Tylino pen Indiaidd
- Tylino Sweden
- Tylino cerrig poeth a llawer mwy o driniaethau

Dewch i brofi tylino pen Indiaidd a fydd yn eich rhyddhau o straeu a thensiwn, ac yn eich gadael yn teimlo yn hamddenol, wedi adfywio ac ail fywlocuau

Cysylltwch â:
Sue Hairstylist
Pencader
Rhif ffôn - 01559384794



Dim coginio yng nghegin Clonc Does dim angen coginio

Y mis yma, gan obeithio am dywydd teg ym mis Gorffennaf, rwyf wedi gosod her i mi fy hun i greu casgliad o rysetiau lle nad oes angen y ffwrn. Bydd hyn yn osgoi cael gwres di-angen yn y gegin.

Maent yn hawdd i'w paratoi, yn lliwgar a blasus, ac wrth gwrs yn iachus. Dim sosban i'w olchi - hwrê!! Dim ond troi'r tegell ymlaen, a lawr â'r tost. Mwynhewch yr Haf. Cofiwch - y ffwrn i ffwrdd, a'r ffôn ymlaen.

Gareth

Salad noodles a Gorgimychiaid

200 g noodles reis	1 mango
Ychydig o fasil ffres	100 g o gorgimychiaid
4 llwy fwrdd o peanuts	

Dresin

2 llwy fwrdd o saws Soy	1 llwy fwrdd finegr gwyn
½ llwy de o siwgr	Sudd 1 lemn

Dull

1. Gosodwch y noodles mewn powlen, a gorchuddiwch â dŵr wedi'i ferwi. Gadewch am 20 munud, yna draeniwch, golchwch ac yna eu rhoi nôl yn y fowlen.
2. Curwch cynhwysion y dresin, a thorrwch y mango yn giwbiau.
3. Torrwch y basil, a chymysgwch â'r noodles, pysgod, mango a'r dresin.
4. Gosodwch ar blât gweini, a sgeintiwch â'r cnau. Gweinwch gyda darnau o leim.

Salad Tiwna

1 tun 185 g tiwna	1 tun 400 g chickpeas
1 tun bach o corn melys	1 llwy fwrdd o capers
150 g tomatos ceirios	1 pupur coch
Ychydig o bersli wedi'i ddarnio	100 g brocoli
1 lemn	

Dull

1. Draeniwch y tiwna, a gosodwch mewn powlen gyda'r capers.
2. Hanerwch y tomatos, a'u gosod mewn dysgl gyda'r ffa, corn a'r persli
3. Torrwch y brocoli'n ddarnau mân; gosodwch mewn powlen, a gorchuddiwch â dŵr wedi'i ferwi. Gadewch am 5 munud, yn draeniwch.
4. Torrwch y pupur coch yn ddarnau, a chymysgwch i'r salad â'r brocoli, Ychwanegwch halen a phupur a'r sudd lemn. Gweinwch.

Pate Ffa cyflym

1 tun 400 g butterbeans	1 sbrigrin o rosmari
75 ml olew'r olewydd	1 llwy fwrdd o ddŵr berw
½ llwy de paprika	1 ewyn garlleg
Ham Caerfyrddin neu Ham Parma i weini	

Dull

1. Draeniwch y ffa, gosodwch mewn prosesydd bwyd gyda'r rosmari, olew, dŵr, sbeis a'r garlleg. Trowch y peiriant ymlaen i'w droi'n bast.
2. Gweinwch ar dost gyda ham wedi'i rychu, ychydig olew'r olewydd a phupur du yn addurn.

Pwdin Mis Gorffennaf

300 g aeron yr haf – mafon, mefus a llus	
1 llwy fwrdd gwin amaretto	75 g. siwgr eisin
Sest 1 lemn a sudd ½ lemn	1 pot mascarpone
Ychydig o fisgedi bisgotti	

Dull

1. Torrwch y mafon yn ddarnau a chymysgwch gyda gweddill y ffrwythau. Ychwanegwch 25 g siwgr, a'r gwirod. Gadewch i fwydo am tua 20 munud.
2. Cymysgwch y mascarpone, 50 g siwgr a'r lemn hyd nes yn feddal
3. Rhennwch yn haenau mewn 4 gwydr, ac ychydig o'r bisgedi wedi malu ar y top.



GORFFENNAF

- 7 Ras yr Iaith Dechrau o Gwmann am 12.30yp.
- 9 Mabolgampau Pentref Cwrtnewydd.
- 9 Diwrnod Hwyl Llanllwni ar Gae Chwarae'r Pentref am 1.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 12 Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Statkraft Alltwalis am 7.30pm yn Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni, Maesycrugiau. Croeso cynnes i bawb.
- 16 Cneifio Llambod ar fferm Capeli i ddechrau am 8.30y.b.
- 23 Ffair Fwyd Llambod, campws y coleg. Agor am 10yb.
- 24 Trip Eglwys Bedyddwyr Gogledd Teifi i'r Bala.
- 29 Helfa drysor car, Eglwys Llanwenog i ddechrau o Eglwys Llanybydder am 6.00y.h.
- 30 Carnifal Llanbedr Pont Steffan.
- 31 Cymanfa Ganu Dathlu'r Deg Côr Corisma am 2.00y.p ar dir Llys Barcud, Cellan a te prynhawn.

AWST

- 8 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion Noson Bingo yn Llanina, Llanarth.
- 12 Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.
- 13 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 20 Sioe Gorsgoch.
- 21 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion Ras Hwyaidd yn Glanwern, Felinfach.
- 27-29 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan.
- 29 Sioe a Threialon Cŵn Defaid ar gaeau Abercwm, Llanllwni.

MEDI

- 3 Mike Doyle a'i Fand. Arweinydd Glan Davies yn Neuadd Lloyd Thomas, Coleg Llanbed, 7.00y.h. Tocynnau: Eirian 422240. Elw tuag at Prostate Cancer a Man Van (Tenovus).
- 4 Dathlu canmlwyddiant geni'r diweddar Barchedig D Jacob Davies - Penigamp yng Nghapel Alltyblaca am 7.30yh. Atgyfodi rhaglen radio boblogaidd Jacob Dafis gyda dau dîm talentog a doniol.
- 10 Ffair Ram ar gae pentref Cwmann.
- 11 Dathlu canmlwyddiant geni y diweddar D Jacob Davies - Hanes dwy flynedd diwethaf ei fywyd yng Nghapel y Bryn am 7.30yh.
- 18 Dathlu canmlwyddiant geni y diweddar D Jacob Davies - Cyflwyniad o'i waith gan Jim Parc Nest yng Nghapel y Cwm.
- 25 Dathlu canmlwyddiant geni y diweddar D Jacob Davies - Gymanfa Hwyl Fawr yng Nghapel Pantydefaid am 7.30yh.

HYDREF

- 2 Dathlu canmlwyddiant geni y diweddar Barchedig D Jacob Davies - Cyrdau Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru yng Nghapel Bwlchfyadfa.
- 4 Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn ysgol Llanybydder am 7.00y.h.
- 14 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach am 7.30yh.

Gorsgoch

Gwellhad Buan

Erbyn hyn mae Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gôg adref yn gwella ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Bronglais yn ystod y mis.

Gor-ŵyrion newydd

Llongyfarchiadau i Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gôg ar cael gor-ŵyr bach arall sef Gwern - mab bach i'w hwyres Meleri a Rhodri yn Llanrhystud.

Mae Dannie a Martha Davies, Llain Gors bellach yn hen fam-gu a thad-cu am y pumed gwaith. Llongyfarchiadau i Rhian a James ar enedigaeth Bethan Haf Llewellyn.

Capel Brynhafod

Cynhaliwyd bore coffi yn neuadd yr Hafod yn ddiweddar i godi arian i goffrau'r capel. Codwyd £420 a diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth.

Diolch hefyd i aelodau a ffrindiau'r capel am eu cefnogaeth a'u cymorth wrth beintio tu fewn a thu allan i'r capel. Cofiwch gymryd pip wrth basio - mae'n werth ei weld.

Diolch

Dymuna Jean Evans, Llwyn-y-gôg ddiolch i bawb am yr holl gonsyrn amdani adeg yr amser a dreuliodd yn Ysbyty Bronglais ac hefyd ar ôl iddi ddychwelyd adref.

Llanllwni



C.Ff.I. Llanllwni yn ei Cinio Blynyddol yng Ngwesty Llanina, Llanarth yn ddiweddar.



Luned Jones yn derbyn tarian aelod y flwyddyn wrth y llywyddion, Arwel a Marion.



Aelodau wedi derbyn eu gwobrau - gweler y canlyniadau yn adroddiad y Clwb.



Mae Clwb Hwyl Llanllwni wedi bod yn lwcus iawn i dderbyn grant o Statkraft i dalu am gostau bwyd - snac a gweithgareddau coginio a chostau i gynnal gwahanol gweithdai i'r plant. Bydd yr arian yn fuddiol i'r rhai sy'n defnyddio'r clwb ar ôl ysgol ac rydym yn ddiolchgar tu hwnt i Statkraft.

Cymanfa Dathlur Deg

Côr Corisma

Dydd Sul Gorffennaf 31ain am 2.00 o'r gloch ar dir Llys Barcud, Cellan

Ymunwch â'r côr i ddathlu 10 mlynedd o ddiddanu a chanu mewn Cymanfa Ganu yng nghwmni aelodau'r côr a ieuencid yr ardal gydag arweinyddion ymhlith aelodau'r côr. Yr elw tuag at elusen Hafal.

Bydd Te Prynhawn i bawb.



Diwrnod Hwyl

Cynhelir diwrnod Hwyl yn Cae Chwarae Llanllwni ar Orffennaf 9fed. Gwisg Ffansi, Mabolgampau, It's a Knock Out, Tynnu'r Gelyn, Barbeciw ... yn dechrau am 1yp. Croeso cynnes i bawb.

C.Ff.I. Llanllwni

Ar y 27ain o Fai roedd ein Cinio Clwb blynyddol yng Ngwesty Llanina yn Llanarth. Unwaith eto eleni cafwyd gwledd o fwyd blasus a digon o sbort a chwerthin. Cawsom y fraint o gwmni is-gadeirydd CFfI Cymru, sef Arwel Jones fel ein siaradwr gwadd, a diolch iddo am ei araith. Yn ystod y noson dosbarthwyd llu o wobrwiau i'r aelodau, a dyma'r enillwyr lwcus;

Anghofiwr y Clwb – Siôn Evans; Jocyrr y Clwb – Hefin Jones; 'Best Dressed' y Clwb – Sara Thomas; 'Chatterbox' y Clwb – Ceris Howells; 'Hairstyle' gorau'r Clwb – Owain Davies; 'Double Act' y Clwb – Hefin Jones ac Ifor Jones.

Yn ogystal, aeth tarian Aelod y Flwyddyn eleni i Luned Jones, a llongyfarchiadau mawr iddi hi. Cyflwynwyd yr holl wobrwiau gan lywyddion y clwb, sef Arwel a Marion Howells, Pantglas, a diolch i Arwel am ei eiriau ar ran y ddau. Diolch hefyd am rodd y ddau tuag at goffrau'r clwb.

Ar y 9fed o Fehefin roedd Noson Chwaraeon y Sir a braf oedd gweld cymaint yn cystadlu yno o bob cwr o'r sir. Ond y rhai a ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth hoci oedd Clwb Llanllwni sef Siôn Evans, Ifor Jones, Elin Evans, Meryl Davies, Catrin Evans, Dan Jones, Anwen Jones, Hefin Jones, gyda chymorth Sulwen o glwb Dyffryn Cothi. Yn yr un modd, cafodd Siôn, Anwen a Hefin eu dewis i gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru, llongyfarchiadau i chi'ch tri, a da iawn am ddod yn bedwerydd ar lefel Cymru. Croeso i bawb ddod i'r Diwrnod Hwyl sydd yn cael eu gynnal ar y cyd rhngom ni, yr Ysgol a'r ysgol Feithrin ar y 9fed o Orffennaf, lle bydd mabolgampau, barbeciw, 'It's a Knockout' a thynnu'r gelyn. Bydd yn ddiwrnod llawn hwyl i'r teulu cyfan.

Cylch Meithrin a Ti a Fi

Croeso cynnes i Beca Thomas, Catrin Davies a Loti Hopkins sydd wedi ymuno â ni hanner tymor yma. Gobeithio byddwch yn mwynhau yn ein plith ni! Hoffem ddymuno pob lwc i Oscar a Danyel Thomas a Shanti Annang fydd yn symud i'r Cyfnod Sylfaen wedi gwyliau'r Haf. Gobeithio byddant yn mwynhau eu hamser yno.

Bydd hanner tymor prysur o'n blaen ni yn cymeryd rhan yn mabolgampau yr ysgol ac hefyd mabolgampau Cylchoedd Meithrin Sir Gâr. Bydd y plant yn cael cyfle i weld Sioe Sali Mali a mynd ar drip i draeth Llansteffan.

Ddydd Sadwrn 9fed o Orffennaf bydd Diwrnod Hwyl Llanllwni yn cae chwarae y pentref ar y cyd ag Ysgol Llanllwni a CFFI Llanllwni. Bydd nifer fawr o gystadlaethau yno i bob oedran. Croeso cynnes i bawb!

Bydd y Cylch yn gorffen am yr haf ar ddydd Llun 18eg o Orffennaf ac yn ail ddechrau dydd Llun 5ed o Fedi.

Cydymdeimlo

Yn ysbyty Glangwili yn ystod y mis bu farw Dewi Jones, Brynsiriol (Nanthendre gynt). Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Mair ei briod, y plant Glenys ac Eifion a'u teuluoedd i gyd. Bu'r angladd yn breifat yng Nghapel Nonni yr wythnos ganlynol.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'r canlynol:

Miss Christine Thomas, Pontheulog ar golli ei thad yn ddiweddar, sef Mr Roger Thomas, Rhiwferfin, Rhydcymerau.

Mrs Annie Jones 13 Bryndulais ar golli chwaer sef Mrs Maggie Jones Caerfyrddin (Highview a Cyncoed gynt).

Diolch

Dymuna Sara Thomas, Crossroads ddiolch yn fawr iawn am y llu o gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Sioe a Threialon Cŵn Defaid

Bydd Sioe a Threialon Cŵn Defaid yn cael ei gynnal ar gaeau Abercwm, Llanllwni ar ddydd Llun Gŵyl y Banc 29ain Awst.

CFfI Ceredigion

Wel, nid oes llawer o ddigwyddiadau wedi digwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf yma, ond mae prif ddigwyddiad calendr y Clybiau Ffermwyr Ifanc wedi bod, sef y Rali.

C.Ff.I. Tregaron yn ennill Rali 2016

Gwelwyd tyrfa dda o aelodau a chefnogwyr brwdfrydig yn Rali Flynyddol C.Ff.I. Ceredigion ar ddydd Sadwrn 4ydd o Fehefin. Enillwyr llynedd, Talybont, oedd yn cynnal y Rali ac yn darparu'r anifeiliaid ar gyfer y cystadlaethau barnu, yr holl stiwardiaid oedd eu hangen, ynghyd â darparu'r gefnogaeth ariannol a noddwyr ar gyfer y diwrnod prysur hwn.

Cynhaliwyd y Rali ar fferm Berthlwyd drwy garedigrwydd Mr a Mrs David Jones a'r ddawns ar fferm Neuadd Fawr drwy garedigrwydd Mr a Mrs David Evans. Mae'r ffederasiwn yn hynod o ddiolchgar iddynt am eu croeso cynnes. Hefyd diolch i Lywydd y Dydd, Miss Rhian Evans, Glanrafon am ei phresenoldeb, ei haelioni a'i chymorth i'r Rali. Diolch hefyd i Brif Noddwr y Rali sef Gwesty'r Marine, Aberystwyth.

Yn y Rali, a gafodd ei drefnu gan y Trefnydd, Anne Jones a'r Swyddog Gweinyddol, Sulwen Richards, gwelwyd aelodau o bob cwr o'r sir yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau, sydd heb os, yn ffenest siop i'r 18 o glybiau a wnaeth gystadlu.

Trwy gydol y dydd, roedd yna gystadlaethau yn dangos nifer helaeth o sgiliau – coginio, crefft, gosod blodau, coedwigaeth, cneifio, dawnsio, Top of the Pops, Arddangosfa'r Prif Gylch ayyb, ac wedi denu tua 400 o aelodau'r sir gyda chlwb Tregaron yn ennill y Rali a chlybiau Trisant a Mydroilyn yn gydradd ail.

Trwy'r degawdau oedd thema'r Rali eleni ac fe fydd yr enillwyr i gyd yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol.

Uchafbwynt y dydd oedd coroni Bethan Roberts, Mydroilyn, Brenhines C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn. Cafodd ei hebrwng i'r llwyfan a oedd wedi eu haddurno'n hyfryd, gan ei dirprwyon, Megan Lewis, Trisant, Elliw Dafydd, Bro'r Dderi, Lauren Jones, Llanwenog a Meirian Morgan, Llangeitho. Gyda nhw hefyd oedd Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn, Dewi Jenkins, Talybont.

Dyma restr o'r enillwyr:

Arddangosfa Ffederasiwn – Mydroilyn; **Barnu Gwartheg Jersey –16 oed neu iau** – Ieuan James, Troedyaaur; **21 oed neu iau** – Ifan Wilson, Penparc; **26 oed neu iau** – Fflur Davies, Penparc; **Tîm buddugol** – Penparc; **Pecyn Cinio C.Ff.I.** – Lledrod; **Coginio** – Enfys Hatcher ac Ffion Jenkins, Llanwenog; **Gosod Blodau** – Cari Davies, Tregaron; **Crefft** – Carwyn Davies, Llanwenog; **Cystadleuaeth yr Aelodau** – Llangeitho; **Dawnsio** – Felinfach; **Trin Gwlan** – Llyr Evans, Lledrod; **Sioe Ffasiwn – Cyflwynydd Gorau** – Anest James, Caerwedros; **Tîm** - Mydroilyn; **Coedwigaeth** – Llanddeiniol; **Barnu Defaid Lleyn** – 16 oed neu iau – Steffan Rattray, Trisant; **21 oed neu iau** – Ifan Morgan, Penparc; **26 oed neu iau** – Dyfrig Williams, Llangwryfon; **Tîm** - Trisant; **Ail Greu Hysbyseb o'r Gorffennol** – Llanddewi Brefi; **Gêm yr Oesoedd Retro** – Troedyaaur; **Gwisgo i Fyny** – Lledrod; **Top of the Pops** – Pontsian; **Cneifio Defaid 21 oed neu iau** – Rhys Douglas, Bro'r Dderi; **26 oed neu iau** – Rhys Lewis, Trisant; **Tîm** – Trisant; **Barnu Moch Cymreig – 16 oed neu iau** – Elen Jones, Penparc; **21 oed neu iau** – Ifan Morgan, Penparc; **26 oed neu iau** – Llyr Jones, Penparc; **Tîm** – Penparc; **Treialon Cŵn Defaid Dall** – Tregaron;



Arddangosfa'r Prif Gylch – Llanwenog;

Tablo - Lledrod; **Tynnu'r Gelyn** – Merched – Llanddewi Brefi; **Tynnu'r Gelyn – Iau** – Llanwenog; **Gwneud Arwydd** – Mydroilyn; **Barnu Stoc** – **Unigolyn Uchaf 16 oed neu iau** – Ieuan James, Caerwedros; **Unigolyn**

Uchaf 21 oed neu iau – Ifan Morgan, Penparc; **Unigolyn Uchaf 26 oed neu iau** – Llyr Jones, Penparc; **Unigolyn Uchaf yn y Barnu Gwartheg** – Ieuan James, Troedyaaur; **Unigolyn Gorau am y rhesymau yng Nghymraeg** – Dewi Davies, Llanddeiniol; **Clwb Gorau yn y Barnu Stoc** – Penparc; **Ffermwyr Gorau'r Flwyddyn** – Bethan Roberts, Mydroilyn a Dewi Jenkins, Talybont; **Anrheg Goffa W.G. Hughes & W.D. Lewis** – Enfys Hatcher, Llanwenog a Dion Davies, Pontsian; **Ysgrifennydd Clwb Gorau** – Dyfrig Williams, Llangwryfon; **Aelod a dreuliodd yr amser hiraf ar daith ryngwladol** – Angela Evans, Tregaron a Dyfan Ellis Jones, Llangwryfon; **Aelod mwyaf gweithgar y flwyddyn** – Emyllt Ellis Jones, Llangwryfon a Nia Medi Jones, Llanddewi Brefi; **Aelod iau mwyaf gweithgar y flwyddyn** – Caryl Morris, Llanddeiniol; **Clwb gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2015/16** – Buddugwyr – Llanwenog; **ail fuddugol** – Pontsian; **Y clwb "bychan" gorau yng nghystadlaethau'r Sir 2015/16** – Llanddeiniol.

Canlyniadau Terfynol y Rali: 1. Tregaron; cydradd 2. Mydroilyn a Trisant; cydradd 4. Llangwryfon a Lledrod; cydradd 6. Penparc a Llanwenog; 8. Felinfach; 9. Caerwedros; 10. Llanddeiniol.



Tynnu'r Gelyn – Bechgyn – Llanwenog

Cafodd y penwythnos prysur ei gloi gyda Chymanfa Ganu lwyddiannus yng Nghapel Bethel, Talybont ar y nos Sul, gyda Peter Leggett yn arwain a Catrin Saunders Jones yn organydd. Artistiaid y noson oedd Ysgol Sul Bethel ac aelodau Clwb Talybont. Llywydd y noson oedd Elen Pencwm.

Canlyniadau y Raffl Fawr Rali CFfI Ceredigion

1. £100 yn rhoddedig gan Geraint Davies - Eirlys, The Sewing Studio.
2. Oen cyfan yn rhoddedig gan Glyn a Beth Davies - Anwen Thomas, Ty Cornel, Dihewyd.
3. £50 Taleb Harbourmaster - Donald Thomas, Ty Hathren, Cwmann.
4. Tocyn Teulu Scarlets - Elis Jenkins, Ceulan, Llambod.
5. Tocyn Teulu i Oakwood - Einir Ryder, Tyngrug Ganol, Cwmsychpant.
6. £50 Mayes Tyres - Martha Grug Davies, c/o Kergalon, Ffordd y Goetre, Aberaeron.
7. MOT Tim Davies - Ifan Davies, Pantyryfyn, Brynafen, Llanafan.
8. Tocyn Teulu i Oakwood - Rhodri Jenkins, Llys y Cwmwd, Llanrhystud.
9. Gwobr Ddirgel yn rhoddedig gan Mererid Jones - Anwen Jones, Porthmawr, Llanon.
10. Extension lead yn rhoddedig gan CCF Felinfach - Dyfan Evans, Bronwydd, Coedybryn, Llandysul.

Rygi 7 bob ochr

Cynhaliwyd cystadleuaeth Rygi 7 bob ochr ar gaeau Clwb Rygi Llanbedr Pont Steffan ar y 17eg o Fehefin. Roedd yna nifer o dimau yn cystadlu a llongyfarchiadau mawr i dim merched Bro'r Dderi am ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth Rygi tag, ac i dim bechgyn CFfI Pontsian am ddod yn fuddugol yn y Rygi Bechgyn 7 bob ochr. Diolchwn hefyd i Mr a Mrs Hatcher am adael inni ddefnyddio'r cyfleusterau.

Canlyniadau Clwb 200 Mehefin 2016

1. 92 - A & E.A. Morgan, Pencefen, Mwnt, Aberteifi
2. 61 - John a Gwenda Evans, Rampant Lion, Capel Dewi, Llandysul
3. 91 - Heather Price, Esgereinon, Llanwenog, Llanybydder

Splash ar dân 2016!

Beth yw Splash? Penwythnos llawn sbort mae C.Ff.I Ceredigion yn trefnu ar gyfer y teulu oll wedi ei leoli ar Fferm Maesllyn, Tregaron ar y 29ain a'r 30ain o Orffennaf. Yn wir – ma' da ni rywbeth ar gyfer pob oedran yn Splash eleni! Rhwng y twmpath a'r tân gwyllt, y duathlon a'r dawnsio, bydd rhywbeth 'na at ddant pawb! Dyma fraslun o ddigwyddiadau'r penwythnos.

Ar nos Wener y 29ain, bydd Erwyd a Bryan yn cynnal Twmpath Dawns yn yr awyr agored. Dyma gyfle gwych i gymdeithasu, ac wrth gwrs i gael

Colofn y C.Ff.I.



bach o hwyl wrth ddawnsio. Yna, fe fydd arddangosfa Tân Gwylt. Bydd Raffdam, sef grŵp lleol yna i'ch diddanu hefyd – felly bydd gwledd ar eich cyfer chi! Ond megis dechrau yw hyn, ma tipyn mwy 'da ni i gynnig i chi dros weddill y penwythnos.

Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal ar Ddydd Sadwrn y 30ain wir yn addas ar gyfer pobl o bob oedran ac o bob diddordeb, rhwng y Duathlon, y wal ddringo, y sesiwn stori, sesiwn dawnsio a canu, castell bownsio, canwio a'r 'It's a knockout' – bydd rhywbeth yno at ddant pawb! Bydd hyd yn oed rhai wynebaw adnabyddus yn ymweld â ni, rydym wedi clywed si fod Peppa Pig hyd yn oed yn bwriadu ymuno yn yr hwyl! Felly blant a rhieni – dewch yn llu, mae gennym wledd o weithgareddau ac adloniant ar eich cyfer! Os rydych yn berson cystadleuol, fel nifer o aelodau a chyn aelodau'r mudiad – mae'r It's a knockout yn gyfle gwyh i chi gystadlu yn erbyn eich ffrindiau i geisio ennill y wobr gyntaf! Timoeidd o 6, ac mae croeso i chi gystadlu yn adran y fforwm ieuencid sydd i bobl 18 oed neu iau, neu yn yr adran agored sydd yn addas ar gyfer pawb!

Yn syth wedi'r it's a knockout orffen, bydd adloniant y nos yn dechrau. Y Fflamau Gwylt fydd yn agor y noson am 6.30yh ac yna am 7yh fe fydd yr enwog Huw Bryant, neu DJ Bry fel mae nifer yn ei adnabod, yn cynnal 'Happy Hour a Hwyl', sef awr o sbort wedi ei arwain gan y dyn ei hun, a gostyngiadau mawr yn y bar! Yna, fe fydd #Band 6, Beth McCann fel Dolly Parton a 'Chip Shop Boys' yn dilyn. Gallwch archebu eich tocynnau o flaen llaw o'r swyddfa am bris gostyngol o £10, neu am £12 wrth y gât.

Os yw'r gweithgareddau uchod yn eich denu, pam na ddewch chi â phabell/carafan gyda chi a threulio'r penwythnos gyda ni? £10 yn unig yw'r plot, borgen! Digon o sbort ar y nos Wener yn y Twmpath, Bar a bwyd ar y maes, Gwersylla am £10 yn unig, gweithgareddau trwy gydol y Dydd Sadwrn, a noson llawn adloniant ar y nos Sadwrn – beth sy'n eich rhwystro rhag treulio penwythnos cyfan gyda ni?

Digwyddiadau sydd i ddod:

18-21 Gorffennaf – Sioe Frenhinol Cymru

29-30 Gorffennaf – Splash 2016!

3 Awst – Treialon Cŵn Defaid

1 Medi – Cwrs Swyddogion – Canolfan Addysg Felinfach

7 Medi – Pwyllgorau Gwaith ac Is-bwyllgorau'r Sir

17 Medi – Cinio Dathlu CFFI Cymru'n 80 oed yn Llanerchaeron

Sir Gâr

Noson Chwaraeon

Cafwyd noson braf a hwylus ar gaeau Ysgol Bro Dinefwr, campws Tre-Gib yn ddiweddar lle bu cystadlu brwd rhwng clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr. Chwaraewyd 6 chwaraeon gwahanol – pêl-droed, pêl-rwyd, hoci, rygbi cyffwrdd, rownderi a hefyd frisbi.

Yn y gystadleuaeth bêl-droed 5 bob ochr, gwelwyd 6 tîm yn brwydro. Cafwyd sawl gêm dda yn ystod y noson. San Clêr a Cynwyl Elfed oedd yn brwydro ar y brig, cyn i Gynwyl guro San Clêr o ddwy gôl i un yn y ffeinal. Yn y gystadleuaeth hoci cymysg, cafwyd dwy gêm gynderfynol agos iawn rhwng Llanllwni a Chapel Iwan a hefyd Llangadog a Llanymddyfri. Llanllwni a Llangadog aeth ymlaen i chwarae yn erbyn ei gilydd yn y ffeinal. Ar ôl gêm gyffrous iawn, fe orffennwyd y gêm gyda Llanllwni yn ennill.

Er mai ond tri tîm oedd yn y gystadleuaeth bêl-rwyd, cafwyd gemau cyffrous ac agos rhwng Pen-y-bont, Abernant/San Ishmael a hefyd Llangadog/Cwmann/Llanfynydd. Abernant/San Ishmael daeth i'r brig, gyda Phen-y-bont yn ail, a Llangadog/Cwmann/Llanfynydd. Dau dîm oedd yn cystadlu yn y frisbi hefyd. Clybiau Dyffryn Tywi a Pen-y-bont. Roedd yn gêm agos iawn, cyn gorffen yn 4 sgôr i 1 i Ben-y-bont.

Yng nghystadleuaeth y rownderi, gwelwyd 9 tîm da

iawn yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Abernant, Dyffryn Tywi, Llangadog, Llanddarog, Cwmann, San Clêr, Pen-y-bont, San Ishmael a Llanfynydd oedd y timau. Ar ôl sawl gêm dda, Abernant a Llanfynydd oedd y timau gyrrhaeddodd y ffeinal. Enillwyd y gêm gan Llanfynydd o 3 rownderi i 2. Cafwyd gwledd o rygbi yng nghystadleuaeth y rygbi cyffwrdd hefyd, lle oedd 8 clwb wedi mentro i ennill y gystadleuaeth. Ar ôl gemau cyffrous dros ben, Llanfynydd daeth i'r brig eto gan guro Capel Iwan yn y ffeinal.

Da iawn i bob aelod am gynrychioli eich clwb mor dda, yn ogystal â'r swyddogion a'r dyfarnwyr i gyd. Diolch hefyd i aelodau o St John am fod yno.



Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni – buddugol yn yr Hoci.

Rygbi 7 bob ochr

Cynhaliwyd cystadleuaeth rygbi 7 bob ochr Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar ar gaeau Clwb Rygbi Nantgaredig. Cawsom dywydd bendigedig, gyda'r 6 tîm yn chwarae rygbi 7 bob ochr yn bert ac yn dangos sportsmonaeth da.

Clwb San Ishmael, San Pedr, Llangadog/Llandeilo a Chapel Iwan/Llanllwni/Cynwyl aeth trwyddo i'r rownd gynderfynol. Ennill oedd hanes San Ishmael erbyn tîm Capel Iwan, a hefyd San Pedr erbyn Llangadog. Roedd y ffeinal yn un agos iawn, gyda'r ddau dîm yn ceisio'u gorau i roi sioe ymlaen i'r cefnogwyr. Llongyfarchiadau i Glwb San Pedr am ennill y gystadleuaeth.

Rhaid diolch yn fawr iawn i Glwb Rygbi Nantgaredig am ddefnyddio'r caeau a'r cyfleusterau i gyd, diolch i'r dyfarnwyr, Richard Thomas, Phill Pexton a Rhodri Morgans a hefyd diolch i'r holl aelodau am eu hymdrechion yn ystod y noswaith. Pob lwc i'r sawl fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yn y gystadleuaeth 7 bob ochr yn y Sioe Frenhinol yng Ngorffennaf. Enillwyr y gystadleuaeth – San Pedr.

Llambled



Aeth trip Blynnyddol Capel Shiloh a Soar Llambled lawr tuag at Senghennydd ar ddiwedd mis Mehefin. Dyma lun Cofeb o ddau lowr yn yr Ardd Goffa i gofio am y drychineb. Ceir hanes y daith yn y rhifyn nesaf.

Gwallt gan Caryl

Yn Toriad Taclus Llanybydder:
Dydd Llun 9.00-7.00 a Dydd Mawrth 9.00-5.30
Teithiol:
Dydd Iau 9.00-2.30 a Dydd Gwener 9.00-5.00

Caryl Herrick
carylchw@hotmai.co.uk
Salon: **01570 481425**
Symudol: **07971629001**

Graham Jones

Gwasanethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref o £45
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferollion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Adfer Data
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com

Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX

dawnsemporium
www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas

a'i Chwmni

Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur

Tai Bwyta / Siopau

Cyfrifoldeb

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Yswiriant tŷ/cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mac Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin
Serauca

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems
* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhegog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gogolofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.

Ac yn golchi duvets.



MIS y PAPUR Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Beth am ymuno â'r undeb Ewropeaidd arall?

Roedd yna rywbeth chwerw-felys am amseriad y peth. Gŵyl Ewropeaidd yn Felin-fach wrth i effeithiau Refferendwm Ewrop ddechrau dangos eu dannedd.

Ond gŵyl Ewropeaidd wahanol oedd Tosta; nid y gwledydd mawr a'r elit ond y gwledydd bach, y rhai heb eu ffiniau eu hunain ond sy'n berchen ar ieithoedd a diwylliant a theimlad o hunaniaeth.

Ar ôl y bleidlais, mi fydd gwyliau o'r fath yn bosib eto; y gwahaniaeth yw na fydd Cymru, na Chernyw na siaradwyr Gaelleg yr Alban yn cael cymryd rhan.

Ar wahân i ambell i jôc fach wangalon, digon syber oedd y sgwrsio yng Ngŵyl Tosta ond roedd yna ddigon o hwyl cerddorol, efo band trawiadol o Wlad y Basg a chyfuniad o gerddorion o saith o'r diwylliannau bach.

Efallai fod rhyw elfen o esboniad am y bleidlais Brexit ym maint y gynulleidfa; prin iawn oedd y rheiny ac, o ganlyniad, doedd yna ddim llawer o deimlad gŵyl. Yng Ngwlad y Basg ei hun, er enghraifft, mi alla i ddychmygu y byddai yna filoedd wedi tyrru i gymryd rhan.

A dyna un gwahaniaeth rhyngon ni a'r cenhedloedd llai mewn gwledydd fel Sbaen; maen nhw'n llawer balchach na ni o'u traddodiadau. Does ganddyn nhw ddim cywilydd o osod eu diwylliant ochr yn ochr â dylanwadau Eingl-Americanaidd.

Roedd y band nos Wener yn enghraifft berffaith o hynny Otega TX oedd yr enw ac, yn ôl y sôn, maen nhw wedi cefnogi Madonna ei hun mewn cyngerdd cyn hyn. Hynny er mai offerynnau cwbl draddodiadol oedd canolbwynt eu gwaith.

Roedd dau o'r rheiny'n gwbl amlwg ar y llwyfan ... dwy greadigaeth fawr efo fframiau pren a stylod ... fel dau xylophone anferth. A chael eu curo yr oedden nhw, efo ffyn soled a ffyn gwag a hynny'n amrywio'r sŵn.

Ond y peth rhyfeddol oedd deunydd y nodau ... stylod pren oedd ar un, stylod carreg oedd ar y llall. Er hynny, roedd y ddau 'ddrymiwr' yn gallu denu amrywiaeth o guriadau a seiniau o'r deunyddiau caled.

Mae'r offeryn - y txalaparta - yn debyg i ddrwm dur, yn yr ystyr ei fod yn gallu creu curiad ac alaw yr un pryd. Yn ogystal â gosod curiad, roedd y ddau offeryn ar lwyfan Felin-fach yn rhyfeddol o swynol.

Ochr yn ochr â nhw, roedd yna offeryn llinynnol - bouzouki os deallais i'n iawn - ac amrywiaeth o ddrymiau ffon a llaw. Ac wedyn unawdydd ar offerynnau chwythu fel y clarinet ac, yn fwy diddorol o lawer, bibau traddodiadol.

Roedd rhai o'r rheiny wedi eu gwneud o gyrrn defaid neu eifr ac yn gwneud sŵn doleus heb fod yn annhebyg i'r pibau Albanaidd. A'r offerynnau traddodiadol i gyd yn dangos eu gwreiddiau yn niwylliant pobol cefn gwlad.

Mi allech chi ddychmygu gweision fferm yn rhywle yn cael rhes o ddarnau o fetel a chymysgedd o ddarnau o bren ac yn dechrau eu defnyddio nhw i greu cerddoriaeth ... ac un arall yn ymuno ar gorn dafad.

Rydan ni'r Cymru wedi colli llawer o'n cerddoriaeth werin ... o gywilydd moesol adeg y Diwygiad Protestannaidd ac Oes y Capel ac wedyn o gywilydd diwylliannol yn wyneb dylanwadau sgleiniog y byd tros y ffin â ni.

Ac, ar y cyfan, dydan ni erioed wedi dangos llawer o ddiddordeb chwaith yn y gwledydd Celtaidd eraill, heb sôn am ddiwylliannau bychain eraill Ewrop. Yn wyneb pleidlais y Refferendwm, mi fyddai'n beth da i ni ddechrau newid hynny.

Os bydd Brexit yn digwydd a'r Alban wedyn yn gadael y 'Deyrnas Unedig' mi fydd arnon ni angen ffrindiau. Ac nid o blith y gwledydd pwerus y daw'r rheiny - hyrwyddo busnesau mawr ac unffurfiaeth ydi nod llawer o'r rheiny.

Ond mae yna undeb Ewropeaidd arall yn bosib, rhwng gwledydd a diwylliannau fel ein rhai ni sy'n deall yn ddyfnach na hynny. Ac mi allwn ni bleidleisio i ymuno â hwnnw.

Llanybydder

It's a knockout

Fe wnaeth pwyllgor Pentref Llanybydder gynnal diwrnod It's a knockout yng nghae rygbi Llanybydder ar 29ain o Fai. Roedd yn ddiwrnod hwylus iawn gyda llawer o weithgareddau i'r oedolion a'r plant. Gwnaethom rannu'r elw gyda Rhian Mansel-James, gan ei bod hi'n codi arian at elusen cymorth golwg dramor lle bu'n cerdded mynydd Kilimanjaro ar 16fed o Fehefin. Hoffai aelodau'r pwyllgor longyfarch Rhian ar ei champ. Hoffem ddiolch i Huw Davies ac Eirig Jones am eich gwaith caled i baratoi ar gyfer y diwrnod; diolch yn fawr iawn i chi dau, ac hefyd i bawb a wnaeth helpu mewn unrhyw ffordd. Cawsom noson o adloniant gyda'r gantores Keerie-Leigh yn y clwb rygbi gyda barbeciw gan Clare Pantri Pantydderwen a disco i orffen. Hoffem longyfarch tîm 'Cwmsychbant Reserves' - Carwyn Davies, Delmi Davies, Jamie Jones a Gari Davies' - a enillodd yr It's a knockout, a diolch i Arwel a Sonia Morgan am roi'r cwpan.



Enillydd y cwis ar nos Wener 24ain o Fehefin yn y Llew Du. Kirsty Bell, Ivan Bell, Denise Thomas a Adrian Thomas.



Enillydd Helfa drysor car ar nos Lun 20ain o Fehefin yn gadael y Clwb Rygbi. Fiona Hughes, Elin Hughes, Sophie Hughes a Sarah Davies.

Cefn Hafod
Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
 £6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
 wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
 Croeso cynnes i bawb!
 01570 434 238

W.D. Lewis
o'i Fab

Wysgochgar, Aberystwyth
 4g Llanfryn, Llanwrda

Melin Mark Lane Mill
 Llanbedr Pont Steffan
 Ceredigion SA48 7AG
 Tel: 01570 422540
 Fax: 01570 423644
 www.wdlewiss.co.uk

Hefyd yn
 Broneb Stores
 Pumsaint, Llanwrda
 Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
 pob achlysur'*

* Caccennau pen-blwydd gyda llun
 (ffotograff)
 * Bwffe mawr neu fach
 * Dantethion i de
 * Pwjdinau
 * Arlwyro ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau
 Fach, Cwrtnewydd,
 01570 434 243
 07815 962 045



Alec Page
Gof



Gwaith metal o safon
 i'r tŷ a'r ardd.
Dewch i drafod eich syniadau.
 Yr Efail, Barley Mow,
 Llambled.
01570 423955
 www.alecpageblacksmith.co.uk

**WILLIAMS
 & BOURNE**

CYFREITHWYR.
 COMISIYNWYR LLWON

Trosoglwyddiadau a phob
 gwasanaeth cyfreithiol.
 Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
 Llambled**

■ 01570 422206 ■ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
 Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Cymeriadau Bro

gan Elaine Davies



Jane Wyn Pennaeth Ysgol Bro Pedr

Mae hi'n frwd, yn gynnes, yn llawn egni.
 Un funud yn ymateb yn glir i 'nghwestiynau a'r
 funud nesaf yn delio â'r problemau dirifedi sy'n codi
 yn ystod ei diwrnod gwaith yn bennaeth ar ysgol fishi.
 Sawl gwaith yn ystod y sgwrs ar brynghawn clos ar
 ddiwedd tymor yr arholiadau, roedd rhywun yn dod
 i guro ar ddrws ei hystafell a bant â hi am gwpwl
 o funudau. Ond yr eiliad yr oedd hi'n ôl dyma
 ailafael yn llinyn y sgwrs a mynd â fi ar
 daith o Ddyffryn Aman i Gaerdydd, o
 Aberystwyth lawr trwy Ddyffryn
 Teifi.

O ardal y glo caled yn
 Nyffryn Aman y mae Jane
 Wyn yn dod, ei thad yn
 bennaeth Adran Saesneg
 Ysgol Ystalyfera a'i
 mam yn gweithio i'r
 cyngor. Hi yw'r hynaf
 o dri, a'i brawd a'i
 chwaer, Gwydion a
 Meleri, yn ddoctoriaid
 teulu yng Nghaerdydd.

Yr argraff yw
 bod ei chartref yng
 Nglanaman wastad
 wedi bod yn rhan
 amlwg o'r gymdogaeth
 - yn fwy nag erioed erbyn
 hyn, gan fod ei thad yn
 gynghorydd lleol a'i mam
 yn dysgu llefaru. "Dyw e
 ddim yn beth anghyffredin o
 gwbl bod gartref" meddai Jane
 Wyn, "a ffeindio pobol ddieithr yn
 lando yn y lownj... Ma' gwasanaeth
 cyhoeddus yn rhan o'r teulu."

Un o'r dylanwadau arni'n berson ifanc oedd Streic y
 Glöwyr yn 1984. "Wy'n cofio teimlo'n siomedig bod
 Dad ddim yn löwr achos nhw oedd yr arwyr. Wy'n
 cofio gorymdeithiau mawr o löwyr yn Rhydaman,
 a'r tlodi a'r chwalfa wedi'r streic. Mae'n ardal gyda
 thraddodiadau gwleidyddol cryf ac roedd Ysgol
 Dyffryn Aman yn dysgu gwleidyddiaeth lefel 'A' hyd
 yn oed yn y cyfnod hynny.

"Roedd yr ysgol hefyd yn rhoi lot o gynhalieth
 i deuluoedd y glöwyr adeg y streic ac roedd plant y
 glöwyr yn dechrau gweld addysg fel dihangfa. Wrth
 gwrs, roedd glöwyr yr ardal wedi arfer rhoi lot o bwys
 ar addysg. Doedd hynny ddim yn beth newydd."

Daeth Jane Wyn yn brif ferch yn Ysgol Dyffryn
 Aman ac un o'i diddordebau oedd siarad cyhoeddus a
 chymryd rhan yn y gymdeithas ddadlau. Un o'i chyd-
 aelodau yno oedd Lee Waters, Aelod Cynulliad Llafur
 newydd Llanelli. Wrth wrando arni yn ei swyddfa
 yn Ysgol Bro Pedr Llanbed does dim angen llawer o
 ddychymyg i weld y Jane Wyn ifanc yn areithwraig
 o argyhoeddiad yn Ysgol Dyffryn Aman, wedi
 ei thanio gan annhegwch dwfn streic y glöwyr a
 gwerthoedd cymdeithasol cadarn ei bro.

Aeth o Ddyffryn Aman i Gaerdydd i astudio Saesneg
 cyn cael ei swydd gyntaf yn ohebydd gyda chwmni
 teledu Tinopolis: "Roedd yn brofiad ffantastig ac yn
 gyfle i weld Cymru gyfan. Ma' 'da fi ddiddordeb mewn
 pobol a'u stori.

"Roedd 'na gyfle i gwrdd â phob math o bobol ac,
 yn eu plith, cael cyfweld â Cerys Matthews pan oedd
 Catatonia yn ei anterth. Dyma'r 90au ac o'n i'n gweld
 hyder oes newydd gyda grwpiau fel Catatonia a'r Super
 Furries a geiriau eu caneuon. Dyma adeg sefydlu'r
 Cynulliad wrth gwrs."

Ar ôl rhyw bedair blynedd a hanner aeth ymlaen i
 weithio i'r BBC yn ohebydd ar y Post Cyntaf, gan gael
 profiadau mawr wrth weithio gyda Dai Jones Llanilar

a Geraint Lloyd yn Aberystwyth! Ac yna'n 27 oed,
 cyrraedd croesffordd.

Roedd ei thad newydd ymddeol o'i swydd yn
 Ystalyfera a hithau'n gweld "...y cardiau, yr anrhegion,
 y diolch am ei wasanaeth a phenderfynu newid
 cyfeiriad, er mwyn cael mwy o ddilyniant a pharhad
 a gwneud mwy o gyfraniad. Roedd e'n teimlo fel yr adeg
 iawn."

Ac roedd rheswm arall hefyd. Yn ystod y cyfnod
 yn Aber gyda'r BBC y cwrddod hi ag Adam,
 ei darpar ŵr, "...y boi 'ma oedd yn
 gwrthod symud i Gaerdydd, yn dod
 o'r Drenwydd ac yn Olygydd
 Chwaraeon y Cambrian News."

Felly, roedd y cam nesaf yn
 un hawdd – gwneud ymarfer
 dysgu yn Aber ac yna
 'mlaen i Ysgol y Preseli, i
 wlad "y roces a'r rocyn".

Ar ôl dwy flynedd
 ymhlith cymeriadau
 Crymch, symud i
 Lanbed yn 2008 yn
 athrawes Saesneg.

Ymhen fawr o dro,
 cafodd ei phenodi yn
 bennaeth y chweched
 dosbarth ynghanol
 "bwrlwm yr ad-drefnu
 oedd yn sioc ac yn gyfle
 i bawb". A chwap wedyn,
 ei dyrchafu'n Bennaeth
 Cynorthwyol.

Sut brofiad oedd symud o fod
 yn athro i fod yn rheolwr?

"Wel, yn y cyfryngau, o'n i wedi
 arfer gweithio mewn tîm ac arwain
 rhywfaint, felly oedd rhai o'r profiadau a'r

sgiliau oedd eu hangen yn gyfarwydd i fi. Mynd â
 phobol 'da chi.

"Yn y cyfryngau, o'n i wedi cael profiad o beidio ag
 ofni newid. Ar y pryd, roedd e'n beth mor gyffrous bod
 Llanbed yn arwain. Erbyn hyn mae ysgolion 3-19 oed
 yn dod yn fwyfwy cyffredin."

Dysgodd lawer o sgiliau arwain gan y penaethiaid o'i
 blaen, Dylan Wyn, ac wedyn David Williams - yr athro
 â chyfrifoldeb am ddysgu'r tîm siarad cyhoeddus yn
 Ysgol Dyffryn Aman flynyddoedd ynghynt.

Erbyn hyn, roedd gyrfa Jane Wyn yn symud yn
 gyflym. Ac ar ôl cyfnod yn Bennaeth Cynorthwyol
 yn Llanbed daeth "cyfle gwyh" trwy gael secondiad
 yn Bennaeth Tregaron adeg ad-drefnu addysg
 gynradd ac uwchradd yno rhyw ddwy flynedd yn ôl.
 A dyna fynd i ganol y broses o sefydlu ysgol 3-16
 oed newydd sbon.

"Ces i groeso gwyh ynghanol disgyblion grêt ac
 roedd hi'n dda cael cydweithio â rhieni a chymdogaeth
 oedd yn frwdfrydig ac am weld addysg yn ffynnu yno."

Ond yn fuan wedyn, daeth galwad yn ôl i Lanbed
 i ymateb i her arall. Erbyn hyn, Ysgol Bro Pedr yw'r
 unig ysgol uwchradd yng Ngheredigion sy'n rhan
 o'r prosiect Ysgolion Arloesol, un o blith rhyw 50
 o ysgolion tebyg ledled Cymru. Rhan o hynny yw
 cydweithio'n agos â rhieni, cyflwyno dulliau newydd o
 annog cydweithio a cheisio bod yn ysgol wirioneddol
 gymunedol.

"Mae'r ysgol yn gyfoethog o ran ei chyd-destun.
 Mae gyda ni gymuned y Brifysgol a'r gymuned gre' o
 ddisgyblion o Wlad Pwyl. Gall ysgol yng nghefn gwlad
 fod yn flaengar. Gall pethe ddiwydd yma. Rhaid i ni
 beidio meddwl bod pethe da wastad yn digwydd rhywle
 arall."

Mae cynnal cymuned glos, ofalgar yn yr ysgol yn
 bwysig iddi - cymuned â'r un gwerthoedd ag oedd yn
 Nyffryn Aman yr 80au.



Llanbedr Pont Steffan



Sefydliad y Merched

Mae Sefydliad y Merched Llanbed yn dathlu canmlwyddiant eleni. Dechreuodd y dathliadau ar 17 Mehefin gydag arddangosfa o grefftau a gwaith llaw a wnaed gan aelodau dros y degawdau, a hynny yn Neuadd yr Eglwys. Agorwyd y digwyddiad gan y Cynghorydd Selwyn Walters. Yn 1938, gefeiliwyd SYM Llanbed â Melton Branch County Womens Association yn Victoria, Awstralia. Deil y cyswllt o hyd.

Llwyddiant Academaidd

Llongyfarchiadau i Ben Lake, Haven, Maesyllan ar dderbyn Gradd BA gydag Anrhydedd mewn Hanes a Gwleidyddiaeth Cymru o Goleg y Drindod Rhydychen, a hefyd Gradd Meistr ar waith ymchwil ar hanes a gwleidyddiaeth Cymru yn yr ugeinfed ganrif.

Mae Ben wedi dechrau ar ei swydd fel Ymchwilydd Grŵp gyda Phlaid Cymru yn y Cynulliad ar 27 Mehefin. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.



Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cymorth Cristnogol Llanbed yn Festri Brondeifi yn ddiweddar. Y siaradwr gwadd oedd Huw Thomas, Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol Cymru. Daeth nifer dda ynghyd a chymerwyd y rhannau arweiniol gan aelodau gwahanol eglwysi.



Cyflwynodd Twynog Davies, cadeirydd cangen Llanbed o Gymorth Cristnogol, rodd i Percy Evans i gydnabod ac i werthfawrogi ei wasanaeth fel trysorydd y gangen am dros deng mlynedd ar hugain ar achlysur ei ymdeoliad yn ddiweddar.

Cymorth Cristnogol

Daeth cynulleidfya deilwng o'r gwahanol eglwysi ynghyd i Festri Brondeifi ar nos Mai 19 ar gyfer oedfa flynyddol Cymorth Cristnogol a hynny yn ystod wythnos y casglu.

Estynnodd y Parch Goronwy Evans groeso cynnes i bawb a soniodd am y fraind o gael adnabod teulu y gŵr gwadd, Huw Thomas. Cyfeiriodd Goronwy hefyd at farwolaeth yr annwyl Joan James a fu yn aelod o bwyllgor Cymorth Cristnogol ac yn gefnogol i nifer o achosion da yn yr ardal gan gynnwys ei gwaith di-flino fel ysgrifennydd y pwyllgor cancer lleol. Bu munud o dawelwch fel arwydd o werthfawrogiad am ei bywyd.

Cymerodd aelodau o'r gwahanol eglwysi ran flaenllaw yn y gwasanaeth cyn i Twynog Davies gael y cyfle i gyflwyno Huw Thomas, Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol Cymru. Brodor o Aberystwyth yw Huw, yn ddisgybl disglair o ysgol Penweddig cyn cael ei dderbyn i astudio Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Rhydychen. Penderfynodd wedyn newid cyfeiriad a dod yn ôl i Brifysgol Aberystwyth i wneud gradd uwch mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Drwy gyfrwng lluniau fideo, cafwyd anerchiad hynod rymus ac effeithiol ganddo wrth gyfleu yn bennaf y tlodi enfawr yn Bangladesh lle mae miloedd o'r trigolion yn byw yng nghysgod llifogydd erchyll. Mae £5 yn medru sicrhau diogelwch i un teulu. Mae gwaith Cymorth Cristnogol yn gwneud gwahaniaeth.

Cyn cloi'r oedfa, cyfeiriodd Twynog am waith clodwiw a diflino Percy Evans sydd wedi gorfod rhoi'r gorau i'r gwaith oherwydd anhwylder. Fe gyflawnodd ei ddyletswydd fel trysorydd y gangen leol gyda graen, egni a brwdfrydedd ac mae'n dyled ni yn fawr iddo. Penderfynodd y pwyllgor lleol wneud casgliad ymysg ei gilydd fel rhodd fechan o werthfawrogiad.

Ar ddiwedd yr oedfa gofiadwy, diolchodd Twynog i bawb a oedd wedi cyfrannu mewn un rhyw fodd at lwyddiant y noson, heb anghofio cyfraniad yr ysgrifenyddes Debra Angel a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch yn y teulu. Gwnaed casgliad o £53 ar ddiwedd yr oedfa, gyda diolch eto am eich cyfraniadau a'ch ymdrechion dros nod Cymorth Cristnogol i wneud gwahaniaeth yn y byd creulon yr ydym yn byw ynddo.

Cwmann

CFFI Cwmann

Roedd hi'n noson fawr yn y Feathers, Aberaeron nos Sadwrn 11 Mehefin wrth i CFFI Cwmann wleda yn ei cinio clwb blynnyddol! Roedd hi'n noson arbennig wrth i Rhodri Young DJ'o drwy'r nos a'r holl aelodau, rhieni a ffrindiau'n dawnsio drwy'r nos! Roedd yr awyrgylch yn un arbennig (yn enwedig ar ôl i Gymru ennill Slovakia yn yr euros). Carys yn haeddiannol iawn yn ennill yr aelod hŷn tra bod dwy dalentog, Elan Jones a Beca Jones, yn ennill yr aelodau iau. Sbort a sbri efo'n llywydd Ann Herbert wrth iddi ein tywys ni drwy ei hatgofion melyn ac yna geiriau o gyngor call am brofiade'r CFFI gan ein gŵr gwadd Iestyn Davies o glwb Capel Iwan! Noson ffantastig!



Yng nghystadleuaeth gneifio CFFI Cwmann, y cneifiwr gorau oedd Tomos Jones a chyflwynwyd y cwpanau am lapio gwlân gan Gwawr Bowen y cadeirydd i Daniel Jones a gan Ann Herbert y llywydd i Beca Jones.

Cynghorau Cymuned

Cyngor Bro Llanllwni

Cyng Dewi Davies (Cadeirydd); Eirlys Owen (Clerc)

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, 9 Mai 2016 am 8.00yh. Cyflwynwyd mantolen flynyddol i'r aelodau, ac arwyddwyd y ffurflenni priodol gan yr is-gadeirydd. Nid oedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol, a chynhaliwyd y cyfarfod arferol am 8.30yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Dymunwyd yn dda i Dewi Thomas.

Trosglwyddo'r Gadeiryddiaeth - Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a dymunwyd yn dda i'r Cadeirydd newydd sef Eric Davies.

Aeth y Cadeirydd newydd i'r gadair a pharau â'r cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd newydd i Dewi Davies am ei waith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac am ei waith o fewn y gymuned dros y blynyddoedd. Etholwyd David Thorne yn is-gadeirydd am y flwyddyn nesaf.

Y Cae Chwarae - Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd dim damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Nodwyd gan Eric Davies bod angen glanhau'r matiau.

Toiledau - Roedd y Clerc i wneud trefniadau i osod toiledau ar y cae chwarae rhwng 1 Mehefin a 30 Medi 2016.

Gwefan Llanllwni - Yr oedd y gwaith wedi ei gwblhau a'r wefan yn weithredol.

Rhos Uchaf - Diolchwyd i Eric Davies ac Eurig Thomas am roi'r cafn blodau yn ei le, ac roedd angen anfon llythyr o ddiolch at T.L Thomas a'i Fab am gasglu'r cafn o Lanwnnen a'i gludo i'r safle.

Mynydd Llanllwni - Cais i gydweithio i gynnu tân ar Fynydd Llanllwni i ddatlu pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed. Roedd Clerc Cyngor Bro Llanfihangel Rhos y Corn wedi cysylltu'r â'r Clerc ers y cyfarfod diwethaf, ac roedden nhw o'r un farn, sef peidio cynnu tân ar y mynydd.

Parcio Gwrthgymdeithasol - Nodwyd bod ceir yn parcio ar y palmant ac ar y ffordd ger Garej Celtic Classics gan achosi trafferthion ar y ffordd ac anawsterau ar y palmant. Penderfynwyd yn unfrydol i gysylltu â Linda Evans am ragor o wybodaeth, cyn cysylltu â Swyddog Diogelwch y Cyngor Sir. Tynnwyd sylw at anhawster i yrrwyr ddod allan o hewl Pantllyn a Parklane. Awgrymwyd gosod llinellau melyn.

Derbyniwyd gair o ddiolch gan y mudiadau canlynol: Gofal Mewn Galar, Teenage Cancer Trust, Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru 2016, Eisteddfod Genedlaethol 2016, Clefyd y Galon (Ardal Llanybydder).

Cyngor Cymuned Llanybydder

Mae sedd ar gyfer cynghorydd newydd. Bydd hyn yn cael ei hysbysebu ar ôl y refferendwm a bydd manylion ychwanegol ar y poster.

Bu fandaliaid wedi difetha rhwydi'r cwrt tenis yn y parc. Mae'r heddlu yn ymchwilio.

Mae'r clerch wedi gofyn am anfon y fan atal cyflymder i Llanybydder, gan fod moduron yn teithio yn llawer rhy gyflym, ac yn ofnadwy o beryglus.

Pob diolch i Mr Aerwyn Evans sydd wedi ymddeol, ar ôl gofalu am flodau'r pentref dros y blynyddoedd. Diolchwyd iddo drwy lythyr gan y clerch. Derbyniodd flodyn o law y Cyng Ieuan Davies ar ran y cyngor cymuned. Rydym yn dymuno pob hapusrwydd iddo yn y dyfodol.

Derbyniwyd £250 gan bwyllgor buddiannau Llanybydder, drwy law Mrs Betty Jones, Tymawr.

Cyflwynwyd £250 i bwyllgor y pentref, drwy law Ffion.

Mae mygiau dathlu pen-blwydd y frenhines wedi cyrraedd. Bydd Mrs Pam Burke yn eu dosbarthu yn y man i blant Llanllwni a Rhydcymerau.

Dathlu hanes y cwmnïau drama

Yn rhan o'r Wyl Ddrama 2016, bydd Theatr Gydwethredol Troedryhiw a Theatr Felin-fach yn cynnal diwrnod arbennig i grynhoi lluniau a hanesion am hen gwmnïau drama'r ganrif ddiwethaf. Ry' ni'n awyddus i gasglu hen luniau, sgriptiau ac ati o bob cwr o'r sir i'w sganio, er mwyn iddynt fod yn rhan o arddangosfa o hanes y ddrama. Felly ewch lan i'r atig a dechreuwch dwrio! Dewch â'ch lluniau i Theatr Felin-fach am 10-12 ar ddydd Sadwrn 17 Medi. Bydd mwy o ddanteithion ar gyfer y diwrnod hwn yn cael eu datgelu maes o law. Dyma fydd y digwyddiad cyntaf o gyfres o ddigwyddiadau Yr Wyl Ddrama yn yr Hydref, gyda'r prif benwythnos ar 22 a 23 Hydref.

Llanybydder

Anrhydedd

Llongyfarchiadau angerddol i Major Gary Evans, Llwynon, Glanduar am yr anrhydedd y mae wedi ei derbyn yn ddiweddar i fod yn Bennaeth Cadfridog y Gweithwyr. Cymeradwyaeth yw y clod hwn am ei wasanaeth yn Swyddog Llesiant i'r milwyr yn y fyddin.

Dim ond ychydig sydd yn cael a derbyn y clod yma trwy y fyddin awyrlu a'r morwyr. 'Go dda ti' a hyfryd meddwl fydd yn dod adref gyda'i wraig Lynne i ymddeol. Mab i Gill a Vivian, Heol-y-Gaer yw Gary. Bydd pawb yn clodfori dy lyddiant.



Pencarreg

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Arwel Jones, Derlwyn ar ei briodas â Jade ddiwedd mis Mai.

Llambed



Emyr Williams, Llambed, sydd wedi rhoi mēr esgryn, gyda thlws fel rhoddwr organau. Mae rhodd Emyr wedi helpu i wella claf yn Canada.

Clwb Clonc

Mae'n amser ymaelodi â Chlwb Clonc. Dim ond £5 y flwyddyn a chyfle i ennill gwobrau da ym mhob rhifyn. Diolch am eich cefnogaeth.

CLONC

CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu yr arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB cyn **diwedd mis Mehefin**.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST: RHIF FFÔN:



ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chwi / to your bank] Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code:-.....-.....

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

Taler / Please pay Nat West, Llambed 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif: 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orffennaf 2016 1st July 2016

Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af Thereafter annually on 1st July

nes y derbyniwch rybydd pellach gennyf drwy lythyr / until you receive further notice me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no: Llofnod / Signature:

Côr Cwmann a'r Cylch

Mae hanner cyntaf 2016 wedi bod yn ddiddorol, pleserus a phrysur. Cychwynnwyd y flwyddyn gyda'r Cyfarfod Blynnyddol a basiodd yn hwylus gyda phob Swyddog wedi paratoi a chyflwyno adroddiadau manwl a chryno.

Cynhaliwyd y Cinio Blynnyddol yng Nghlwb Rygbi Llambled ym mis Chwefror gyda phawb wedi mwynhau'r wledd a'r cymdeithasu.

Ym mis Ebrill gwahoddwyd y Côr i gynnal cyngerdd.

Ym mis Mai cafodd y côr benwythnos i ymlacio yn Llandudno a chyn diwedd y mis bu nifer o'r aelodau yn cymryd rhan mewn cynhyrchiad arbennig yn Eglwys Tregroes i ddatlu dau gan mlwyddiant ers geni y pregethwr mawr Christmas Evans.

Perfformiwyd y cynhyrchiad eto yn Hen Gapel Llwynrhydowen nos Sul, y 19eg o Fehefin gyda nifer dda o'r Côr yn bresennol.

Uchafbwynt y cyfnod, fodd bynnag, oedd y cyngerdd mawreddog a gynhaliwyd yn Neuadd Sant Iago yng Nghwmmann nos Sadwrn y 25ain o Fehefin. Llywydd y noson oedd y Bonheddwr Gwilym Price a oedd yn un o sylfaenwyr y Côr dros hanner can mlynedd yn ôl. Cafwyd araith ddiddorol ganddo am hanes cychwyniad y Côr.

Yn ogystal â pherfformiadau'r Côr cafwyd eitemau o'r radd uchaf gan y gantores enwog Miss Catrin Aur, Kees Huysmans a rhai o blant Ysgol Carreg Hirfaen ond gwefreiddiwyd y gynulleidfa gan lais anhygoel Catrin Aur.

Arweiniwyd y noson gan Cyril Davies ac ef hefyd wnaeth y diolchiadau. Cyflwynodd cadeirydd y Côr, Ken Lewis flodau i Mrs Price ac i Catrin Aur.

Darparwyd lluniaeth i'r gwesteion a'r artistiaid gan Mrs a Mrs Elfan James.

Bydd elw'r noson yn cael ei gyflwyno i Ambiwlans Awyr Cymru ac fe gafwyd anerchiad gan Mr Roberts un o swyddogion yr Elusen sy'n gyfrifol am y gwasanaeth Ambiwlans Awyr a diolchodd i'r Côr am drefnu'r achlysur.

Eglwys Sant Iago

Ar Fehefin 12fed aeth aelodau a ffrindiau eglwys Sant Iago ar eu pererindod blynnyddol. Ymgasglodd pawb ger yr eglwys i ddechrau'r daith ac yna ymlaen i Borth Tywyn lle gawsom gyfle i gerdded ar lan y môr cyn mynd i gael pryd blasus iawn o fwyd yng Ngwesty'r Ashburnum lle bu cymdeithasu hyfryd wrth werthfawrogi y ginio.

Ymlaen â ni wedyn i Gastell y Strade lle cawsom ein croesawu gan y perchennog presennol y Parchedig Patrick Mansel Lewis a chael hanes

pensaerniaeth y castell, sydd wedi bod yn y teulu ers chwe cenhedlaeth, cyn mynd ar daith tu fewn i'r castell a gweld wrth fynd i mewn i'r cyntedd y grisiau ysblennydd, trawiadol ac o amgylch darluniau hyfryd, rhai wedi ei creu gan hennatcu y perchennog.

Roeddent yn agoriad llygad ac o safon uchel iawn a'i maint yn syfrdanol yn cynnwys golygfeydd ac hanes, hefyd darluniau o'r teulu.

Cyn ymadael cynhaliwyd gwasanaeth bendithiol iawn mewn awyrgylch bendigedig o weddiâu, darlenniad ac emynau gyda'r parchedig Patrick Mansel Lewis yn cyfeilio ar y piano grand.

Ar ôl y gwasanaeth roedd Mrs Claire Mansel Lewis wedi paratoi te ar ein cyfer.

Diolchodd y ficer yn gynnes iawn iddynt am eu croeso a'r hanes diddorol am y castell.

Diolchodd Mr Danny Davies i'r ficer am drefnu pererindod mor ddiddorol ac i bawb a fu yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd i sicrhau llwyddiant y diwrnod.

18 oed

Dathlodd Tomos Rhys Jones, Araul ei ben-blwydd yn 18 oed. Pob lwc a phob dymuniad da i ti.

Pen-blwydd Arbennig

Ganol mis Mehefin dathlodd Ann Davies, Brynteifi ei phen-blwydd yn 70 oed. Dymuniadau gorau a gobeithio dy fod wedi cael diwrnod i'w gofio.

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm a gasglwyd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol oedd £983.41. Diolch i'r casglwyr am roi o'u hamser ac i bawb a gyfrannodd. Diolch yn fawr.

Ysbyty

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Chris Lloyd, 7 Heol Hathren yn dilyn ei law driniaeth yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Estynnwn gydymdeimlad â Mary Randell a'r teulu, Blaencwm ar farwolaeth ei brawd yn ddiweddar.

Radio Cymru

Sgwn i faint ohonoch chwi glywodd Avril Williams, Y Fedw yn siarad ar raglen Geraint Lloyd yn ddiweddar? Bu'n sôn am hanes y pentref a'r newidiaeth yn ystod y blynnyddoedd diwethaf.

Diolch am rhoi Cwmann ar y map unwaith eto.

Diolch

Dymuna Tomos Rhys, Araul, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd ar

achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr iawn i chi gyd.

Dymuna Dai Griffiths, Brynathren ddiolch o gallon am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed. Diolch hefyd i bawb wnaeth alw heibio i ddymuno yn dda iddo.

America

Mae Sara Evans, Lllysycoed wedi mynd i America i weithio am rai wythnosau i ddysgu plant i nofio. Rwy'n siŵr dy fod yn hyderus ac yn mwynhau'r profiad arbennig yma. Pob lwc a mwynha.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd cyfarfod agored ar nos Lun, 6ed o Fehefin. Trafodwyd ychydig o fusnes a diolchodd Elma i bawb am gyfrannu a helpu diwrnod y Carnifal a dymunodd yn dda i Gwyneth sydd yn ein cynrychioli yn y Cyfarfod Blynnyddol yn Brighton.

Roedd yn hyfryd i weld y ganolfan yn gyfforddus lawn gan fod llawer o aelodau o Sefydliad y Merched, Côr Corisma, Clwb Gwawr ac aelodau o Ferched y Wawr, Llambled wedi cael gwahoddiad i fwynhau yng nghwmni Helen Whithouse o Hwlffordd sydd yn gweithio gyda House of Colours ers 9 mlynedd.

Dewisodd Liz o Lanybydder i ddangos pwy liwiau oedd yn gweddu a sut i ddewis lliwiau addas.

Diolchodd Gwen i Helen am noson ddiddorol ac hefyd i Noleen, Glesni a Joyce am baratoi cwpanaid i bawb. Enillwyd y raffl gan Brenda Morgan, Mair Green, Ann Astinoton a Morfudd Slaymaker.

Clwb 225 Mis Mai

1. Lena Williams, Heol Hathren, 72. 2. Terry a Sian Jones, Awel y Grug, Cwrt Deri, Cwmann, 47. 3. Siân Roberts-Jones, Croesor, Cwmann, 208. 4. Canon a Mrs W. Richards, Maesteifi, Cwmann, 15. 5. Myfanwy Davies, Ty Capel, Parc-y-rhos, Cwmann, 130. 6. Gary a Rosemary Rowcliffe, Nant y Glyn, 67. 7. Elizabeth Riley, 77. 8. Seren Ling, Glynbedw, Cwmann, 104. 9. Alan Morgans, Rhydowen, 136. 10. Eluned Lewis, Tanlan, Cwmann, 154.

Clwb 225 Mis Mehefin

1. Terry a Sian Jones, Awel y Grug, Cwrt Deri, Cwmann, 47. 2. R. Jones, Cherry Pines, Cwmann, 122. 3. Owain a Bethan Jones, Tryweryn, Cwmann, 150. 4. Aled Williams, Sarn Helen, Cwmann, 40. 5. Ryan a Gabrielle Davies, Delfan Cwmann, 107. 6. D.J. Davies, Wernfraith, Cwmann, 232. 7. Gillian Mason, Llambled, 65. 8. Gwen Jones, Gellidewi Uchaf, Cwmann, 89. 9. Ann Douch, Maestroyddin Fawr, Harford, 6. 10. Rhys Jones, Annedd,

Llanybydder, 21.

Neuadd Sant Iago Clwb 125

1. Women's Workshop, Cwmann, 112. 2. Aled Williams, Sarn Helen, Cwmann, 26. 3. Lorina Edwards, Wern View, Cwmann, 131. 4. Jean Davies, 2 Heol y Maes, Pencarreg, 58. 5. Alun Jones, Glanrhyd, Parcyrrhos, 81. 6. Eirian Jones, Hollies, Heol y Gogledd, Llambled, 61. 7. Christopher Lloyd, 7 Heol Hathren, Cwmann, 147.

Carnifal Cwmann

Ar brynhawn Sadwrn heulog ar yr 28ain o Fai, cynhaliwyd Carnifal blynnyddol pentref Cwmann a hynny ar gae'r pentref. Er gwaethaf bygythiadau'r tywydd fe wenodd yr heulwen wrth i'r frenhines a'i gosgordd gael eu harwain i'r cae gan Eric Williams a'i gerddoriaeth bywiog a Brigad Dân Llambled, a thyrfa groesawgar yn eu disgwyl. Y frenhines eleni oedd Chloe Lewis, y morynion oedd Gwenllian Llwyd a Lilly-May, y macwyaid oedd Osian Jones a Jac Jones a brenhines y rhosod oedd Annie Thomas. Beirniaid y carnifal oedd Nerys Douch a Rhodri Beaumont a Tristan a Jennie Nash, ac nid oedd eu tasg yn un rhwydd wrth i nifer o blant ac oedolion fynd i ymdrech fawr gyda'u gwisgoedd. Cafwyd 3 float yn cystadlu eleni o dan y thema Chwaraeon a phob un yn dilyn trywydd gwahanol; Aeth y wobr gyntaf a £100 i'r gemau olympaidd, £75 a'r 2il wobr yn mynd i'r Euro 2016, a'r 3ydd a £50 i Sports Direct.

Enillwyr y carnifal oedd: **Cylch Meithrin** 1af: Esther Llwyd, 2il: Aron Russell, 3ydd: Ifan Jones. **Dosbarth Derbyn** 1af: Deina Harthy, 2il: Elin Dafydd, 3ydd: Cai Davies. **BI 1&2** 1af: Megan Dafydd, 2il: Tudur Llwyd, 3ydd: Ellie Gregson & Megan Morris. **BI 3&4** 1af: Ronnie Evans, 2il: Casi Gregson, 3ydd: Jaymie Evans. **BI 5&6** 1af: Sion Harthy. **Pâr gorau** 1af: Casi & Ellie Gregson, 2il: Esther Llwyd & Cai Wyn, 3ydd: Megan Morris & Ava Gregson. Fe aeth y Best Entry i Ronnie Evans fel robot, ac fe gipiodd Nia Wyn Williams y cymeriad gorau yn nosbarth yr oedolion. Llongyfarchiadau i bawb am eu hymdrech.

Yn ogystal â'r mabolgampau, roedd nifer o atyniadau, gweithgareddau a stondinau amrywiol i gynnal diddordeb pawb yn ystod y prynhawn. Bu nifer o blant yn mwynhau cymeryd rhan mewn sgiliau syrcau, ennill gwobrau ar y stodin hwpla, cystadlu mewn gweithgaredd bêl-droed a rygbi, cael hwyl ar y castell bownsio a'r Dual Gladiator a bwyta llond eu bol gyda darpariaeth y W.I a byrgers a hufen ia Pantri PantyDderwen.

Cwmann

Roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus eleni eto ac hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y dydd (rhy niferus i'w henwi), i'r rhai a gyfrannodd wobwr at y raffl fawr, ac yn enwedig i'n noddwyr: Pwyllgor Cymuned Pencarreg, Douglas Brothers, W.D Lewis a Robert's Garden Centre. Bydd elw'r dydd yn mynd tuag at adnewyddu'r parc chwarae ar gae'r pentref.



Joshua Morris o Ysgol Carreg Hirfaen yn ennill ei gwpan cyntaf yn nhwrmament pêl-droed Llanybydder. Cafwyd bore ardderchog o chwarae yn y pentref.



Cafodd Lloyd Thomas, Llaiteifi, Caecoedmore, Cwmann ei ddewis i fod yn fascot yn ddiweddar i dwrnament 7 bob ochr y byd. Cafodd y fraint o arwain Seland Newydd a'r Ariannin i'r cae yn Stadiwm Twickenham ar y 22 o Fai ar gyfer y ffeinal.

Gwnaeth Lloyd fwynhau'r profiad yn fawr iawn, ac mae'n trysoru kit unigryw a gafodd fel rhan o'r diwrnod.

Mae Lloyd yn ddisgibl yn ysgol Carreg Hirfaen.



Pêl-droedwyr o fri!

Yn ystod y tymor pêl-droed a aeth heibio, bu Beca Mai Roberts a Lowri Davies o Gwmann yn chwarae i dîm pêl-droed merched Ysgolion Gorllewin Morgannwg o dan 13eg oed. Bu'r ddwy yn teithio'r wlad dros fisoedd y gaeaf yn ymarfer a chwarae yn erbyn tîmau fel De Morgannwg, Caerdydd a'r Fro, y Cymoedd, a.y.b. Ar ôl ennill pob gêm drwy'r tymor, cyrhaeddodd y tîm y ffeinal a gafodd ei chwarae ar gaeau TNS yng Nghroesoswallt ym mis Mai. Enillwyd y gêm honno yn erbyn Caerdydd a'r Fro o 3 gôl i 1, ac o ganlyniad, daeth tîm Gorllewin Morgannwg yn Bencampwyr Cymru yn y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau iddynt!

Rhedeg er mwyn codi arian i Ymchwil Cancer

Ychydig dros flwyddyn yn ôl, gosododd Nicola Higgs, Cwrt Deri sialens i'w hun i redeg 30 o rاسus cyn ei phen-blwydd yn 30 oed, a hynny er mwyn codi arian i Ymchwil Cancer er cof am ei mam.

Roedd hyd y rاسus yn amrywio o 5k, 10k, hanner marathon, marathon llawn, a llawer mwy. Yn ogystal â hyn cerddodd i fyny Penylan, yr Wyddfa a Chader Idris dros benwythnos ei phen-blwydd ddechrau mis Mehefin. Hoffai ddiolch i bawb sydd wedi ei chefnogi ymhob dull a modd, ac mae swm yr arian mae wedi ei godi wedi croesi'r £3,000 erbyn hyn.

Rheswm i'w llongyfarch yn wir, ond mae yna reswm arall i ddathlu – llongyfarchiade iddi hi a Bedwyr ar eu dyweddiad.

Gweler llun o Nicola yn Adroddiad Sarn Helen ar dudalen 15.

Ymweld â Strasbwrg

Ddiwedd mis Mai, cefais i a fy nghyd-aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Bro'r Dderi, Lowri Pugh-Davies y cyfle amhrisiadwy i fynychu taith i Ganolfan Ieuencid y Cyngor Ewropeaidd yn Strasbwrg drwy raglen cynhwysfawr ryngwladol C.Ff.I. Cymru.

Daeth cynrychiolwyr o fudiadau ieuencid dros 30 o wledydd ar draws Ewrop, gan amrywio o ardaloedd gwledig a threfol, i Strasbwrg i drafod sut y gallwn greu cymdeithas gynwysedig drwy astudio'r Siarter Gymdeithasol Ewropeaidd. Dyma bwn oedd o ddiddordeb i mi ac roeddwn yn awchu i fynychu a chyfrannu i'r gynhadledd.

Ar y diwrnod cyntaf cawsom gwrdd â phawb a dod i nabod ein gilydd drwy weithgareddau gwaith tîm. Pleser oedd cwrdd â chymaint o bobl diddorol o gefndiroedd eang ac amrywiol iawn. Roeddwn wrth fy modd wrth i ni gael noson ryngwladol ar y nos Lun i flasw bwyd a chael cip o ddiwylliannau gwahanol wledydd ac yn sicr, ni chafodd neb siom wrth flasw ein chwisi Penderyn! Piniel i mi oedd cael blas o wisgoedd a dawnsfeydd traddodiadol pawb, a mentrodd Lowri a minnau i ganol y llawr yn ein gwisgoedd traddodiadol i ddawnsio gwerin!

Y diwrnod canlynol, cawsom blymio'n ddwfn i'r pwnc dan sylw a chlywed problemau a sialensiau gwahanol wledydd a synais cymaint o hawliau dynol a chymdeithasol oedd yn cael eu hanwybyddu gan lywodraethau ar draws Ewrop ac yn wir yn ein gwlad ninnau. Hefyd sylweddolais bod nifer o broblemau cyffredinol megis dim band lydan ond hefyd y problemau na faswn i yn y wlad yma'n gallu amgyffred. Clywsom am gymunedau yn Romania heb ddŵr glân a diffyg hawliau merched yn Azerbaijan.

Cawsom brynhawn rhydd i ymlwybro hyd strydoedd prysur a phrydferth y ddinas. Cafodd yr ardal 'Petite France', Ardal Dreftadaeth y Byd UNESCO gryn argraff arnaf.

Braf oedd clywed am brosiect ym Macedonia oedd wedi'i chyllido'n rhannol gan elusennau lleol a'r Cyngor Ewropeaidd sy'n annog merched ardaloedd gwledig i fynd am brofion cancr y fron gan gynnig trafnidiaeth i'r clinigau. Dyma gam mawr ymlaen i dorri'r tabŵ o ddoctoriaid yn trafod cyrff merched yn y wlad.

Cawsom hefyd gyfle i ymweld â mudiadau a sefydliadau o gwmpas Strasbwrg oedd yn derbyn cefnogaeth o'r Cyngor Ewropeaidd. Penderfynais ymweld â chanolfan arddio sy'n rhoi cyfle i unigolion di-waith gael swydd gyfrifol. Roedd y gweithiwr yn cael cyfnod o 6 mis yn y swydd lle roeddynt yn gweithio 3 diwrnod 9 hyd 5 ac yn ystod y ddau ddiwrnod arall roeddynt yn cael cefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol i gwblhau CV, ymarfer sgiliau cyfweiliad a llawer mwy. Cynllun arwyddocaol wrth sicrhau strwythur pendant i'w bywydau ac roeddynt yn pwysleisio pwysigrwydd dibynadwydd gan osod sail dda a fwy cadarn i ddyfodol yr unigolion.

Elfen hynod o ddiddorol o'r daith oedd astudio'r Siarter Gymdeithasol Ewropeaidd. Dogfen sy'n rhestru ac esbonio hawliau cymdeithasol sy'n sail gadarn i gyfreithiau holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd.



Teimlais gyffro mawr wrth weld trawsdoriad eang iawn o bobol ifanc ar draws Ewrop yn uno i chwilio atebion a llwybrau i gryfhau hawliau yr Ieuencid. Ystyriaf fy hunan yn berson ffodus iawn a gwnes ffrindiau oes ar y daith hynod addysgiadol yma. Y trueni yw y bydd cyfleoedd fel hyn yn dod i ben i aelodau'r Mudiad ac i fudiadau eraill yng Nghymru yn y dyfodol.

Elliw Dafydd
CFfI Bro'r Dderi

Llwyddiant mawr yn Eisteddfod yr Urdd



Deuawd Bl. 7 – 9 – Beca ac Elan, Aelwyd Llambled – 2il a Deuawd Cerdd Dant Bl. 9 ac Iau – 3ydd.



Monolog Bl. 10 a dan 19 oed – Cadi Jones, Ysgol Bro Pedr 3ydd.



Llefaru Bl. 10 a dan 19 oed – Nest Jenkins, Ysgol Bro Pedr 1af.



Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Grŵp Bl. 10 a dan 19 oed – Aelwyd Llambled – 2il.



Unawd Bl. 3 a 4 – Betrys Llwyd Dafydd, Ysgol Y Dderi – 3ydd.



Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Unigol Bl. 10 a dan 19 oed – Charlotte Saunders, Cwrtnewydd [Coleg Llanymddyfri] – 3ydd.



Parti Deusain Bl. 9 ac Iau [Adran] – Aelwyd Llambled 2il.



Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac Iau – Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd [Ysgol Aberaeron] – 1af a Llefaru Bl. 2 ac Iau – 2il.



Ensemble Lleisiol Bl. 7 – 9 – Ysgol Bro Pedr 2il.



Parti Unsain Bl. 6 ac Iau i ysgolion hyd at 50 o blant – Ysgol Cwrtnewydd 2il.



Côr Bl. 9 ac Iau [Adran] – Aelwyd Llambled 3ydd dan arweinyddiaeth Rhianon Lewis a Lois Williams yn cyfeilio.

Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Llanybydder

Carnifal Llanybydder

Ar brynhawn Sadwrn 25ain o Fehefin cynhaliwyd Carnifal blynyddol Pentref Llanybydder yng nghae'r rygbi.

Y frenhines eleni oedd Hana Jones, y morwynion oedd Lily Smith a Kiah Brown, brenhines y tylwyth teg oedd Amy Rees a'r tywysog oedd Mason Brown. Roedd pawb yn edrych yn brydferth iawn a chafwyd diwrnod hyfryd.

Llywydd y dydd oedd Miss Cherry Leishman a chafodd diwrnod hwylus tu hwnt yn beirniadu y cystadlaethau a chael amser i chael sgwrs gyda'i ffrindiau yn Llanybydder. Braff oedd cwrdd a Miss Leishman ar ôl iddi symud o Llanybydder tua 30 mlynedd yn ôl.

Cafwyd 5 fflôt arbennig yn cystadlu eleni o dan thema 'Hollywood' lle aeth y wobwr cyntaf i 'Grease', ail wobwr i 'Hollywood Oscars' a 'Snow White' yn drydydd.

Enillwyr y carnifal oedd:

O dan 2 oed - 1af Hari Jac, 2il Elis Parry, 3ydd Sophie Benson a Cadi Ann Cope

3-5 oed - 1af Owain Morris, 2il Soffia Evenden, 3ydd Dyfan Davies a Beca Davies

6-10 oed - 1af Dion Morris, 2il Jessica Thomas, 3ydd Harri Thomas

11-15 oed - 1af Mili Bonning, 2il Nia Davies, 3ydd Elain Williams

16+ oed - 1af Katy Baker, 2il Nia Jones, 3ydd Gary Jones

Pâr Gorau - 1af Titanic - Chloe a Jamie Jones, 2il Minnie a Mickey Mouse - Siona Evans a Cadi Ann, 3ydd Leonardo with his oscar - Logan a Carter Jones

Cerbyd gorau - 1af Minnie Mouse - Cadi Ann, 2il Black Pearl - Dion Morris, 3ydd Elvis arrives in Llanybydder - Elis Parry

Enillwyr y carnifal oedd Dion Morris gyda'i Black Pearl - cafwyd cwpan a rhoddir gan Eurwyn a Irene Davies. Llongyfarchiadau i bawb am eu hymdrech.

Roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus eleni eto ac hoffai'r pwyllgor ddiolch i pawb a gyfrannodd at lwyddiant y dydd mewn unrhyw ffordd bosib, i'r noddwyr ac i'r rhai gyfrannodd wobwr at y raffl mawr.

Cydymdeimlo

Danfonwn ein cydymdeimlad â Wendy, Gethin, Steffan a Nathaniel Griffiths, Pant-y-dderwen ar golli ei thad, tad yng nghyfraith a thad-cu yn ystod y mis.

Pwyllgor Buddiannau'r Henoed

Cynhaliwyd Noson Goffi llwyddiannus yn Festri Aberduar ar Fai 13eg. Agorwyd y noson gan ein llywydd Mrs Pam Burke.

Rhoddodd araith bwrpasol iawn a chyfraniad hael i'r coffrau.

I ddiddanu'r gynulleidfa oedd plant Ysgol Llanybydder a Chôr Llaisiau'r Werin a chafwyd mwynhad wrth wrando ar y plant a'r côr.

Yr ydym fel pwyllgor yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd yn dod o flwyddyn i flwyddyn. Gwerthwyd y nwyddau yn gyflym. Roedd pawb wedi bod yn hael iawn wrth gyfrannu a phrynu. Enillwyr y raffl oedd:

1. D. Evans 01974 251278. 2. Silyn Thomas, Heol-y-Gaer. 3. Doris Wilson, Heol y Gaer. 4. Elma Jones, Fferm Tangaer. 5. Evans, Ffynnon Fair. 6. C. Evans, Esgairdawe. 7. Aelod o'r W.I. 01267 267144. 8. Gerwyn Jones 07581 973247. Hamper Fwyd - Ann Jones, Gwarduar. Hamper Ffrwythau - Yvonne Evans, Tandderi.

Dymuniad y Pwyllgor yw diolch i bawb am bob cyfraniad ac hefyd am y gwaith o sicrhau llwyddiant y noson ac i bawb oedd yn bresennol ar y noson.

Bydd y pwyllgor nesaf yn yr ysgol ar Hydref 4ydd am 7.00y.h.

Ysgol Llanybydder

Bu'n fis prysur iawn i'r disgyblion yn Ysgol Gynradd Llanybydder. Gwahoddwyd plant yr ysgol i ddiddanu yn Noson Goffi'r Henoed yng Nghapel Aberduar, yn y Llew Du ar y 11eg o Fehefin i godi arian i Ymchwil Cancr, ac yn Gymanfa Ganu ar gyfer wythnos garnifal ar y 19eg. Diolch i'r holl ddisgyblion aeth i gynrychioli'r ysgol a diolch i'r holl bwyllgorau am y gwahoddiad.

Ar y 10fed o Fehefin, aeth Blwyddyn 3 a 4 i dwnamaint criced yn Llandysul a drefnwyd gan yr



Ymchwil Cancr Llanybydder a'r ardal

Ar yr 11eg Mehefin cafwyd Barbeciw yn y Llew Du, Llanybydder at Ymchwil y Cancr. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn a gwnaethpwyd elw o £1,090 at yr achos. Llywydd y dydd oedd Mrs Angharad Jones, Llanybydder. Yn y llun mae'r Cynghorydd Ieuan Davies, Mrs Angharad Jones a'i merch fach Alaw.

Urdd. Cafwyd diwrnod hwylus dros ben.

Hyfryd oedd gweld y disgyblion yn mwynhau twrnamaint 'Dodgeball' ar brynhawn Ddydd Gwener, 24ain o Fehefin yn yr ysgol. Achlysur oedd hyn i godi arian ar gyfer Sefydliad y Galon Prydain. Codwyd swm sylweddol o arian ar gyfer yr achos teilwng.

Ar y 6ed o Orffennaf bydd mabolgampau'r ysgol, i ddechrau am 1yp ac hoffem estyn diolch i Lyn ac Avril Jones am eu cyfraniad caredig o £70 tuag at y tlysau - diolch yn fawr iawn i chi.

Bydd cyngerdd gadael Blwyddyn 6 ar ddydd Gwener 15fed o

Orffennaf i ddechrau yn yr ysgol am 1yp. Dymunwn bob hwyl i'r disgyblion hynny sy'n ein gadael eleni - byddwn yn gweld eich eisiau. Pob hwyl yn yr Ysgol Uwchradd ac yn y dyfodol.

Pentref Llanybydder

Bydd y pentref yn cynnal gwasanaeth 'Brwydr Y Somme 1916' yn Eglwys Llanybydder, ar y 17eg o Orffennaf am 11:00. Yna, bydd gorymdaith i'r gofodail ar y sgwâr cyn mynd lawr i'r Clwb Rygbi ar gyfer lluniaeth ysgafn. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni.

Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Partner Rheoli Cyfoeth

01239 613746

07816 923618

Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.

Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymddeol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi

Am gyngor ariannol annibynol

Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad

Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT

07816 923618 01239 613746

richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpllp.co.uk

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwy cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 - 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys: cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:



01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk





Ras y Llychau

Nos wener, 27ain o Fai, cynhaliwyd un o rاسus pencampwriaeth y clwb sef ras 5k y llychau, sy'n dechrau a gorffen ger yr Abaty yn Nhalyllychau ac mae'r ras hon, sy'n cael ei drefnu gan un o aelodau'r clwb ac un o drigolion y pentref ar ran yr ysgol gynradd leol, bob amser yn denu tyrfa dda ac eleni gwelwyd 64 o ieuencid a 167 o oedolion yn rhedeg. Fe enillodd Rhys Williams, Sarn Helen y ras 1 filltir i blant cynradd am yr ail flynedd yn olynol mewn 6.50 gyda Rhodri Gregson, Sarn Helen yn ail agos mewn 6.58 ac aelod o Harriers Caerfyrddin, Jake Lynock yn drydydd mewn 6.59. Sara Price enillodd ras y merched mewn 7.34 gyda Sara Thomas, Sarn Helen yn ail mewn 7.38 a Violet Caulkett, Sarn Helen yn 3ydd mewn 8.03. Ieuencid eraill Sarn Helen a gymerodd rhan oedd Jamie Jones 7.00, Daniel Morgans 7.05, Harri Rivers 7.32, Beca Jones 8.12, Nia Williams 8.30, Sean Wood 8.36 and Maddie Caulkett 9.08. Cafwyd cystadleuaeth dda iawn yn y ras 5k gyda'r pedwar rhedwr cyntaf yn gorffen o dan deunaw munud. Y cyntaf dros y linell derfyn oedd Jack Temlett, Trots mewn 17.10 gyda Ken Caulkett, Sarn Helen yn 2il agos iawn mewn 17.13 a Gruffudd Jenkins, AC Caerdyddyn 3ydd dynion agored mewn 17.57. Gareth Payne o Sarn Helen oedd y rhedwr cyntaf yng nghategori y dynion dros 40 mewn 17.44, gydag aelod arall y clwb, Glyn Price yn 2il mewn 18.15 a Wayne Lewis, Amman Valley yn 3ydd mewn 19.25. Archi Morgan, Harriers Caerfyrddin enillodd y ras i fechgyn dan 18, ac yntau ond yn dair ar ddeg oed, mewn amser arbennig o 18.04. Teilo Stone o Ysgol Bro Dinefwr yn 2il mewn 18.50 a Callum Lovatt Harriers Caerfyrddin yn 3ydd mewn 18.56. Pheobe Davies, Harriers Caerfyrddin oedd enillydd y ras i ferched dan 18 mewn amser o 20.34 a hithau hefyd oedd y ferch gyntaf i groesi'r llinell derfyn sy'n dipyn o gamp a hithau ond yn ddeuddeg oed. Yr ail ferch yn y ras o dan deunaw oedd Sioned Wallwork, Ysgol Penweddig mewn 21.38 a Caitlin Page Sarn Helen yn 3ydd yn yr un categori mewn 23.39. Melanie Davies oedd yr ail ferch i groesi'r llinell derfyn ac felly'n gyntaf yng nghategori y merched agored mewn 21.00, gyda Clara Davies yn 2il mewn 23.39 ac Elin Neal yn 3ydd mewn 25.11. Helen Willoughby, Sarn Helen enillodd y ras i ferched dros 35 mewn 21.52, gydag aelod arall o'r clwb Eleri Rivers yn 2il mewn 22.17 a Catherine Bleasdale, Trots yn 3ydd mewn 22.40. Aelodau eraill o'r clwb i redeg oedd: Emma Gray 34:16, Gwen Thomas 32:58, Jan Jones 31:16, Isabella Caulkett 30:42, Elen Morgans 29:49, Gareth Jones 28:22, Nicola Higgs 27:48, Helen Davies 26:55, Jenny Caulkett 25:53, Carys Davies 25:42, Dafydd Lloyd 25:08, Mitchell Readwin 24:46, Aneurin James 24:36, Heather Hughes 24:34, Grace Page 24:16, Haydn Lloyd 24:3, Dawn Kenwright 23:27, Jack Caulkett 23:18, Terry Jones 23:06, Joseph Thomas 22:25, Jake Gartland 21:57, Murray Kisbee 21:56, George Eadon 21:23, Tony Hall 20:52, Gwion Payne 20:49, Tomos Morgans 20:43, Nigel Davies 20:11, Mike Davies 19:48, Richard Marks 19:30, Carwyn Davies 18:43, Simon Hall 18:31.

Ras y cestyll

Ar benwythnos braf y 4ydd a'r 5ed o Fehefin, cynhaliwyd Ras y Cestyll sy'n dechrau yng Nghastell Caernarfon ar fore Sadwrn cyn gorffen dros 200 milltir yn ddiweddarach yng Nghastell Caerdydd ar brynhawn Sul. Roedd 64 o dimoedd a 20 rhedwr ym mhob tîm a phob un yn rhedeg rhwng 8-13 milltir yr un.

Yn anffodus, oherwydd anafiadau ni fedrodd nifer o redwyr redeg, ond er hyn roedd gan Sarn Helen dim cryf ac roedd 5 ohonynt yn rhedeg ras y cestyll am y tro cyntaf i dim Sarn Helen. Y tim eleni, yn eu trefn rhedeg o Gaernarfon i Gaerdydd, oedd Mick Taylor, Caryl Wyn Davies, Felipe Jones, Eleri Rivers, Dee Jolly, Carwyn Thomas, Carwyn Davies, Daniel Hooper, Thomas Willoughby, Ken Caulkett, Glyn Price, Nigel Davies, Michael Davies, Gareth Payne, Tim Jones, Gethin Jones, Tony Hall, Kevin Hughes, Helen Willoughby a Simon Hall. Gwnaeth aelod newydd y clwb Felipe Jones orffen yn 2il yn ei ras ef o 12.3 milltir rhwng castell Criccieth a Maentwrog a fe enillodd dosbarth y "veterans" yn y ras honno. Bu'r penwythnos yn un llwyddiannus unwaith eto i'r clwb gan iddynt orffen yn 14eg safle yn gyfangwbl a 13eg yn y categori agored a'r 7fed tîm yng Nghymru a hynny mewn 23awr 35munud ac 8 eiliad. Mae'n diolchiadau eleni eto yn mynd i Lyn ac Eileen Rees Tanrhos am eu holl waith caled i wneud hi'n bosibl i'r aelodau gymryd rhan yn y digwyddiad hwn ac am eu cefnogaeth gyson yn ystod y penwythnos.

Ras Felinfach

Nos wener, Mehefin 24ain, cynhaliwyd ras flynyddol Felinfach, sydd hefyd yn rhan o bencampwriaeth y clwb, gyda rاسus y plant yn dechrau am 6.30 a'r oedolion am 7.30. 800 metr oedd hyd y ras i'r plant 8oed a llai a'r enillydd oedd Liam Regan, Bro Pedr mewn 3.19, Cai Allen, Sarn Helen yn 2il mewn 3.22 a Daniel Warrender, Plascrug yn 3ydd mewn 3.25. Ffion Haf

Thomas, Llandysul oedd y ferch gyntaf i groesi'r llinell derfyn mewn 3.37 gyda Casi Gregson, Sarn Helen yn ail agos iawn mewn 3.39 a Nia Williams, Sarn Helen yn 3ydd mewn 3.52. Hefyd yn cynrychioli Sarn Helen oedd Sara Davies a orffennodd mewn 4.12. Roedd y ras i blant o 9-11 oed yn 1500 metr ac roedd hi'n ras agos iawn rhwng y bachgen a'r ferch gyntaf, ond Rhys Williams, Sarn Helen aeth a hi mewn 6.17 ac Alaw Jones o Gwrtnewydd yn ail ond yn ferch gyntaf mewn 6.19. Yr ail fachgen oedd Guto Miles, Felinfach mewn 6.31 a Jamie Jones Sarn Helen yn 3ydd mewn 6.48. Yr ail ferch oedd Seren Davies, Carmarthen Harriers mewn 6.44 a Gwenan Rees, Ciliau Parc yn 3ydd mewn 6.57. Aelodau eraill a gynrychiolodd Sarn Helen oedd Gwenllian Llwyd 7.00, Leah Regan 7.30, Gruff Tomos 7.58, Beca Jones Sarn Helen 8.00, Katy Moyes 8.06, Sean Wood 8.12, Llyr Rees 9.16 a Maddie Caulkett 9.36. Roedd y ras i blant uwchradd yn 3000 metr a'r enillydd oedd Bryn Janes, Bro Pedr mewn 11.36, Gwion Payne, Sarn Helen yn 2il mewn 11.55 a Daniel Willoughby yn 3ydd mewn 12.09. Yn ras y merched, Sioned Wallwork, Ac Caerdydd aeth a hi mewn 12.05, Gwawr Davies yn 2il mewn 13.12 a Cerys Jones, Dyffryn Teifi yn 3ydd mewn 15.41. Hefyd yn cynrychioli Sarn Helen oedd Dafydd Lloyd 13.06, Jack Caulkett 13.40 ac Isabella Caulkett 16.45. Roedd 56 o oedolion yn rhedeg y ras 6 milltir o gwmpas Felinfach, Talsarn a'r cyffiniau a'r rhedwr buddugol oedd Daniel Bodman o Aberdare mewn amser anhygoel o 31.55, Michael Lai yn 2il mewn 34.57 a'r 3ydd dyn agored oedd Ian Evans, Aberystwyth AC mewn 35.51. Jamie Biggs oedd yn 3ydd yn y ras ond yn gyntaf yng nghategori y dynion dros 40 mewn 35.22. Glyn Price, Sarn Helen oedd yn 2il mewn 35.58 a Norman Biggs, Aberystwyth AC yn 3ydd mewn 36.04. Rhedwyr Sarn Helen enillodd yr holl wobrau yng nghategori y dynion dros 50 oedd, Richard Marks oedd yn fuddugol mewn 37.10, Tony Hall yn 2il mewn 40.24 a Mick Taylor yn 3ydd mewn 40.53.

Gwelwyd gwynebau newydd yn ras y merched gyda'r enillydd, Emma Dalfrey o glwb Caerdydd yn cwblhau'r ras mewn 41.17 a hi oedd enillydd categori y merched agored, gyda Dee Jolly, Sarn Helen yn 2il ferch agored mewn 42.42 ac Aimee Ferguson, Brecon AC yn 3ydd mewn 43.44. Aelod o Sarn Helen, Helen Willoughby, oedd yr ail ferch i orffen y ras a hi oedd enillydd y merched dros 45 mewn 41.53, yr 2il yn yr un categori oedd Catherine Bleasdale, Trots mewn 43.06 ac yn 3ydd oedd Dawn Kenwright 44.37. Yna yng nghategori y merched dros 35, yr enillydd oedd Tasha Sexton, Pembrokehire Harriers mewn 42.23, a'r 2il yn mynd i Sian Roberts-Jones, Sarn Helen mewn 43.14 a'r 3ydd oedd Jenny Caulkett hefyd o Sarn Helen mewn 48.54. Cafwyd perfformiadau da gan aelodau eraill y clwb ac mae'r canlyniadau fel y ganlyn :- Simon Hall 36.00, Carwyn Davies 36.33, Michael Davies 38.25, Nigel Davies 38.52, George Eadon 40.02, Huw Price 40.54, Murray Kisbee 44.18, Mitchell Readwin 46.34, Carys Davies 50.58, Delyth Crimmes 51.08, Bronwyn Coltman 52.44, Nicola Higgs 55.19, Gareth Jones 55.23, Emma Davies 64.56 a'r ysbrydoledig Jane Holmes 66.11.

Rhedwyr profiadol y clwb yn dangos y ffordd

3 diwrnod wedi cwblhau ras flynydd Sarn Helen, fe wnaeth Richard Marks gystadlu yn ras gyntaf y trac ym Mhencampwriaeth Cynghrair Meistri Cymry yn Abertawe. Fe redodd mewn amser o 5.17 yn y 1500 metr i'w osod yn gyntaf yng nghategori y dynion dros 60, ac yna daeth yn 2il yn yr un categori yn y ras 3000 metr mewn 11.20. Yna ar Fehefin yr wythfed yn Aberhonddu, cynhaliwyd yr 2il ras yn y gystadleuaeth, a phenderfynodd Marks y byddai ond yn cystadlu yn y ras 3000 metr, a oedd yn benderfyniad da oherwydd fe gurodd ei amser targed trwy orffen mewn 10.57. Nid yn unig fe enillodd Marks ei categori oedran wrth bron i ddwy funud, roedd hefyd wedi gorffen yn 2il yn y ras ymysg rhedwyr cryf iawn, rhai bron iawn hanner ei oedran. Mae Dawn Kenwright wedi rhedeg dwy hanner marathon yn ystod y mis diwethaf gydag ond wythnos yn gwahanu'r ddwy, ac fe lwyddodd i ennill ei chategori oedran yn y ddwy ras. Ar y 12fed o Fehefin fe deithiodd i Fynwy i redeg "Whitebrook Windup half marathon" a oedd yn cynnwys dwy waith o amgylch cwrs 10k heriol tu hwnt a dringfa serth iawn i orffen, ond fe ddangosodd Kenwright ei chryfder wrth iddi orffen fel y pumed ferch mewn 2.15.47. Yna ar y 18fed o Fehefin, fe gymerodd rhan yn hanner marathon Coed y Brenin, ac unwaith eto cafodd ras dda i orffen mewn 2.11.45 a'i gosododd 16 munud o flaen y ferch nesaf yn ei chategori oedran. Mae Tony Hall hefyd wedi rhedeg dwy hanner marathon yn ystod y mis diwethaf a hynny eto o fewn cyfnod o wythnos, ond fe deithiodd Hall ychydig ymhellach na'i gyd aelodau wrth iddo gymeryd rhan yn hanner marathon Jersey ar Fehefin y 12fed a hynny am yr ail waith. Gorffennodd Hall y ras mewn amser arbennig o 1 awr 33 munud gan gipio'r wobr gyntaf i ddynion dros 60. Fe wnaeth Hall hefyd redeg hanner marathon Coed y Brenin gan redeg 3 munud yn gynt na'i amser gorau ar y cwrs a hynny mewn 1.53.11 a'i osododd yn 2il yn ei categori oedran. Llongyfarchiadau i'r tri a



daliwch ati i serenau a gosod esiampl i'r to ifanc.

Nicola yn cyflawni ei champ gydag Hanner marathon Abertawe.



Roedd Dydd Sul, y 26ain o Ebrill yn ddiwrnod emosiynol i Nicola Higgs wrth iddi redeg y ras olaf ar ei rhestr o 30 sialens a wnaeth osod i'w hunan dros y flwyddyn diwethaf er mwyn codi arian tuag at Ymchwil Cancr er cof am ei mam. Y rheswm dros y 30 sialens oedd oherwydd ei bod yn troi'n 30 oed yn ystod y flwyddyn hefyd, felly fe deithiodd hyd a lled Prydain er mwyn cymeryd rhan mewn dros 2 weithgaredd y mis, yn amrywio o rاس 5k i farathon a "tough mudders". Fe ddechreuodd y sialens gydag hanner marathon Abertawe, ac felly roedd hi'n gwneud synnwyr i'r sialens orffen gyda'r un ras. Cafodd gefnogaeth dda yn ystod y ras ac fe wnaeth 5 o ferch y clwb ymuno a hi ar gyfer y ras hon ac fe groesodd y llinell derfyn ynghyd a Bronwyn Coltman mewn 2.10.04 gan godi bron £3000. Llongyfarchiadau mawr iddi! Yn ogystal a chefnogi Nicola fe lwyddodd Donna Teed-Davies a Jenny Caulkett wireddu sialens bersonol a chwblhau'r ras mewn amser arbennig o 1.58. Cafwyd perfformiad disglair gan Delyth Crimmes hefyd wrth iddi groesi mewn 2.01.55 tra bod Emma Gray yn blës iawn gyda'i amser o 2.39.58 wedi iddi ddychwelyd o anaf.

Canlyniadau eraill

Nos Fercher, y 18fed o Fai aeth pump o'n haelodau i Ras yr Hafod sy'n cymeryd lle yn stad yr Hafod, ger Pontarfynach. Enillodd Gwion Payne y ras uwchradd a Daniel Willoughby yn ail ac fe enillodd mam Daniel, Helen Willoughby y ras 10k i fenywod mewn amser o 55.20 gyda Delyth Crimmes yn gyntaf i fenywod dros 40 mewn 1.04.53. Gorffennodd Andrew Davis y ras mewn 48.55 a'i osododd fel yr 2il ddyn dros 40.

Fe wnaeth Ken Caulkett gystadlu yn Hanner marathon Eryri ar Fai 22ain gan roi perfformiad anhygoel a gorffen yn 4ydd yn y ras ac yn gyntaf yng nghategori y dynion dros 35oed. Ras wahanol iawn oedd yn Llanberis yr un diwrnod wrth i Gareth Payne gystadlu yn y slateman triathlon oedd yn cynnwys nofio 1,000 metr, beicio 51km a rhedeg 11km drwy chwarel lechi, ac fe wnaeth yn arbennig gan orffen yn y nawfed safle ac yn 2il ddyn dros 40 mewn 2 awr 38 munud.

Mai 25ain- yr ail yng nghyfres rاس 5k yn Rhaeadr. Yn y ras gyntaf ar yr 11eg o Fai fe orffennodd Caryl Wyn Davies mewn 23.19 a'i gosododd fel y pumed ferch agored ond erbyn yr ail ras cafodd well amser o 22.35 gan orffen yn 2il ferch. Fe roedd George Eadon yr ail ras gan orffen mewn 20.37.

Mai 30ain- cynhaliwyd y 27ain ras o Dinas Head ym mhwl gwaed Sir Benfro. Ras dechnegol o 4.5 milltir yw hi ac fe aeth y tad a'r mab Tony a Simon Hall i roi cynnig arni gyda Simon yn rhedeg ras dda i orffen yn 4ydd mewn 34.47 a Tony yn ennill y categori dros 60 mewn 39.23.

Nos Wener, Mehefin 3ydd, cynhaliwyd "Sialens y Tri Parc" yn Llandeilo. Dyma'r ail flwyddyn i'r ras hon gymeryd lle ac fe gafwyd tyrfa a chefnogaeth arbennig ac ymysg y rhedwyr oedd 4 aelod o Sarn Helen. David Thomas 47.52, Steven Holmes 48.14, Mitch Readwin 54.45 a Jane Holmes 1.21.18. Yna dau ddiwrnod yn ddiweddarach yn Abertawe, fe gymerodd David Thomas ran mewn cystadleuaeth newydd sbon gydag aelod arall o'r clwb, John McDonagh sef Triathlon Dinas Abertawe sy'n gorffen yng nghalon y ddinas. Mae'r sprint triathlon yn cynnwys nofio 750 metr, beicio 20km a rhedeg 5km ac fe lwyddodd McDonagh i orffen yn 15fed mewn 1.13.34 gyda Thomas yn gorffen mewn 1.18.04.

Mehefin 11eg – cynhaliwyd ras eiconig 22 milltir "Man v Horse" yn nhref Llanwrtyd sy'n cael ei hadnabod gan ein haelodau fel un o'r rاس caletaf iddyn nhw redeg, gyda llwybrau mwdlyd, afonydd i'w croesi a llethrau serth yn gyfanswm i 3974 o droedfeddi i'w dringo. Mewn ras o 672 o redwyr, gorffennodd Glyn Price yn 6ed yn ei categori oedran mewn 3.14.28, Carwyn Davies 3.28.31, Nigel Davies 3.28.45 a Calvin Williams 4.06.33.

Mehefin 5ed- cynhaliwyd ras 5k newydd sbon yng Nghastell Newydd Emlyn gan gwmni Cantref ac fe enillodd Tom Willoughby, Helen

Willoughby a Jenny Caulkett y wobr ar gyfer y tim cyflymaf. Tom hefyd oedd enillydd y ras mewn 21.20 gyda'i fam Helen yn 4ydd ond yn gyntaf yn ras y merched mewn 22.24 a Jenny yn gorffen mewn 26.14. Cafwyd cynrychiolaeth dda o ieuencid y clwb yn rاس y plant wrth i Jamie Jones, Daniel Willoughby a Violet, Maddie a Jack Caulkett roi perfformiadau da. Ar yr un diwrnod, fe aeth Mike Davies i redeg y Trot's Dambuster 10k yn Llys y fran gan orffen yn 3ydd dyn dros 40 mewn 39.53. Nos Iau, Mehefin y 16eg fe roedd Mitchell Readwin ras 10k yn Bwlchgyroes, sydd hefyd yn cael ei threfnu gan glwb rhedeg Trots. Cafodd Readwin ras dda ar draws llwybrau'r goedwig gan orffen mewn 53.59. Yn ogystal a Dawn Kenwright a Tony Hall, fe wnaeth sawl aelod arall o'r clwb serenau yn Hanner Marathon Coed y Brenin ar y 18fed o Fehefin. Fe roedd Ken Caulkett yr un cwr 6 mis yn ôl a'r tro hyn fe orffennodd 10 munud yn gynt mewn 1.31.11 gan ei osod yn y 3ydd safle. Gorffennodd George Eadon mewn 2.00.29, Aneurin James 2.17.45 ac Eleri Rivers a Caryl Davies yn brwydro i'r llinell derfyn gyda'r ddwy yn gorffen mewn amser o 2.08.13. Wedi ras dda rhwng Helen Willoughby ac aelod newydd y clwb Martin Darby, fe lwyddodd Willoughby orffen mewn 2:11:11 gan ei rhoi ar y podiwm fel y 3ydd menyw dros 50 ac fe groesodd Darby y llinell derfyn mewn 2:11:27. Y diwrnod canlynol yn Aberystwyth, cynhaliwyd ras 5k Tenovus ar hyd y prom gyda Mitch Readwin yn gorffen mewn 23.16, Donna Teed-Davies 24.18 a Carys Davies 25.52. Llwyddodd Ben Davies ennill y ras 1.5k i blant mewn 5.46 gyda Llyr Davies yn 3ydd mewn 6.18. Mehefin 25ain, aeth Ken Caulkett o nerth i nerth wrth iddo gystadlu mewn hanner marathon yn Talybont-on-Usk o'r enw "Midnight Mountain Half Marathon" oedd yn cael ei drefnu gan Brutal events, sy'n dweud cyfrolau! Mae'r ras yn arwain y rhedwyr drwy goedwigoedd, dros nentydd llithrig ac i fyny Pen y Fan, ond nid oedd hyn yn taflu bwganod ar Caulkett wrth iddo hedfan dros y llinell derfyn yn y safle cyntaf mewn 1.34.48 a hynny 5 munud cyn yr ail rhedwr.

Clwb beicio



Cynhaliwyd digwyddiad beicio mawr yn Aberystwyth rhwng y 23ain a'r 29ain o Fai sef yr Aber Cycle Fest. Seren y digwyddiad i glwb Sarn Helen oedd Llyr Rees wrth iddo gael ei ddewis fel mascot i un o'r timoedd tramor buddugol, tipyn o anrhydedd iddo! Fe wnaeth hefyd gystadlu yn y ras i flynyddoedd 5 gan orffen yn 7fed allan o 64 o gystadleuwyr, ond nid oedd hyn yn ddigon iddo gan iddo ymuno a'i Dad Eric Rees i gymeryd rhan ar gwr 41km "Y Corrach" gan orffen mewn 2 awr 22 munud. Fe wnaeth Dorian Rees a'i nai Carwyn Davies, a Tim Strang gymeryd rhan yn y cwr 183km "Y Cawr" a gymerodd ychydig dros 7 awr iddynt i'w gwblhau. Roedd cwr "Y Diafol" yn 75km o hyd ac fe orffennodd Phil Davies mewn 3 awr 47 munud, a chwr "y Mynach" yn 104km gyda Kevin Hughes yn gorffen mewn 3.56 a David Thomas mewn 4.01. Bu David Thomas hefyd yn rhan o Velathon Cymru wrth iddo gymryd rhan yn y cwr 140km gan orffen mewn 4awr 45 munud. Yna ar Fehefin y 12fed fe gymerodd David Thomas rhan yn time trial 50 milltir clwb beicio Bynea, ac roedd yn hapus iawn i orffen mewn 2awr 32 munud gan gyrraedd cyflymder cyfartaledd o 20 milltir yr awr. Yna ar Fehefin y 19eg, fe wnaeth Thomas gystadlu unwaith eto yn sprint Triathlon y Mwmbwls gan orffen mewn 1.43.34 ac yna mewn hanner ironman yn Exmoor ar y 26ain. Mae'r holl gystadlu yma i Thomas yn ei baratoi'n dda ar gyfer yr Ironman llawn yn Ninbych y Pysgod ym mis Medi.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556
Carys Davies: 07890 883346
Gwion James: 07980 608337

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



CELF I CEGIN A 'STAFELL
WELY, ATELOGION CEGIN
WEDI EU FFITIO,
TEILS WAL A LLAWR

DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa



Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO AA A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Ysgol Bro Pedr



Capteiniaid Cyfnod Sylfaen Ysgol Bro Pedr ar ddiwrnod mabolgampau'r
ysgol gyda Henry a Ryan yn casglu'r darian ar ran y tŷ buddugol Pedr.



Capteiniaid ac Is-gapteiniaid Adran Iau Ysgol Bro Pedr ar ddiwrnod
mabolgampau'r Ysgol gyda Sophie a Harvey yn casglu'r darian ar ran y tŷ
buddugol Pedr.



Emilia a Natan yn ennill mabolgampwr a mabolgampwraig y flwyddyn yn
mabolgampau Ysgol Bro Pedr. Llongyfarchiadau hefyd i Emilia am ennill yr
ail safle yng nghystadleuaeth naid hir Dyfed.



Cerddorfa'r Sir dan arweinyddiaeth Mr Geraint Evans yn cynnal cyngerdd
gwyh yn Ysgol Bro Pedr.

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Yn ystod gwyliau'r hanner
tymor pleser oedd gweld a chlywed
disgyblion yr ysgol yn cael
cyfle i berfformio yn Eisteddfod
Genedlaethol yr Urdd yn Fflint.
Mae'n gamp enfawr i gyrraedd
y rhagbrofion yn y Genedlaethol
a llongyfarchiadau mawr i Cerys
Angharad, Austin Thomas a'r grŵp
llefaru i ddysgwyr am wneud eu
gwaith mor arbennig o dda – diolch
i bawb a fu yn eu dysgu. Llwyddodd
grŵp dawnio disgŵ'r ysgol i
gyrraedd y llwyfan allan o un deg
naw grŵp – da iawn chi a diolch yn
fawr iawn i Sally Saunders am eu
paratoi a'u hyfforddi. Hyfryd hefyd
oedd gweld nifer o ddisgyblion
yr ysgol yn perfformio ar lwyfan
y Genedlaethol gyda Adran ac
Aelwyd yr Urdd ac yn seremoni
John a Ceridwen Hughes wrth iddynt
wobrwyo Elin Williams am ei gwaith
gwirfoddol i blant yr ardal. Hyfryd
oedd gweld gwaith buddugol Fflur
ac Ifan Meredith yn y babell Gelf
a Chreffit a chlywed tâp sain llafar
dysgwyr blwyddyn 6 sef Daniel,
Austin, Luca ac Annabel a gipiodd y
wobr gyntaf yn y Cwtch Cymraeg.
Eisteddfod i'w chofio.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus ym
mabolgampau'r ysgol. Ar ddiwedd
mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen Pedr
oedd ar y brig gyda 86 o farciau,
Steffan yn ail gyda 54 o farciau a
Dewi yn drydydd gyda 53 o farciau.
Yn ystod y prynhawn bu cystadlu
brwd a Pedr aeth â hi ar ddiwedd
mabolgampau'r Adran Iau gyda 105
o farciau, Dewi yn yr ail safle gyda
60 o farciau a Steffan yn drydydd
gyda 49 o farciau. Cipiwyd tarian
Mabolgampwr a Mabolgampwraig
y flwyddyn gan Emilia a Natan.
Diolch i'r plant a'r staff i gyda am
eu gwaith caled yn trefnu a paratoi.
Llongyfarchiadau i'r disgyblion a
fu'n cynrychioli'r ysgol yn athletau
Dyfed sef Dewi, Marnie, Faye, Rhys
Tom ac Emilia a llongyfarchiadau
mawr i Emilia am ddod yn ail yn
y naid hir. Diolch i Mr Davies am
drefnu.

Cafodd nifer o ddisgyblion
blwyddyn 6 gyfle i fynd ar gwrs
preswyl i Bentywyn yn ddiweddar
a diolch i'r aelodau o staff hynny a
fu'n rhoi o'u hamser i oruchwyllo'r
plant. Diolch hefyd i Mr John
am drefnu'r daith. Gwnaethom
ffarwelio â Miss Li a fu gyda ni
drwy'r flwyddyn a diolch iddi am
rannu profiadau am ddiwylliant a
thraddodiadau Tshiena â phlant yr
ysgol. Diolch i'r Parchedig Patron
Bell a fu'n cynnal gwasanaethau
yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn a
dymunwn yn dda iddo ef a'r teulu
wrth iddynt symud yn ystod misoedd
yr haf i Loegr. Mae disgyblion
blwyddyn 6 wedi bod yn derbyn
cyfres o wersi dan ofal criw'r Bible
Explorers - diolch am y cyfle.

Ysgol Bro Pedr

Diolch i Miss Mattie Evans am roi cyfle i ddisgyblion blynyddoedd 3 4 5 a 6 i gael gwersi Gwyddoniaeth yn y labordy yn y Sector hŷn yn ystod y tymor. Cafodd disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 gyfle i ymuno i ganu caneuon am Roald Dahl gyda rhai aelodau o gôr Only Kids Aloud yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth a chael dysgu nifer o ffeithiau diddorol am yr awdur enwog. Bu Cerddorfa o athrawon teithiol y Sir o dan arweinyddiaeth Mr Geraint Evans yn cynnal cyngerdd gwyh yn yr ysgol a chafwyd boddhad mawr o wrando ar y caneuon adnabyddus a dysgu enwau'r offerynnau amrywiol. Diolch iddynt am ddod atom. Bu rhai o ddisgyblion blynyddoedd 3 4 a 5 draw yng Nghartref Preswyl Hafan Deg yn diddanu'r preswylwyr a diolch iddynt am wneud eu gwaith mor arbennig o dda ac i Miss Davies am gyfeilio. Da iawn chi Summer, Lexie, Tomos, Liam, Grace, Logan, Ifan, Michael, Niah, Sara, Ffion, Rhun, Leah a Iestyn.

Cyn diwedd y tymor fe fydd nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cael cyfle i berfformio yn y neuadd Fawr yn Aberystwyth gyda Chôr o ddisgyblion y Sir ac yn y gerddorfa hefyd. Mae hyn bob amser yn gyfle gwyh a diolch i bawb a fu'n trefnu ac yn hyfforddi.

Bydd pawb hefyd yn mynd ar daith – disgyblion y Meithrin a'r Derbyn i Fferm Folly, blynyddoedd 1 a 2 i Ar y bel ac i weld Sioe Sali Mali gan gwmni Arad Goch yn Theatr Felinfach a disgyblion yr Adran Iau yn mynd i Techniquet.

Pob hwyl i holl ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn symud i'r Sector Hŷn yn mis Medi – cofiwch ddod yn ôl i'n gweld.

Rhifyn Medi Yn y Siopau Medi 1af

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
Awst 22ain



Niam Houghton, Ysgol Bro Pedr a gafodd y 3edd wobwr yn Trin Gwallt a Harddwch Bl. 10 a dan 19 oed yn Eisteddfod yr Urdd yn Fflint.

Hyfforddiant Unigol a phersonol i blant a phobol ifainc mewn:

- canu
- sgiliau iaith a llythrennedd
(llafar, darllen ac ysgrifennu)

am fanylion pellach, cysylltwch â
07807 020408.



Sioe Aberystwyth

Cafwyd sioe lwyddiannus arall i deulu Evans, Llanrhystud - gynt o Brynnyreglwys, Cwrtnewydd. Enillon nhw'r bencampwriaeth gyda'r hwrdd balwen a ddangoswyd gan Gerwyn Jones, a'r gil bencampwriaeth gyda'r oen fenyw yn cael ei dangos gan Tania Evans. Cafodd Carys Evans hefyd y wobwr gyntaf i blant yn arddangos o dan 13 oed. Nhw hefyd oedd â'r wyau gorau yn y sioe, ac enillwyd sawl gwobr yn adran y dofednod.

Cwrtnewydd

Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint

Fel pentref hoffem longyfarch Ela Mablen Griffiths-Jones, 2 Fronddu ar ennill yr Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac Iau ac 2il yn Llefaru Bl. 2 ac Iau.

Hefyd, i barti Unsain Ysgol Cwrtnewydd am gipio'r 2il safle i bartion Unsain dan 50 o blant.

Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Paul a Bessie Williams, Clyncoch ar ddod yn ddad-cu a mam-gu unwaith yn rhagor, mab bach i Meleri a Rhodri yn Llanrhystud sef Gwern Rhodri ar Hywel.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Anne Thomas, Milford ar dderbyn llaw driniaeth yn ystod y mis yn Ysbyty Prince Philip, Llanelli. Gobeithio y byddwch yn well yn gloi.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda theulu'r diweddar Tomi, Llwynfallen gynt ond oedd nawr yn byw yn Glascoed, Llandysul a fu farw yn ystod mis Mehefin.

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtcadno



Gwasanaeth
troi
Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphoto restoring.com

Osian Potter
Toio a Gwaith Saer

Adeiladau Newydd · Ail-doi
Ffasgiau, Soffitau a Chafnau
Gwaith Simnai · Gwaith Plwm
Saer Coed

07816 869 047 · 01570 471 749
osianp@btinternet.com

Cymwys, 14 Blynedd o Brofiad, Geirda ar Gael

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

LYN JONES
"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

10fed Medi 2016

Llywydd: Enid Davies, Wrecsam.

Sioe, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Bar, Bwyd, Hufen Iâ ac atyniadau eraill.



Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:

Danny Davies 423692, Wyn Jones 422511

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Llanbedr Pont Steffan



Cinio Siop Siarad

Cafwyd cinio Siop Siarad llwyddiannus yn y Gilfach, cartref Ann a Densil Morgan i orffen y flwyddyn. Mwynhaodd pawb bryd blasus a sgwrs ardderchog rhwng y dysgwyr a'r Cymry Cymraeg. Bydd y Siop Siarad yn ail gychwyn ym Mis Medi yn yr Hedyn Mwstard.

Cofio Nancy

Yng nghartref Allt y Mynydd, Llanybydder ac o Dyffryn, Heol y Bryn y bu farw Nancy Evans yn 91 mlwydd oed a diolchir i bawb yn y cartref am bob gofal. Roedd Nancy yn bresenoldeb amlwg yn Llambed am flynyddoedd a bydd chwith mawr hebdi.

Hi oedd yr hynaf o chwech o blant i Morris a Lissie Jones, Pen Graig, Plwyf Pencarreg yn Sir Gâr ac aeth i Ysgol Ram yn Cwmann. Yn 8 oed symudodd y teulu i Northampton a mynychodd Nancy Ysgol Priors Marston. Aethai i Eglwys y pentref a chafodd ei chonffyrmio gan Esgob Coventry. Yn 1942 a hithau yn 18 oed ymunodd â'r WAAF'S. Dychwelodd y teulu i Gymru ac i fferm Glannantcoy ger Llambed a gweithiodd Nancy yn un o swyddfeydd yr Agri yn Llambed.

Cyfarfu â Handel a priododd y ddau ym mis Gorffennaf 1949 yn Eglwys Cellan a threuliwyd y mis mêl yn Glasgow gyda theulu Lottie ei hanner chwaer. Gweithiai Handel ar y pryd i gwmni anifeiliaid Bibbys sef swydd ei dad. Bu'r teulu'n byw yn y Bryn, Parc y Rhos gan symud wedyn i Maes y Bedw yn y Ram ac yna symudwyd i Kimberley yn Heol y Bryn yn Llanbed.

Yn 1963 gwnaeth Handel a Nansi benderfyniad a newidiodd eu bywyd sef prynu Caffi ynghyd a lle Gwely a Brecwast yn Mile End yn Stryd y Coleg. Roedd yn fenter busnes dewr a phositif a hynny heb brofiad blaenorol yn y maes ond gyda dycnwch, gwaith caled ac oriau hir trodd y cyfan yn llwyddiant. Daeth Mile End yn gyrchfan hynod boblogaidd a dengys y llyfr ymwelwyr fod y gefnogaeth leol wedi bod yn un arbennig. Roedd cyfnod Handel a Nansi yn Mile End am 13 mlynedd yn un hynod diddorol a gwnaethpwyd llu mawr o ffrindiau.

Un o ddiddordebau mawr Nansi oedd pob math o waith llaw ac

roedd yn ddeheuig a thalentog iawn yn y maes hwn. Gwnâi ddillad i'w phlant, roedd yn hoff o wau, gwnïo, gwneud matiau, gwaith lledr a mwy ac enillodd nifer fawr o wobrau mewn sioeau ac Eisteddfodau. Ei pharadwys oedd ei gardd ac yno nid oedd amser yn cyfrif dim wrth iddi fod ynghanol y blodau, y planhigion a'r llysiau ac yn y tŷ gwydr a oedd wastad yn llawn! Rhoddai flodau a chynnyrch ei gardd i amryw yn y gymuned. Cadwai wenyn a hoffai y broses o gasglu'r mêl.

Cyfrannodd i amryw iol waith gwirfoddol ac ymysg y rhain yn y dyddiau cynnar oedd arwain y Cubs lleol o dan nawdd y Scowtiaid a bod yn gydlynnydd casglu arian at yr RSPCA. Roedd Cymreictod yn bwysig iddi a chefnogai bethau gorau ei chenedl.

Nid oedd Nansi byth yn llonydd drwy ei hoes, roedd wrthi o fore gwyn tan nos yn gwneud hyn a'r llall a deilliodd hyn o gyfnod ei magwraeth. Pobl oedd ei bywyd ac hyd y diwedd roedd cyfarch ac ymgomio â phawb a welai yn y stryd a phob man yn rhan annatod ohoni. Mynegai ei barn yn groyw heb flewyn ar dafod ar faterion oedd yn agos at ei chalon.

Roedd crefydd yn bwysig iddi a mynychodd Gapel Bethel Parc y Rhos yn ffyddlon am flynyddoedd ac ers deunaw mlynedd aethai i gyrddau Eglwys Efengylaidd Llanbed bron drws nesa i'w chartref yn Neuadd Victoria gan dderbyn cynhaliadau a charedigrwydd yno.

Daeth tyrfa dda i'w hangladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar fore Sadwrn y 7fed o Fai lle gwasanaethwyd gan ei mab yng nghyfraith Idris, Mr. Gareth Jones a'r Parch. Cen Llwyd a rhoddir ei llwch gyda'i phriod ym Methel Parc y Rhos. Y trefnwyr angladdau oedd Gwilym Price ei Fab a'i Ferched yn Llambed a derbyniwyd rhoddion er cof amdani tuag at Elusen Ymchwil Clefyd Siwgr mewn plant



Clwb Bowlio Llanbed

Llongyfarchiadau i bedair o ferched Clwb Bowlio Llanbed a fuodd yng Nghaeredin i cynrychioli Cymru yn y gemau cartref. Fe wnaeth Melanie Thomas, Rhian Jones, Carolyn James a Anwen Butten cyrraedd rownd derfynol y pedwarau ac roedd y pedair yn rhan o dim Cymru a wnaeth guro Iwerddon, Jersey a Lloegr, ond colli i'r Alban. Felly fe ddaethon yn ail. Da iawn ferched.

Hefyd llongyfarchiadau mawr i Anwen gafodd ei dewis yn gapten ar tîm Cymru. Ysgrifennwyd englyn i Anwen gan Non Vaughan Williams i'w llongyfarch ar yr anrhydedd.

Nid ar hap y mae'n gapten - y bowliwr

Heb ei hail benfelen,

Yn bwylllog annog â gwên

Yn annwyl a wna Anwen.

ac ieuencid. Cydymdeimlir â'i phlant Ann a David a'r holl deulu a llawenydd mawr iddi oedd geni ei gor-wyr Gruffudd Sion o Langefni ar Noswyl y Nadolig 2015. Dyma Englyn coffa Siw ei nith i Nansi:

Un oedd hon aml ei doniau - un â'i llaw

Yn rhoi lliw i'r blodau,
A hudol bwytho'r edau
Ei rhodd fydd yma i barhau.

Eisteddfoda

Enillodd Ifan Meredith, 17 Penbryn y wobr gyntaf am ganu a chyntaf am adrodd i blant blwyddyn 5 a 6 yn Eisteddfod Rhydaman yn ddiweddar.

Brondeifi

Ddydd Sul, Mai 15fed, daeth tyrfa dda ynghyd i lanhau'r llwybrau a thacluso o amgylch y capel a'r festri. Yn dilyn cafwyd cwpaned o de a brechdanau wedi eu paratoi gan Margaret Jones, Glanhelen. Enghraifft dda o Sul a chrefydd yn ei ddillad gwaith.

Yr wythnos wedyn ar ddydd Sul, Mai 22ain, Clive Evans - un o aelodau'r capel fuodd yn gyfrifol am y gwasanaeth gyda Rhian Jones Williams a'r Dr Sian Lloyd yn cynorthwyo. Mae Clive yn byw a gweithio yn Norwich ers sawl blwyddyn erbyn hyn, ym maes elusennau. Braff iawn oedd cael ei gwmni yn ôl ym Mrondeifi unwaith eto.

Y Parch Wyn Thomas oedd yn y

pulpud ar Fai 29ain. Cafwyd pregeth rymus ganddo ar y pwysigrwydd i garu a chefnogi eraill, beth bynnag ein teimladau tuag atynt. Hyfryd ei weld ar wellhad a'n dychwelyd i Frondeifi.

Roedd y 1af o Fehefin yn ddiwrnod pwysig yn hanes Brondeifi - diwrnod cynta' gweinidogaeth y Parch Alun Wyn Dafis yno. Ar y Sul canlynol, y 5ed o Fehefin, trefnodd y cyn-weinidog, y Parch Goronwy Evans, wasanaeth ar y thema 'Trosglwyddo'r Fantell'. Llywyddwyd y gwasanaeth gan Meinir Evans, Wernllwyn. Estynnodd groeso i bawb, ac yn arbennig i'r gweinidog newydd, gan bwyso am gefnogaeth yr aelodau iddo. Cafwyd gweddi agoriadol gan Goronwy Evans, gyda'r emyn cyntaf yn cael ei gyhoeddi gan Helen Thomas. Mary Jones fu'n darllen 'Mae gen i freuddwyd', gan D. Jacob Davies. Hywel Roderick gyhoeddodd yr ail emyn. Cafwyd darlleniad 'Y Winllan', o waith Dr Elwyn Davies, gan Heini Thomas, Deffrobani. Wedyn canwyd emyn o waith Alun Wyn Dafis, a Ceinwen Jenkins wnaeth ei gyhoeddi.

Darllenodd Goronwy lythyr a ddanfonodd Mrs Eirene Jones, Church Village, aelod hynaf Brondeifi, sy'n 95 oed. Bu'n sôn yn ei llythyr sut y daeth hi, Austin, ei phriod, a Gareth, ei mab, yn aelodau ym Mrondeifi ar ddechrau gweinidogaeth Goronwy, ac anfonodd ei dymuniadau gorau at

Llanbedr Pont Steffan

Alun Wyn Dafis.

Hefyd darllenodd Goronwy lythyr ar ran Ioan Wyn a'r teulu, a throsglwyddwyd dymuniadau gorau Rhidian a theulu'r Mans i Alun Wyn hefyd. Nodwyd fod y teulu yn hynod o falch i weld fod y weinidogaeth wedi ei trosglwyddo i ddwylo dawnus a didwyll i'r dyfodol.

Yn dilyn bu Goronwy Evans yn dweud gair yn trosglwyddo mantell ei weinidogaeth drwy gyflwyno y llyfr ysgrifennodd ar hanes Brondeifi i Alun Wyn. Yn ychwanegol ar ran Beti, ei briod, ac yntau cyflwynodd lun o waith yr artist, Aerwen Griffiths, wedi ei fframio gan ei phriod, Dan Griffiths. O dan y llun mae geiriau Mary Oliver:

Ar fin y dref, urddasol yw,

Yn deml hardd i foli Duw.

Brondeifi hardd, ein capel ni,

Ein hangor sicr ydwyt ti.

Dymunodd Goronwy'n dda i Alun Wyn, gan obeithio y caiff yr un iechyd, llawenydd a llwyddiant dros hanner can mlynedd ei weinidogaeth yno.

Cyflwynodd hefyd, ar ran Pwyllgor Siop y Smotyn Du, siec am ddwy fil o bunnau i'r capel. Hywel Roderick, un o drysoryddion y capel dderbyniodd hi ar ran Brondeifi.

Yna cafwyd darlleniad gan Enyd Heneghan o ddarn 'Bydd Dyner' o waith D. Elwyn Davies.

Wedi'r cyflwyniadau, cafodd Alun Wyn gyfle i ymateb, a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen yn fawr at yr her. Diolchodd i Frondeifi am ymddiried ynddo, ac fe wnaeth annog yr aelodau i gerdded ymlaen yn hyderus gydag ef i'r dyfodol.

Gwnaed y cyhoeddiadau gan Aneurin Jones a diolchodd i bawb wnaeth gymryd rhan. Estynnodd groeso i Alun Wyn Dafis hefyd a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.

Meinir Jones, Hendai, gyhoeddodd yr emyn olaf, 'Dyddiau llawenydd' gan D. Jacob Davies.

Yn dilyn, darllenodd Sioned Russell y pennill pwrpasol, 'Goleuo'r Fflam'. Cyhoeddwyd y Fendith gan Alun Wyn Dafis.

Casglwyd gan blant yr Ysgol Sul, a Mrs Margaret Jones, Glanhelen, oedd wrth yr organ.

Gwahoddwyd pawb i'r festri i fwynhau lluniaeth a baratowyd gan Delyth Jones, Ffosyffin, a Margaret Jones, Glanhelen.

Bydd cyfarfod sefydlu'r Parch Alun Wyn Dafis yn weinidog ym Mrondeifi ar ddydd Sul, 9fed o Hydref.

Ioan Wyn Evans gymerodd y gwasanaeth ar ddydd Sul, Mehefin 12fed, a bu'n siarad am ei brofiadau diweddar yn Lesotho yn neheudir Affrica - gwlad sydd wedi ei llethu gan sychder.

Ar ddydd Sul, Mehefin 19eg cafwyd gwasanaeth cymundeb, gyda'r Parch Goronwy Evans wrth

y llyw.

Cymdeithas Hanes

Trefnwyd diwrnod maes ym mynwent Ystrad Fflur gan Gaenor Parry ganol mis Mehefin, yng nghwmni Quentin Drew o Brifysgol y Drindod Dewi Sant, Llambled. Mae'r fynwent hon yn cyd-oesi â'r abat, a diddorol oedd clywed fel y mae ffasiwn claddu wedi newid dros y canrifoedd. Sylwyd ar siâp y fynwent, gwahanol gynllun o feddau, yr arysgrif arnynt, trefn teuluoedd o gladdu ayyb hyd at y ffurf bresennol.

Yn anffodus, oherwydd y glaw trwm, bu'n rhaid terfynu ynghynt na'r bwriad, ond yn bendant, roedd yn ddiwrnod addysgiadol iawn, ac yn her pellach wrth grwydro mynwentydd i edrych ymhellach na gweld.

Teithiodd llond bws o'r aelodau ar y 22ain o Fehefin i weld Tŷ Llanelly yn y dref honno. Mae'r tŷ yn dyddio nôl dros dair canrif, ac wedi ei adnewyddu dros y blynyddoedd diwethaf gan Ymddiriedolaeth Henebion Sir Gaerfyrddin ar gost o saith miliwn o bunnau.

Tywyswyd ni o gwmpas mewn dau grŵp, a'r welydd yn siarad â ni'n llythrennol drwy gyfrwng technoleg fodern. Syr Thomas Stepney ei hun yn cael ei gynrychioli gan un o'r gwirfoddolwyr, ac yn chwarae ei ran i'r dim - canmoladwy iawn! Braf oedd cael clywed hanes y tŷ a'r teuluoedd â fu'n byw yno. Anodd meddwl amdano - a'r eglwys gyferbyn - yn sefyll mewn parc gwyrd yn ymestyn am filoedd o erwau cyn dyfodiad y gweithfeydd diwydiannol.

Arhoswyd ar y ffordd adre i ymweld â Chastell Cydweli, a phawb yn mwynhau'r tywydd braf. Diolch i Gaenor, Barbara a Phillip am eu trefniadau ar gyfer diwrnod arbennig.

Amgueddfa Llambled

Edrychwn ymlaen i groesawu casgliad newydd unwaith eto i'r amgueddfa, a hynny dan ofal Cangen Llambled, Sefydliad y Merched, sy'n dathlu ei chanmlwyddiant eleni.

Efallai y cofiwch i aelodau Ceredigion gyfan rhoi casgliad at ei gilydd y llynedd yn dathlu canmlwyddiant y Mudiad yng Nghymru. Mae'n braf medru dweud fod Llambled wedi bod yn rhan ohoni bron iawn o'r cychwyn cyntaf.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 23ain, sef diwrnod Ffair Fwyd Llambled, cynhelir Helfa Drysor ar fap ger yr Amgueddfa. Dewch i chwilio am y trysor, ac i'n cefnogi. Bydd yr elw i gyd yn mynd i gronfa cynnal yr amgueddfa.

Apêl i'r cyhoedd! Un o gasgliadau 2017 bydd Ffair Dalis. Oes gan unrhyw un ohonoch geiriau, luniau,



Yn ystod sesiwn bingo a drefnir gan gyn ddiffoddwyr tân Llambled yn Llain y Castell, cyflwynodd y cadeirydd, Gerwyn Jones, siec o £250 i Ken Jones, Cadeirydd Grŵp Cymorth Canser y Prostad Gorllewin Cymru. Hefyd yn y llun mae Eric Williams ac Alun Jones.

neu newyddion sy'n berthnasol i'r hen ffair geffylau yma? Byddai'r amgueddfa yn falch i glywed oddi wrthyh.

Merched Y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r cych

Daeth gweithgareddau'r flwyddyn i ben gyda Thaith Ddirgel wedi ei threfnu gan Noleen a Dinah ar brynawn Mercher 15 Mehefin. Bu yna ddyfalu mawr ble oedd ein cyrchfan wrth i ni fynd drwy Gaerfyrddin a San Clêr nes cyrraedd Hendygywyn-ar-Daf a Chanolfan a Gerddi Hywel Dda ac yno i'n croesawu roedd Rhoswen Llywelyn. Cafwyd ganddi hanes y Ganolfan ac yna fe'n tywyswyd o gwmpas ganddi hi a Margaret Hughes. Cafwyd hwyl rhyfeddol yn eu cwmni wrth iddynt sôn am y cyfreithiau oedd yn bodoli yn oes Hywel Dda ar ddechrau'r ddegfed ganrif.

Ceir chwe gardd fechan yno gyda phob un ohonynt yn cynrychioli rhan arbennig o'r gyfraith ac yn cynnwys coeden sy'n adlewyrchu ystyr symbolaidd coed i bobl Celtaidd. Darluniwyd y cyfreithiau ar blaciau o lechi sydd wedi'u goliwio mewn enamel. Mae'r gwaith ysgythr ar y gwydr, gwaith caligraffi ar y llechi, y gwaith haearn a'r placiau cerameg yn y ganolfan yn dangos crefftwaith ar ei orau ac yn ein hatgoffa o'r safle oedd yn farchnad gwartheg. Diolchodd Ann ein Llywydd i Margaret a Rhoswen am ein haddysgu mewn ffordd mor ddiddorol yn llawn hiwmor ac i Carys am baratoi paned i bawb. Mwynhawyd ein hymweliad yn fawr iawn a'r tywydd braf yn goron ar y cyfan. Nôl â ni i'r bws wedyn a phawb yn ceisio dyfalu y tro hwn ble roeddem yn mynd i swpera. Bu Alwyn ein gyrrwr yn ein camarwain sawl gwaith ar y ffordd cyn i ni gyrraedd ein cyrchfan sef Y Talardd yn Llanllwni.

Yna cynhaliwyd cyfarfod busnes byr. Talodd Ann ei gwerthfawrogiad cynnes i Noleen a Dinah am eu trefniadau trylwyr. Darllenwyd y cofnodion gan Janet ac fe'u cafwyd

yn gywir. Bu deg o'r aelodau yn cymryd rhan mewn taith gerdded nodedig a braf yw cyhoeddi bod y swm a gasglwyd dros £400 ac yn cael ei rannu rhwng Ymchwil y Cancr a chronfa'r gangen. Soniodd y Llywydd am Ras yr Iaith ar 7 Gorffennaf a chytunodd nifer o'r aelodau stiwardio ar y ffordd ac i helpu yn y Clwb Rygbi. Bydd trip y pwyllgor Celf a Chrefft ar 8 Hydref i'r Gerddi Botaneg a Llandeilo. Talodd y Llywydd deyrnged uchel i aelodau'r pwyllgor ac yn arbennig i Dorothy yr ysgrifennydd ac Eryl y trysorydd am bob cydweithrediad yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd grynodedd byr o weithgareddau'r tymor a llongyfarchodd aelodau'r sgets am gipio'r wobwr gyntaf yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth, i Gillian am ennill y drydedd wobwr yng nghystadlaethueth y Gadair a hefyd i'r gangen am dderbyn clod yng nghystadlaethueth y rhaglen orau. Hefyd llongyfarchodd Mary, Eryl a Morwen am ennill gwobrau yng Ngwyl Fai y Rhanbarth a gynhaliwyd yn Felinfach ac i gloi dymunodd yn dda i Elin a'r pwyllgor newydd.

Bu pawb wedyn yn mwynhau swper ardderchog cyn troi tua Llambled wedi taith bleaserus dros ben. Bydd seibiant dros y misoedd nesaf ac edrychwn ymlaen i ddechrau'r tymor newydd ar nos Lun 12 Medi yn festri Shiloh ac Elin wrth y llyw. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Cydymdeimlad.

Cydymdeimlir yn ddwys â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis a aeth heibio.

Noddfa - Yr Ysgol Sul

Ar Ddiwrnod Agored Cenedlaethol Cartrefi Gofal 2016 sef 17 Mehefin bu criw o aelodau Ysgol Sul Noddfa yn diddanu'r Henoed yn Hafandeg. Cyflwynwyd amrywiaeth o eitemau ganddynt yn cynnwys unawdau, grwpiau canu a datganiadau offerynnol ac roedd y preswylwyr wrth eu bodd yn gwrandao arnynt

Llambed

ac yn werthfawrogol iawn. Diolchodd Mrs Cynthia Adams i'r plant a'r bobl ifanc am roi o'u hamser unwaith eto i Hafandeg ac am eu cyfraniadau graenus iawn yn ôl yr arfer oedd wedi a dod â phleser mawr i bawb. Wedyn cafwyd cyfle i gymdeithasu ac i fwynhau lluniaeth ysgafn blasus iawn.

Bydd seibiant haeddiannol i bawb dros yr haf yn dilyn tymor arall llwyddiannus.

Diolchir i'r plant a'r bobl ifanc am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch i'r Ysgol Sul ac i'r rhieni am eu parodrwydd i gynorthwyo yn eu tro bob nos Wener ac am eu cydweithrediad parod bob amser. Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau ym mis Medi. Mwynhewch y gwyliau.

Pen-blwydd yn 80 oed

Dymuniadau gorau i John a Morwen Morgan, 4 Maes y Felin sy'n dathlu pen-blwydd arbennig yn 80 oed - Morwen ar 11eg o Orffennaf a John ar yr 17eg o Awst.

Baban Newydd

Llongyfarchiadau i Myfanwy a Bill Bryce ar enedigaeth wŷr, sef Tom Tywi, mab i Catherine a Martyn yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da i'r teulu.

Llwyddiant Aelwyd yr Urdd



Daeth llwyddiant mawn i ran Aelwyd Llanbedr Pont Steffan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir y Fflint eleni. Bu'r aelodau yn cymeryd rhan mewn pum cystadleuaeth o safon uchel iawn ac yn haeddu canmoliaeth fawr am gyrraedd y llwyfan ym mhob un ohonynt. Cipiodd y parti deusain blwyddyn 9 ac iau yr ail wobwr a hefyd y grŵp dawnsio hip-hop/stryd/disgo blwyddyn 10 a dan 19 oed a dyfarnwyd y côr blwyddyn 9 ac iau yn drydydd er bod nifer yn aelodau o'r Adran ac yn ifanc iawn. Cyflawnodd Elan a Beca gamp aruthrol drwy gipio'r ail wobwr yng nghystadleuaeth y ddeuawd blwyddyn 9 ac iau a hefyd y drydedd wobwr yn y ddeuawd cerdd dant. I goroni'r cyfan baint a phleser mawr i'r aelodau oedd cymeryd rhan mewn seremoni cyflwyno medal John a Ceridwen Hughes i Elin am ei gwaith gwirfoddol clodwiw yn hyfforddi ieuenctid Llambed a'r fro yn y maes llefaru ers blyneddau maith. Cafodd Elin syrpreis o weld cynifer o aelodau'r Adran a'r Aelwyd, aelodau Clwb y Dderi ynghyd â llawer o'i disgyblion wedi dod ynghyd i ganu cân hwyliog newydd sbon er anrhydedd iddi. Cyfansoddwyd yr alaw gan Rhiannon ac awdur y geiriau oedd Gillian Jones. Hefyd bu Lowri Elen a Nest Jenkins yn darllen englynion o waith y Prifardd Ceri Wyn Jones i gyfarch Elin. Ar ddiwedd y seremoni cododd y gynulleidfa ar ei thraed a bu yna gymeradwyo brwd a bloeddio uchel ac Elin yn wên o glust i glust.

Mae dyled yr aelodau yn fawr i Rhiannon am hyfforddi'r parti deusain a'r côr ac i Lois am gyfeilio ac mae'n dda gweld yr ymarfer caled wedi dwyn ffrwyth. Dymuna'r swyddogion ddiolch o galon hefyd i'r rhieni am eu parodrwydd i gludo'r aelodau i'r Eisteddfod. Gwerthfawrogi eu cefnogaeth yn fawr iawn. Mae'n rhaid talu teyrnged i Llinos am ei gwaith difflino gyda'r trefniadau ac i Janet am ei chymorth hithau. Do bu'n Eisteddfod i'w chofio.

Noddfa - Te Mefus



Ddydd Sadwrn, 18 Mehefin, cynhaliwyd Te Mefus yng ngardd Y Gilfach, Llanbedr Pont Steffan, sef aelwyd Densil ac Ann Morgan. Trefnwyd y te i godi arian at apêl Undeb Bedyddwyr Cymru 2016 - elusen sy'n darparu gofal iechyd i famau yn Ghana. A pha well ffordd i godi arian nac i fwynhau te, sgons a mefus a hufen, cacennau, a gwerthfawrogi cwmni cyd-aelodau a chyfeillion! Diolch i Ann am ei brwdfrydedd yn trefnu'r digwyddiad, ac i nifer o aelodau Noddfa a'r cylch am ddarparu digonedd o bethe melyn a blasus i ni eu mwynhau.

Llanllwni

Cylch Ti a Fi

Gweithgareddau Gorffennaf
08/07/16 - diwrnod trip meithrin
felly dim Ti a Fi ond mae croeso i chi ymuno â ni yn Llansteffan

15/07/16 coginio crispy cakes

Cynhelir Cylch Ti a Fi bob bore dydd Gwener am 9:30yb hyd 11:30yb yn Ysgol Llanllwni. Croeso i rieni, gofâlwyd, mamgus a thadus i ddod gyda'u plant i gymeryd rhan yn gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Diolch

Dymuna swyddogion Clonc ddiolch o galon i Betsi Morgan, Glanafon am ei gwasanaeth ar hyd y blyneddau diwethaf yma yn casglu Clwb Clonc yn ardal Llanllwni a Maesycrugiau. Ni fydd yn mynd o gwmpas eleni ond taer erfynnir arnoch chi oedd yn arfer talu Betsi i ddal i ddanfôn eich cyfraniadau, os ydych am ymuno wrth gwrs, i ysgrifenyddes Clonc yn Maesglas, Drefach, Llanybydder a hynny mor fuan ag sy'n bosibl. Gwerthfawrogiwch eich cefnogaeth yn flynyddol.

Ysgol Llanllwni

Diolch yn fawr i Gwmni Statkraft am eu rhodd o £1493.71 tuag at brynu adnoddau Celf a Chrefft i'r dosbarthiadau.

Aeth tîm o blant o flwyddyn 1, 2 a 3 i chwarae pêl-droed yn Llanfihangel-ar-arth. Roedd yn brofiad newydd i'r rhai ifancaf a chawsant hwyl gan ennill sawl gêm. Llongyfarchiadau i Elan am ennill y darian am fod y chwaraewraig orau o blith y merched.



Dyma lun o Elan Evans yn cystadlu yn nhwrnamaint pêl-droed Llanfihangel-ar-arth. Enillodd Elan darian ar gyfer y chwaraewraig orau yn y twrnamaint.

Y noson ganlynol aeth tîm o'r Adran Iau lawr i Lanfihangel-ar-arth a chawsant hwythau hwyl yn chwarae yn erbyn timoedd lleol eraill. Da iawn bawb.

Bu nifer o'r plant i Lanwenog yn cymeryd rhan mewn cystadleuaeth

"Cadw'n Sych!" gan fwynhau mas draw. Daeth timoedd o'r Adran Iau yn ail a thrydydd a thîm o'r Cyfnod Sylfaen yn ail. Da iawn chi blant.

Mae Bl 6 wedi cael cyfleoedd gwych i ddod i adnabod Ysgol Uwchradd Llanbed dan y cynllun Pontio. Byddant yn gyfarwydd â'r adeilad a'r staff pan byddant yn dechrau yno ym mis Medi. Dymunwn yn dda i Ffion, Hanna, Emilia, Thomas, Gwion a James yn yr ysgol fawr!

Cafodd disgyblion Bl 5 a 6 ddiwrnod o wersi Beicio yn ddiweddar. Bydd yr hyn a ddysgwyd yn eu helpu i fod yn ddiogel wrth feicio ar yr heol.

Cynhaliwyd ein Mabolgampau ysgol ar Gae Chwarae'r Pentref ar brynhawn Llun, Mehefin 27ain. Y tîm a enillodd y darian fawr oedd Teifi a'i capteiniaid oedd Ffion a Hanna. Enillwyr y tariannau unigol am y marciau mwyaf oedd: Merch Derbyn/B0 - Gwennan; Bachgen Derbyn/B0 - Aneurin ac Osian; Merch B1/2 - Eirwen; Bachgen B1/2 - Tudur; Merch B3/4 - Nikola ac Elan; Bachgen B3/4 - Connor a Tomasz; Merch B5/6 - Marigold; Bachgen B5/6 - Mathew. Diolch i ddisgyblion Blwyddyn 6 am gyfrannu tuag at y gwobrau yma. Yn ennill y medalau am y mwyaf o farciau ym mhob blwyddyn oedd - James, Marigold, Connor a Tomasz, Nikola ac Elan, Tudur, Caio, Osian ac Aneurin gyda Cian a Beca yn ennill adrannau'r Ysgol Feithrin.

Diolch yn fawr iawn i Dave a Tracy Siop y pentref am ei rhodd caredig o crisps a pop i'r plant yn ystod diwrnod y mabolgampau.

Diolch i'r Cyngor Bro, Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol; rhieni a ffrindiau am ein cefnogi ac am bob cymorth. Gwnaed elw o £207 tuag at yr ysgol.

Bu'n rhaid canslo Mabolgampau Cylch Pencader am eleni oherwydd y tywydd gwlyb. Erbyn i'r rhifyn yma ymddangos gobeithio y byddwn wedi cymeryd rhan yn nhwrnamaint pêl-droed yn Llanwnnen. Fe fydd yr Adran Iau wedi bod yn Niwrnod Hwyl yr Urdd Cylch Llambed. Byddwn hefyd wedi diddanu y gynulleidfa trwy ganu yn Noson Goffi yr Eglwys a bod ar ein trip ysgol i Heatherton.

Mae Pwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol ynghyd â'r Ysgol Feithrin, Y Cyngor Bro a'r C.Ff.I wrthi'n trefnu Diwrnod Hwyl eto eleni a fydd yn cael ei gynnal ar Gae'r Pentref ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 9fed. Fe fydd yna garnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, stondinau, barbiciw, lluniaeth a mwy. Mae croeso i bawb ymuno yn yr hwyl. Dewch yn llw.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol. Mis Mehefin:

1af - Alwena Owen, Cwmderi, Llanllwni. 2ail - Mary Thomas, 8, Bro Nantlais, Gwyddgrug. 3ydd - Arwel Thomas 7, Bro Nantlais, Gwyddgrug.

R.A.B.I. Ceredigion

Cynhaliwyd Noson Gwis yng nghlwb Rygbi Aberaeron ar nos Wener 10 Mehefin. Cwis Feistr y noson oedd Malcolm Thomas, cadeirydd newydd R.A.B.I, y Cymro cyntaf erioed yn 156 mlynedd o hanes yr elusen, i ddal y swydd hon. Cafwyd noson o sbri a thipyn o grafu pen gan yr un-ar-ddeg tîm a fu wrthi'n ddiwyd yn ceisio ateb y cwestiynau heriol a osodwyd gan Malcolm. Mwynhawyd selsig a sglodion hanner amser ac ar ddiwedd y noson, yn fuddugol oedd Helen a John Hunt, ac Alison a Dai Mayes. Diolch o galon iddynt hwy am roi'r wobwr ariannol yn ôl tuag at waith yr elusen – hynod o garedig. Llwyddwyd i godi £383. Uchelgaais pwyllgor Ceredigion yn ystod yr haf eleni yw sicrhau bod copi o'i llyfr coginio, "Coginio gyda'r Sêr" yn cyrraedd pob fferm yng Ngheredigion. Maent yn gobeithio bydd aelodau o'r pwyllgor yn medru mynychu pob sioe amaethyddol a gynhelir yng Ngheredigion gogyfer â dosbarthu'r llyfr sy'n rhad ac am ddim. Diolch i NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru am roi gofod i'r aelodau ar eu stondinau yn y sioeau. Mae R.A.B.I yn bodoli i helpu teuluoedd fferm sy'n ei chael hi'n anodd. Os oes angen help arnoch chi, neu rywun rydych chi'n adnabod, ffoniwch ein llinell gymorth ar 0808 2819490.

Cwiltiau Cymreig

Mae rhywbeth arbennig yn mynd ymlaen yn Hen Neuadd y Dre, Llambled! Mae 'na arddangosfa ragorol eleni yng Nghanolfan Cwiltiau Cymreig Heb Eu Hanghofio. Cwiltiau clytwaith Cymreig hanesyddol o'r 19eg ganrif o gasgliadau Jen Jones a Ron Simpson gyda hen wisg Gymreig yn cael ei harddangos ochr yn ochr ag artistiaid cydoesol.

Bob blwyddyn, mae Jen Jones yn arddangos tecstilau treftadaeth gwerthfawr Cymru o'i chasgliad anhygoel. Mae Jen wedi bod yn casglu cwiltiau Cymreig, blancedi a thecstilau am fwy na 40 mlynedd ac mae hi wedi achub rhan bwysig iawn o dreftadaeth tecstilau Cymreig. Mae Ron Simpson yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Cwilt yng nghanolbarth Cymru (Llanidloes) ac mae ganddo gasgliad mawr o gwiltiau Cymreig.

Cwiltiau a gwisg Gymreig hanesyddol o Gasgliad Jen Jones, Ron Simpson ac Amgueddfa Ceredigion sydd yn cymryd ganol y llwyfan yn Oriel Ystafell y Llys. A hefyd mae darn arbennig o gelf gan Julia Griffiths-Jones yn hongian o'r nenfwd uchel. Gwenllian Ashley y dychmygwraig sydd y tu ôl i'r cynllun hynod o wreiddiol ar gyfer yr arddangosfa eleni, fel y bu hi bob blwyddyn ers i'r Ganolfan Cwiltiau Cymreig agor.

Yn Oriel 2 mae Sandie Lush, y brodwyr, yn dangos ei gwaith newydd. Mae Sandie wedi cydweithio gyda Jen am nifer o flynyddoedd a bydd hi'n cynnal gweithdy cwiltio ym mis Medi.

Mae Oriel 3 yn croesawu cymysgedd o artistiaid trwy'r flwyddyn. Yr artist cyntaf i ddangos ei waith oedd Valerie Leblond, arlunydd Ffrengig sy'n byw yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae gwaith lliwgar yr artistiaid 'O2 Textiles' yn cael eu dangos yn Oriel 3 hyd ddiwedd Mehefin. Ac wedyn bydd yr artist Ruth Packham, yn dod yng Ngorffennaf gyda'i gwaith nodwydd ffelt a ysbrydolwyd gan leoedd Ceredigion. Bydd Ruth Packham yn cynnal gweithdy gwaith nodwydd ffelt ym mis Awst a bydd cyfle i wneud tŷ bach twt gyda gwlan Cambria yn y gweithdy. Ar ôl Ruth Packham, bydd Ruth arall yn dod i Oriel 3 - Ruth Jên Evans. Mae gwaith Ruth yn boblogaidd iawn ac mae pawb yn dwlu ar ei hen wragedd Cymreig!


Mae Heb Eu Hanghofio er cof am Roger Clive-Powell. Yn anffodus, bu farw Roger yn ystod Hydref 2015. Roedd Roger Clive-Powell yn Bensaer Cadwraeth enwog iawn yng Nghymru, a fe oedd yn gyfrifol am drawsnewid hen Neuadd y Dre Llambled mewn i'r lle eithriadol, Y Ganolfan Cwiltiau Cymreig.

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

Taith Tractors



Tractor Run
Er cof am In memory of
Wyn (Artex) Jones
Yr elw yn mynd tuag at Ymchwil Cancer Cymru
All proceeds towards Cancer Research Wales
An auction will be held and the net will be drawn after returning from the run
10.7.2016
Taith tractors i ddechrau am 1.30 y.p. o Dafarn Ffostrasol
Tractor run to start at 1.30 p.m. from the Ffostrasol Arms
£10 y tractor / £10 per tractor
Bydd ar gael am £7 yn Nhafarn Ffostrasol ar ôl y daith
Food will be available at the Ffostrasol Arms for £7 after the run
Llywydd / President—Mr Lloyd Jones, Ystrad Llanio
Rhif i gysylltu os am fwy o wybodaeth / Contact number for more information
Carys Lloyd-Jones—07976645957
Taith Tractor Gorffennaf 10ed 2016 - Er cof am Wyn Jones

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Mae gwyliau hanner tymor y Sulgwyn wedi dod ac wedi mynd erbyn hyn, ond bu'n yn wyliau llwyddiannus i blant Ysgol Cwrtnewydd wrth iddynt gipio'r ail wobwr yng nghystadlaethaueth y Parti Unsain yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir y Fflint. Llongyfarchiadau mawr i chi ferched! Hefyd gwelwyd Lisa Jenkins yn cystadlu yng nghystadlaethaueth y Cogurdd ar faes yr Eisteddfod. Cafwyd parti ar ddechrau'r tymor i ddathlu.

Braf oedd cael croesawu athrawon cerdd y Sir gyda'u cerddorfa i'r ysgol. Ymunodd ysgolion Llanwenog a Llanwnnen gyda ni i wrando ar berfformiad gwych y cerddorion.

Daeth ffermwr lleol sef Lyn Rees i siarad am ffermio gyda phlant y dosbarth hŷn. Bu'r plant yn holi cwestiynau am ffermio ddoe a heddiw. Diolch iddo am ddod i roi gwybodaeth ddiddorol i ni.

Mae Jac Rees Swyddog Datblygu Rygbi wedi bod yn gwneud sesiynau rygbi gyda phlant cyfnod allweddol dau yn ystod y tymor. Mae'r plant yn cael mwynhad yn ymarfer eu sgiliau rygbi.

Mae Alaw a Lisa wedi bod yn ymarfer gyda Chôr Ceredigion yn ddiweddar. Bydd y côr yn perfformio yng nghyngerdd y Proms yn Aberystwyth.

Ar ddiwrnod lle roedd yr ysgol yn cael ei defnyddio ar gyfer yr etholiad aeth yr ysgol gyfan am drip addysgiadol i Ganolfan Bywyd Gwyllt, Cilgerran. Bu'r plant yn casglu trychfilod gyda rhwydi mewn pwll dŵr, hefyd buon nhw yn chwilio am fwystfilod yn y glaswellt a'r coed a chwarae yn y parc. Cafodd y plant ddiwrnod wrth eu boddau.

Cynhaliwyd bore o hanes ffermio yn yr ysgol. Daeth plant hŷn ysgol Llanwnnen a Llanwenog i ymuno gyda ni. Roedd cyfle i'r plant edrych ar hen offer ffermio, gweld sut oedd ffermwyr yn cneifio nawr ac amser maith yn ôl, roedd yna hen dractorau a hen seddau peiriannau, cafwyd hanes y ddafad Llanwenog a chafwyd sgwrs am amaeth. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth ag offer ac am roi o'u hamser i'r bore arbennig yma.

J.H.ROBERTS A'I FEIBION

7 Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan

ARWERTHWYR TRYDANOL ANNIBYNNOL

01570 422055

PEIRIANT GOLCHI DILLAD

Hotpoint

Eco Experience 7Kg
Cyflymdra Spinio 1400rpm
Cyfradd egni A+++
10 mlynedd o warant ar y partiau



CYNNIG ARBENNIG
i ddarlennwyr Clonc

£229

• Cludiant • Ailgylchu • Gosod
Rhad ac am ddim!

e-bost ymholiadau: jh.roberts@btconnect.com

Oriau Agor: 9 – 5 Llun i Sadwrn

Cwmni Teuluol yn rhoi gwasanaeth personol ers 1937

Drefach a Llanwenog

Eglwys Santes Gwenog

Daeth nifer dda o ffrindiau a gwesteion ynghyd ar y 18fed o Fehefin i lansiad llawlyfr newydd ar hanes yr eglwys. Croesawyd y gynulleidfa'n gynnes gan y Ficer Suzy Bale, a chyfeiriodd yn arbennig at ddau oedd wedi dod o wlad Belg. Greta van Tangerloo a'i mab Damien, - Greta yn or-nith i Joseph Reubens y ffoadur o wlad Belg yn ystod y Rhyfel Mawr.

Cafodd Joseph Reubens loches gan y Cynol Davies-Evans a'i wraig, Mary Eleanor ym Mhlas y Dolau (Highmead). Manteisiwyd ar ddawn medrus Joseph Reubens, ac mae'r sgrin a thalcenni'r meinciau yn dyst i'w allu anhygoel. Roedd y Cynol hefyd yn grefftwr, a gwelir ei waith ef o amgylch y pulpud. Mary Eleanor Davies-Evans fu'n gyfrifol am y dylunio. Braf oedd cael croesawu wyres y Cynol a'i wraig, sef Sarah Lumsden o Sherbourne, Dorset. Mewn gwerthfawrogiad o'u presenoldeb cyflwynwyd llun o'r eglwys wedi'i fframio i Greta Van Tangerloo a Sarah Lumsden. Da hefyd oedd cael cwmni Jen Jones, gwraig y diweddar bensaer eglwysig, Roger Clive-Powell, a fu mor allweddol yn adnewyddiad ffabrig yr eglwys. Gwelir ei eisiau'n fawr.

Darllenwyd llythyr oddi wrth Prof. Kristoff Declaque, ysgolhaig a fu'n ymweld â gwahanol lefydd ac adeiladau lle derbyniodd y ffoaduriaid o wlad Belg groeso a lloches. Dymunai longyfarch yr eglwys am y llawlyfr newydd, a diolch am y croeso a dderbyniodd yn yr eglwys yn ddiweddar, pan ddaeth Geraint Davies a Mary Thomas i'w gwrdd, ynghyd â Hazel Thomas a Hannah Hughes.

Mwynhawyd cwpanaid o de wedi'r oedfa, a bu rhai yn ymweld ag Ysgol Llanwenog yng nghwmni Eleri Davies, lle gwelir rhagor o grefftwaith Joseph Reubens.

Diolch i bawb a gyfrannodd at y prynhawn pleserus.

Bydd Esgob Tŷ-Ddewi, y Gwir Barchedig Wyn Evans yn cynnal gwasanaeth i'r bedair eglwys yn Llanwenog, ganol dydd ar y 7fed o fis Gorffennaf. Darperir lluniaeth ysgafn i ddilyn, cyn iddo ymweld ag eglwys Llanwnnen. Dymunwn iddo iechyd ac hapusrwydd i fwynhau ei ymddeoliad yn yr Hydref.

Cofiwn am bawb sydd wedi colli anwyliaid, a dymunwn yn dda i Arwyn Jones, Gelli-deg, ac eraill sy'n gwella wedi anhwylder.

Y Gymdeithas Hŷn

Tipyn o daith ddigrl fu trip mis Mehefin i'r aelodau a'u ffrindiau, a'r diwrnod wedi ei drefnu a'i thywys gan Gillian ac Emyr Jones, Meysydd. Teithiom ychydig ymhellach na'r filltir sgwâr, ond prin na fuom ond rhyw hanner awr o

daith o Lanwenog drwy'r dydd.

Aros yn gyntaf ger hen ffatri laeth Pont Llanio, a chael tipyn o'i hanes o'r cychwyn cyntaf, a'r gwaith a gyflawnwyd yno. Nifer o'r aelodau'n ychwanegu eu hatgofion hwythau. Siwrne fer wedyn i Eglwys Llanddewi-Brefi; hen hanes unwaith eto – cerrig o oes y Celtiaid a'r Rhufeiniaid, ac wrth gwrs hanes Dewi Sant yn ymweld â'r lle yn y chweched ganrif, a Daniel Rowland yn profi tröedigaeth yno yn y ddeunawfed ganrif wrth wrando ar Griffith Jones, Llanddowror yn pregethu.

Ymlaen wedyn i Ganolfan y Barcud, Tregaron, lle roedd cwpanaid o de neu goffi yn ein disgwyl, ac eto olrhain hanes sefydlu'r ganolfan. Teithiwyd drwy Langeitho, er mwyn gweld cerflun o Daniel Rowland, wedi cael tipyn o'i hanes, ar y ffordd i Aberaeron, lle bu pawb yn cael tamaid amser cinio.

Taith fer ymlaen i Lanarth, gan ymweld â chlos waith D.I Evans a'i gwmni, sy'n cyflogi degau o weithwyr yn yr ardal, ac yn cyflawni gwaith i'r Bwrdd Dŵr. Ymweliad byr â'r ganolfan arddio drws nesa hefyd. Ymlaen eto i La Calabria, Ffostrasol, bwyta Eidalaidd poblogaidd iawn. Coffi wedi ei drefnu yma, a chael y profiad o wrando ar Prof John Landon o gwmni Prothetics Immunotherapy yn siarad am y gwaith arbennig iawn y maent yn ei gyflawni ers deg mlynedd ar hugain. Tybiodd iddynt achub tua deuddeg mil o bobol o'r clefyd Ebola yn ddiweddar drwy eu brechu, ac maent yn cynhyrchu brechiadau ar gyfer nifer fawr o heintiau a chlefydau a'u danfon led-led y byd. Cyflogant 200 o weithwyr erbyn hyn, gan edrych ymlaen i ddyblu'r nifer yma maes o law.

Daeth y diwrnod i ben drwy fwynhau pryd da yn Y Talardd, Llanllwni, a phawb wedi mwynhau diwrnod pleserus iawn. Diolchwyd i Gillian ac Emyr am drefnu'r diwrnod ar ei hyd gan Dilwen George, Cadeirydd y Gymdeithas.

Bydd y daith nesaf yn mynd i Caerleon ar y 13eg o fis Gorffennaf. Enwau i Yvonne, 480590.

Ysgol Llanwenog

Cynhaliwyd ein Ffair Haf yn ddiweddar ar dir yr ysgol. Cafwyd cefnogaeth arbennig oddi wrth ysgolion y cylch a'r gymuned. Gwelwyd y plant yn cystadlu yn yr Her Cadw'n Sych. Diolch yn fawr iawn i aelodau o Bwyllgor Rhieni Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson lwyddiannus yma, lle gwelwyd y coffre yn elwa oddeutu £3,000. Diolch i Mr Mark Evans o gwmni Evans Bros am gynnal yr ocsiwn. Roedd y gefnogaeth yn wych. Diolch yn fawr i bawb.

Bu P C Alun yn ymweld â'r ysgol eto i drafod 'ffrindiau a gelynyddion'



Daethpwyd i ben â threfnu mabolgampau'r ysgol ar yr ail gynnis a cafwyd diwrnod braf heulog a chystadlu brwd. Ar ddiwedd y dydd, Gwennog aeth â hi a derbyniwyd y darian gan y ddau gapten sef Dewi Lloyd a Sion O'Keeffe. Hefyd rhoddwyd cwpanau i bencampwyr y ddau gyfnod am berfformiadau unigol. Llewelyn Gregson, a Michaela Labram oedd enillwyr y Cyfnod Sylfaen, ac Elin Lloyd, Harri Rivers a Sion O'Keeffe oedd yn fuddugol yng Nghyfnod Allweddol Dau. Cyflwynwyd y gwobrau gan gyn Brifathrawes yr ysgol sef Mrs Sian Davies sydd hefyd yn gadeirydd cangen W.I. y Cylch.

Diolch enfawr i aelodau y W.I am eu cymorth wrth ddosbarthu rhubanau i'r athletwyr ac hefyd am baratoi gwledd o ddanteithion i'r disgyblion ar ôl y cystadlu. Rydym fel ysgol yn gwerthfawrogi eich cyfraniad bob blwyddyn.

gyda phlant Cyfnod Allweddol Dau. Mae'r plant yn ymateb yn dda iawn iddo ac mae ei negeseuon a'i foeswersi yn rhai pwysig dros ben.

Trefnodd y Cyngor ysgol ddiwrnod Eco yn ddiweddar yn yr ysgol. Trefnwyd bod grwpiau o blant yn mynd ati i wneud gwahanol weithgareddau i wella amgylchedd yr Ysgol. Diolch yn fawr i Pat O'Keeffe o gwmni Teifi Concrete am roi 40 bagiaid o dywod er mwyn adnewyddu y pwll tywod. Bu'r plant yn brysur a gwelwyd ffrwyth eu llafur ar ddiwedd diwrnod blinedig.

Cafodd y disgyblion gyfle hefyd i fod yn rhan o gyngerdd arbennig a gynhaliwyd gan athrawon teithiol cerdd y Sir. Daeth yr athrawon yma at ei gilydd i berfformio i'r plant. Dangoswyd offerynnau'r gerddorfa iddynt a chwaraewyd darnau bywiog, hwyliog a chyfarwydd i ddiddanu'r plant. Roedd hwn yn fore hwylus dros ben. Diolch yn fawr iddynt.

Teithiodd plant blyneddod 3 i 6 i ysgol Cwrtnewydd yn ddiweddar lle cafwyd bore o hanes bywyd ar y fferm. Cafwyd cyfle i weld, trafod a holi ynglŷn â phob math o hen arteffactau, hen seddi tractorau, arddangosfa gneifio ar hyd yr oesoedd, gweld a thrafod defaid Llanwenog, a gweld offer fferm yn cynnwys tractorau hynafol. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd i arddangos yr offer ac am siarad â'r plant yn ystod y bore. Roeddent wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolch i Mrs Nerys Vobe am feddwl ac am drefnu'r weithgaredd yma.

Bydd Gwasanaeth arbennig yn cael ei gynnal yn yr ysgol ar gyfer plant blwyddyn chwech fydd yn gadael yr ysgol ar gyfer addysg Uwchradd ym mis Medi. Pob lwc i

chi gyd a diolch am eich cyfraniad gwerthfawr a chadarnhaol i ysgol Llanwenog.

CFfi Llanwenog

Ar ddechrau mis Mehefin teithiodd y clwb i ogledd y sir i Dalybont ar gyfer y rali. Braf oedd gweld nifer helaeth o aelodau'r clwb yn mwynhau cystadlu. Wedi diwrnod hir o gystadlu daeth nifer o wobrau nôl i'r clwb. Dyma'r canlyniadau: Crefft: Carwyn Davies-1af; Gosod Blodau: Briallt Williams-2il; Ceginio: Ffion Jenkins ac Enfys Hatcher-1af; Cystadleuaeth yr aelodau (Crefft, Ceginio a Blodau)-1af; Top of the pops: 2il gyda'r grŵp yn 1af ac Enfys Hatcher yn 3ydd fel unigolyn; Cyflwyniad ac it's a knockout-1af; Cneifio: Steffan Jenkins-2il; Tynnu'r Gelyn: Bechgyn hŷn a Tîm Iau - 1af.

Ar ddiwedd y cystadlu daeth y clwb yn 6ed. Enillodd y clwb y cwpan Gwynne eleni hefyd. Llongyfarchiadau i bawb!

Braf oedd gweld Lauren Jones ar y prif lwyfan fel un o ddirprwyon y sir am eleni. Rhaid dweud dy fod yn edrych yn hyfryd ac mae'r clwb yn dymuno pob hwyl i ti am y flwyddyn sydd i ddod. Mwynha!

Yn ystod y mis mae'r clwb wedi bod ar daith i Gei Newydd, cael blas ar TOW ac wedi bod yn sgïo'n Llangrannog!

Amser wedyn i droi at y chwaraeon a thynnu'r trainers allan o'r cwpwrdd ar gyfer y gystadleuaeth rygbi. Fe fuodd y merched yn chwarae rygbi tag a daeth tîm Llanwenog B yn 2il ar ddiwedd y noson. Hefyd, yn ddiweddar mae tîm pêl rwyd a phêl droed y clwb wedi bod yn cynrychioli'r sir yn nghystadleuaeth

Parhad...

chwaraeon Cymru yn Aberystwyth.

Os oes gennych ddiddordeb ymuno â'r clwb neu am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk

Graddio

Llongyfarchiadau i ddwy gymdoges, Sioned Hatcher, Abernant a Rhian Milcoy, Llwynteg ar dderbyn graddau arbennig yn ddiweddar. Cafodd Sioned Gradd Dosbarth Cyntaf a Rhian 2:1. Bu'r ddwy yn astudio yng Nghaerdydd. Pob lwc i chi eto i'r dyfodol.

Clwb Clonc

Gorffennaf 2016

£50 rhif 305 :

M. Elin Jones,
32 Heol y Wig, Aberystwyth.

£50 rhif 483 :

Iona Warmington,
66 Vista Rise, Radyr Cheyne,
Llandaf, Caerdydd.

£25 rhif 456 :

Merfyn Thomas,
10 Nantoer, Rhydybont,
Llanybydder.

£25 rhif 63 :

Mrs Myfanwy Davies,
Madryn, Heol Fictoria, Aberaeron.

£20 rhif 26 :

Dewi Davies,
Glanafon, Llanllwni.

£20 rhif 150 :

Mrs Avanna Evans,
Brynbach, Rhodfa Glynhegog,
Llambled.

£15 rhif 408 :

Mrs Mair Potter,
Rhoslwyn, Cwmsychpant.

£15 rhif 524 :

Mrs Rowena Williams,
Maeslyn, Llangybi.

£10 rhif 189 :

Llyr Griffiths,
Cefnruddlan Isaf, Llanwenog.

£10 rhif 187 :

Sioned Green,
Nantgwyn, Heol Llanfair,
Llambled.

£10 rhif 324 :

Terry Jones,
Awel-y-Grug, 1 Cwrt Deri,
Cwmann.

£10 rhif 307 :

Wyn Jones,
Hendai, Cwmann.

£10 rhif 238 :

Mrs Ceinwen Jenkins,
Ceulan, Heol Maestir, Llambled.

£10 rhif 122 :

Mrs Nans Davies,
Y Gweithdy, Brynteg.

£5 rhif 347 :

Mrs Catrin Bellamy-Jones,
Pantyrhendy, Llanarth.

£5 rhif 283 :

Dai a Deborah Jones,
Llanfair Fach, Llanfair Clydgau.

Cwmsychpant

Swyddi Newydd

Llongyfarchiadau i Einir Ryder, Tyngrug-ganol ar gael ei dewis i fod yn Is-Arweinydd gyda Ffocws ar Lles a Chynnydd Disgyblion yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.

Hefyd, dymuniadau da i Sioned Davies, Llys-y-wawr ar dderbyn ei swydd gyntaf fel athrawes yn Ysgol Henry Richard yn Nhregaron.

Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonoch ym mis Medi.

Pen-blwydd arbennig

Ganol mis Mehefin dathlodd Janet Davies, Llys-y-wawr ben-blwydd arbennig. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau mawr i Beca Jenkins, Hafan y Cwm a disgybl yn Ysgol Bro Pedr, Llambled ar gael ei gwobrwyo ym Mhrifysgol Aberystwyth am ei bod wedi derbyn clod arbennig am ei chanlyniadau yn Her Mathemateg Iau 2016 dros Gymru.

Ŵyr newydd

Daeth ŵyr bach newydd i Wyn Davies, Tyngrug Uchaf yn ystod mis Mehefin. Ganwyd Tomi Wyn i Cerys ac Emyr yn Llangynog ger Caerfyrddin. Llongyfarchiadau mawr i chwi fel teulu.

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Catrin Jones, Talarwen a Rhydian yn eu cartref newydd ym Mhenrhiwllan. Hefyd dymuniadau gorau i Catrin ar gael swydd fel athrawes Bl 3 a 4 yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul. Llongyfarchiadau fil.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Grŵp Trafod Llanbed

Aeth Trip Gwanwyn Grŵp Trafod Amaethyddol Llanbed eleni ar 18 Mai i ardal y Gororau. Ymwelwyd â Maesllwch Home Farm, Glasbury ger Henffordd. Cafwyd croeso gan Andrew Giles a'r teulu a chyfle i fynd o amgylch y fferm i weld yr adeiladau a'r gwartheg yn pori'n hamddenol. Fferm laeth sydd yn Maesllwch lle maent yn godro tua 400 o wartheg Friesian Seland Newydd a chroes Jersey. Maent hefyd yn magu tua 300 o loi hyd y byddant yn gyflo ar fferm arall yn ardal Llyswen ac mae mab iddynt yn ffermio yn Taunton hefyd. Ffermydd rhent yw'r cyfan gyda chytundeb ffermio rhyngddynt a'r tîrffeddianwr. Mae'r system yn gweithio'n effeithiol iawn ar gyfer cynlluniau presennol y teulu ac maent yn adnabyddus iawn ym myd y gwartheg godro. Prif bwyntiau eu llwyddiant dywedodd Mr Giles yw cyfathrebu da, y gallu i ryddhau cyllid gan nad ydynt yn berchen ar y tir ac felly dim benthychiadau mawr. Roedd clefyd TB yn ei boeni'n fawr, fel unrhyw ffermwr arall. Mae Mr a Mrs Giles yn cynllunio ar gyfer eu hymddeoliad yn gwybod fod y meibion yn cael cyfleoedd arbennig i gario'r gwaith ymlaen ac etifeddu busnesau llwyddiannus.

Wedi cinio blasus ochr draw'r ffin yn Bridge Inn, Kentchurch aethom yn ein blaen drwy'r 'Golden Valley' ac i Fferm Howton yn Pontrilas. Cafwyd croeso arbennig unwaith eto gan deulu a chysylltiadau â Llanbed sef Bill a Gina Quan. Cafwyd taith wych o amgylch y fferm ar ddau dreilar mawr, sy'n 700 cyfer i gyd, yn dir â'r maent hefyd yn cadw 500 o wartheg pedigree Limousin a Henffordd a thua mil o ddefaid. Maent yn rhentu 500 cyfer ychwanegol. Eto fferm ar denantiaeth oedd hon ac maent yn rhoi pwysigrwydd mawr ar gael pobl ac ysgolion sydd a dim cysylltiad ag amaeth i werthfawrogi'r gwaith o gynhyrchu bwyd i ymweld â'r fferm. Mae gŵyl fawr Shambala yn cael ei chynnal ym mis Awst ar dir y fferm sy'n ychwanegu'r un pwyslais. Mae gerddi Kentchurch Court yn ffinio hefyd. Roedd brwdfrydedd y teulu a'u hanes ym myd y gwartheg yn ganmoliadwy. Paratowyd te i bawb cyn gadael gan y teulu.

Diolchwyd i'r ddau deulu gan y Cadeirydd, Eurig Jenkins, a chyflwynwyd hamper iddynt fel gwerthfawrogiad o'r croeso arbennig a gawsom.

Mwynhawyd pryd blasus iawn o fwyd ar y ffordd adre yn Bishop's Meadow a diolchodd Aneurin i bawb. Trip cofiadwy arall!

Mae'r Pwyllgor wedi cwrdd hefyd i drafod Rhaglen y tymor nesaf ac mae'n argoeli'n dymor diddorol iawn dan gadeiryddiaeth Anwen Hughes, Bryn Gido.

Os am fynd ar y trip Hydref i ogledd Cymru rhowch eich enwau naill ai i Aneurin 01570 493 296 neu Margaret Dalton.

THE FALCONDALE
HOTEL & RESTAURANT
GWESTY A BWYTY

TE PNAWN

Am £18.50 y pen mae te prynhawn yn cynnwys -

- Brechdanau
- Rhol selsig
- Dewisiad amrywiol o gacennau bisgedi a chrwstau melyn
- Te neu Goffi

Fe fydd angen archebu lle o leia 24 awr o flaen llaw

CINIO DYDD SUL

Bwydlen tri chwr, efo rhost traddodiadol, i'w ddilyn gan de neu goffi yn y lolfa gyfforddus.
£27.50 y pen

01570 422910

info@thefalcondale.co.uk

www.thefalcondale.co.uk

Llangybi a Betws Bledrws

Hamdden

Ar Fehefin 3ydd – diwrnod heulog bendigedig fe aethpwyd am dro i Sir Benfro. Arhoswyd gyntaf i gael te deg yn y fferm Ceffylau Gwedd ychydig tu allan i Aberteifi i wneud ychydig o siopa cyn ymweld â'r Ffatri Siocled lle cawsom groeso cynnes, hanes y datblygiad a sut mae y siocled yn cael ei wneud.

Troi ein pennau am adref ond aros am swper yn y Tanderdy yng Nghaerfyrddin.

Roedd yna lawer o wobrau raffl i'w hennill a bu nifer yn lwcus. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog i bawb a fu yn gyfrifol am drefnu'r trip ac i'r ffrindiau a ymunodd â'r gangen gan Janet Farrow.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 7fed pryd y disgwylir y Bon. Michael Morgans i sôn am rhinweddau a sut mae defnyddio defibriliator. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Merched y Wawr Y Dderi

Bu ein cyfarfod ar Fehefin 15fed pryd yr ymwelwyd â gardd Ysgoldy Cwrt yn Llangeitho ar brynhawn glawog ofnadwy. Yno, cawsom groeso bendigedig ac amser i grwydro'r ardd fendigedig yn y glaw mawr gan werthfawrogi y gwaith a'r ymdrech i lunio'r ardd. Gwirfoddolwyr sydd yn llafurio yma a'r elw yn mynd tuag at achosion meddygol dyngarol. Cawsom de blasus hefyd cyn dychwelyd adref.

Rhoddwyd y raffl gan Mary Jones ac fe'i hennillwyd gan Deborah a Rosalee. Talwyd y diolchiadau gan Gwyneth Jones. Bydd ein cyfarfod nesaf yn Eglwys Llanwenog ym mis Medi.

C.Ff.I. Bro'r Dderi

Mae wedi bod yn dymor prysur i'r clwb. Ar ôl cystadlaethau y ddrama roedd yn amser dewis Brenhines, Ffermwr Ifanc a Dirprwyon newydd i'r mudiad. Mae'r clwb yn hynod o falch fod Elliw Dafydd wedi cael eu dewis fel dirprwy - rydym yn brawd iawn ohono ti!

Cyfarfod wedyn i drafod cystadlaethau y rali, a materion clwb a sirol lle wnaeth Meinir Green ymuno â ni. Aeth rhai o'r aelodau am noson i 'Ar y Bêl' lle cafodd pawb lawer o hwyl a chot o chwys. Cawsom noson yn clwb golff Cilgwyn mis diwethaf hefyd lle buom yn chwarae wahanol gemau a cael pryd o fwyd hyfryd. Ar y noson honno gwnaethom gyflwyno siec i Cara Jones, un o'n aelodau, tuag at gronfa Andrew Jones, Panthrew - yr arian wnaethom godi wrth ganu carolau yn 2015. Bu rhai o'r aelodau yn noson Cymorth Cyntaf y sir a derbyn tystysgrif am basio - da iawn Lowri a Rhodri.

Ar ddydd Sadwrn y 14 o Fai

cynhaliwyd chwaraeon y Sir. Buom yn cystadlu yn y ffrisbi a daethom yn ail. Da iawn bawb a phob lwc i bawb ar lefel Cymru!

Aeth dwy o'r aelodau sef Elliw Dafydd a Lowri Pugh-Davies i Strasbourg i gynrychioli y mudiad yno yn y gynhadledd Dream Loud. Gwnaeth y ddwy fwynhau'r profiad mas draw. Da iawn ferched, fe roesoch chi Gymru ar y map!

Uchafbwynt calendr y sir oedd nesaf sef y Rali. Ac roedd pawb yn edrych ymlaen amdano yn dilyn y paratoi mawr. Cafodd y Rali ei gynnal eleni yn Nhalybont ac fe fu'r Clwb yn cystadlu mewn nifer o gystadlaethau gwahanol. Uchafbwynt i ni fel Clwb oedd cael un o aelodau Bro'r Dderi, sef Elliw, ar y llwyfan fel dirprwy. Mae'r clwb yn falch iawn a phob lwc i ti yn dy flwyddyn sydd i ddod! Cafodd y Clwb nifer o lwyddiannau ar diwrnod yn yr amrywiol gystadlaethau. Cawsom 2ail yng nghystadleuaeth y pecyn cinio, 3ydd yn coginio, 4ydd yn y treialon cŵn defaid, 3ydd yn gwisgo arweinydd, 2ail yn arddangosfa'r prif gylch, Cafodd merched y TOW 4ydd, cafodd Lowri 4ydd yn trin gwlân, Rhys 1af yn cneifio, Elliw 3ydd a Rhodri 5ed yn beirniadu stoc. Da iawn bawb! Pob lwc i bawb sydd yn mynd ymlaen i'r Sioe Frenhinol. Rhys, fyddwn ni yno i dy gefnogi! A llongyfarchiadau i Glwb Tregaron ar ennill y Rali.

Yn dilyn y rali cawsom noson helfa drysor y Clwb o amgylch y pentref yn Llangybi. Noson hwylus i bawb a chyfle i ddal lan ar ôl y rali a mwynhau. Llongyfarchiadau a da iawn Lowri a Melissa am ennill. Cawsom gyfarfod ar ôl yr helfa drysor i drafod pwyntiau sirol a Chlwb. Wedyn ar nos Wener y 17eg o Fehefin roedd cystadlaethau rygbi 7 bob ochr yn Llambod. Gwnaeth y clwb gystadlu efo tîm merched a bechgyn - noson wych llawn sbort! Cafodd y merched 1af a thîm y bechgyn 3ydd – gyda Brynmor Jones a Rhys Douglas yn cael eu dewis i dîm y sir ar gyfer y rownd nesaf yn y Sioe Frenhinol. Da iawn i bawb! Noson wych gyda nifer o llwyddiannau i'r clwb!

Nesaf ar galendr y clwb yw trefnu ein cinio blyneddol, a phawb yn edrych ymlaen at ddathlu blwyddyn sbesial unwaith yn rhagor i Glwb Bro'r Dderi!

Ysgol y Dderi

Cafwyd llwyddiant ysgubol yn Eisteddfod yr Urdd, Sir y Fflint. Llongyfarchiadau i blant hŷn yr ysgol am lwyddo i ennill y wobr gyntaf am greu gwefan, dros Gymru gyfan. Llongyfarchiadau i Steffan Evans, Gruffydd Llwyd Dafydd, Hugo Waddington a Caleb Cutler am ddod i'r brig



Bu disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn aros dros nos ym Mhentre Bach, Blaenpennal yn ddiweddar. Cafwyd hwyl a sbri yng nghwmni Sali Mali a Choblyn a the parti arbennig yn y caffi. Diolch i'r staff am fynd â ni.



Gweithgareddau amrywiol megis sgîo, marchogaeth, nofio, rhaffau uchel, cwrs antur a disgo oedd arlwy blwyddyn 3 a 4 pan aethon nhw i wersyll yr Urdd yn Llangrannog yn ddiweddar. Tridiau arbennig iawn ar lan y môr yng nghwmni ffrindiau da!



Bu blwyddyn 5 yng ngwersyll yr Urdd yng Nghaerdydd am dridiau. Buon nhw'n bowllo deg, Technique, Senedd, taith o gwmpas y bae, Cosmo, San Ffagan, LC2 ac Amgueddfa'r Glannau yn Abertawe ar y ffordd adref. Trip i'w chofio!

dros Gymru yng nghystadleuaeth animeiddio i flwyddyn 6 ac iau. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar eu llwyddiant yn yr adran Celf a Chrefft yn Eisteddfod Genedlaethol y Fflint. Riley Lovell, 1af Pyped unigol blwyddyn 3 a 4; Beca Ebenezer, 2il Serameg Blwyddyn 2 ac iau; Anna Gaiger, 2il Lluniadu 2D Blwyddyn 2 ac iau; Tomos James, 2il Pyped unigol blwyddyn

5 a 6; Andrew Davies, Bledwyn Holgate, Rhun Hicks a Dion Teilo, 3ydd Pypedau Blwyddyn 3 a 4 Gwaith Grŵp. Gyda balchder mawr gwelsom Betrys Llwyd Dafydd ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn cystadlu yn yr Unawd i flwyddyn 3 a 4. Llongyfarchiadau mawr am ddod yn drydydd dros Gymru gyfan.

Teithiodd blwyddyn 6 mewn awyren yr holl ffordd i Ddenmarc.

Llangybi a Betws Bledrws

Cawson nhw groeso twymgalon gyda phlant Ysgol Dalby ger Kolding. Roedd hi'n fraint cael mynychu'r ysgol yno gyda ein ffrindiau newydd Daneg. Perfformiodd plant Y Dderi mewn Gŵyl Gerddorol i gynulleidfa o tua 600 o bobl ac roedd pawb wedi rhyfeddu ar safon a hyder plant Cymru. Mae'r pwll nofio bendedig a'r daith o gwmpas castell hynafol Koldinghus bob amser yn brofiadau gwych, ond yr uchafbwynt heb os yw'r ymweliad â Legoland yn Billund. Denmarc yw cartref Lego ac yn Billund mae pencadlys y cwmni.

Bu'r Cyfnod Sylfaen ar ymweliad i Gei Newydd fel rhan o'u thema "Drychwech tir". Roedden nhw wedi cwrdd â tad Rhun a Llew sy'n bysgotwr, yn yr harbwr i drafod yr hyn yr oedd Mr Hicks wedi ei ddal y diwrnod hwnnw! Wel, am wledd! Roedd y crancod, cimwch, pysgod a'r siarc yn ddigon o ryfeddod! Ymlaen i gwrdd â chriw yr RNLI wedyn i weld y bâd achub a'r holl waith pwysig maent yn eu gwneud. Cyfle i fwynhau picnic ar y traeth wedyn yn yr heulwen braf. Diwrnod i'r brenin!

Daeth Iona Davies i fewn i'r ysgol i gynnal gweithgareddau coginio yn yr awyr agored gyda blwyddyn 5 a 6. "Gwersylla" yw thema'r dosbarth yn ystod yr hanner tymor yma, ac roedd rhaid iddynt greu bwydlen addas yn defnyddio tân agored a ffwrn fara. Llwyddon nhw i goginio pítsa, bara ffres, tatws pob, pop-corn, marsh-mallows, a siocled poeth! Blasus iawn.

Fel rhan o'u thema "Cynllunwyr dillad chwaraeon" cynhaliwyd cyfweiliad dros Skype gyda'r cynllunydd llwyddiannus Ffion Appleton. Yn wreiddiol o Aberystwyth, mae hi bellach yn gweithio yn Llundain ac wedi cynllunio i gwmnïau mawr fel Adidas, Nike, Puma ac Under Armour. Hi gynlluniodd gwisg Usain Bolt yn y gemau Olympaidd yn Llundain, mae hi wedi cwrdd a gweithio gyda'r All Blacks, heb sôn am nifer helaeth o enwogion mawr y byd chwaraeon. Ehangwyd gorwelion ein plant ni wrth glywed am hanesion rhyfeddol Ffion o weithio yn y maes yma.

Mi fydd yr ysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeugain oed. Sioe'r plant am 2yp a 6yh yn Theatr Felinfach ar y 5ed o Orffennaf. Noson ffilm "Ysgol y Dderi, An Area School – 1976" yn yr ysgol am 6yh. Prynhawn agored rhwng 1yp a 3yp, darperir lluniaeth ysgafn gan y Clwb Coginio. "Glaston-dderi" ar gae'r ysgol am 6yh. Tocynnau ar werth o swyddfa'r ysgol 01570 493424.

Gohebiaeth



Cyn Ddisgyblion Ysgol Ramadeg Llandysul

Bydd cyn ddisgyblion Ysgol Ramadeg Llandysul yn cynnal eu cyfarfod blyneddol eleni eto yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni.

Cynhelir y cyfarfod am 10.30 fore Mercher Awst 3ydd ym Mhabell y Cymdeithasau 2, a'r wraig wadd fydd un o'r cyn ddisgyblion sef Yvonne Griffiths a fydd ar ymweliad â Drefach Felindre o Ganada.

Teitl y drafodaeth fydd 'Diwedd Cyfnod' gan fod yr hen 'ysgol ar y bryn' wedi dod i ben ac wedi symud i safle newydd sbon.

Yn ôl Peter Hughes Griffiths y trefnydd mae croeso agored a chynnes i gyn ddisgyblion a phawb arall i ymuno am orig o hel atgofion difyr am yr hen ysgol ramadeg a'i chyfraniad pwysig i ardal Dyffryn Teifi.

Annwyl ffrindiau, ac unrhyw Gymdeithas sy'n ceisio llenwi dyddiadur yn llawn o nosweithiau difyr ar gyfer tymor 2016-2017,

Y Nadolig yma fe fydd fy nghofiant i'r 'melys lais' ei hun, David Lloyd yn y siopau ddechrau Rhagfyr a dwi'n gobeithio teithio eto o ardal i ardal yn siarad am 'y tenor â'r deigr yn ei lais' rhwng mis Medi 2016 a mis Mai 2017, ac wrth gwrs fe gawn ni wrando ar y llais yn ogystal "Mae hi'n swnio'n noson ddifyr, Hywel" fe'ch clywaf yn dweud "ond faint fydd y gost?" Gan fod y noson yn rhan o gynllun 'Awdur ar Daith, mae nawdd ar gael i fyny at 50%. Cost y noson yw £200 sy'n cynnwys costau teithio o Gaerdydd.

Dyma ydi'r drefn. Os ewch chi ar wefan Llenyddiaeth Cymru, Awdur ar Daith fe welwch sut mae gwneud cais am y nawdd. Awgrymir eich bod yn gwneud hyn mor fuan a phosib.

Fe fyddwch angen manylion amdanaf. Enw: Hywel Gwynfryn, 53, Heol Wingfield, Eglwysnewydd, Caerdydd. Cyfeiriad e-bost: hywel.gwynfryn@bbc.co.uk. Teitl y Noson: Melys lais David Lloyd.

Rhif cyswllt (rhag ofn) 07968 889357.

Y drefn wedyn ydi fod siec yn cael ei thalu ar y noson am £200 (sy'n cynnwys costau teithio), ac yna fe ddaw arian y nawdd i chi ymhen yr wythnos.

Gobeithio y cawn ni gyfarfod yn sŵn melys lais David Lloyd yn canu Hyder, Lausanne, Sul y Blodau ac Bugail Aberdyfi.

Yn gywir,

Hywel Gwynfryn

Alltyblaca

Diolch

Ganwyd ein merch Betsan Fflur Lloyd-Jones dipyn yn gynt na'r disgwyl nôl ym mis Mai y llynedd. Fe'i ganed 14 wythnos yn gynnar yn Ysbyty Glangwili Caerfyrddin yn pwyso pownd a Sowns. Roedd hi'n amlwg bryd hynny fod amser anodd o'n blaenau. Symudwyd Betsan i Uned Arbenigol i Fabanod yn Ysbyty Singleton yn Abertawe lle cafodd gofal gwych am chwech wythnos. Wrth iddi gryfhau roedd y gofal roedd Abertawe yn rhoi iddi yn gallu cael ei roi yng Nghaerfyrddin, ac felly symudwyd Betsan nôl i Gaerfyrddin lle arhosodd am bedair wythnos cyn iddi ddychwelyd adref fis cyn ei dyddiad geni gwreiddiol.

Ariennir y ddwy uned drwy'r llywodraeth, ond unrhyw beth a fyddai angen ar y rhieni fyddai yn cael eu ariannu trwy rodd ac charedigrwydd y cyhoedd.

Pan gyrhaeddais adref gyda Betsan wrth gwrs roedd yn amser cyffrous iawn ond hefyd roedd hi'n adeg nerfus iawn i ni fel teulu bach wrth ofalu am fabi bach ar ben ein hunain heb unrhyw ddoctor neu nyrs i'n helpu. Yn ystod y cyfnod hwnnw penderfynon fod rhaid i ni godi arian i'r ddwy uned er mwyn dangos ein diolch iddynt am bopeth a wnaethant i ni fel teulu.

Fel aelodau presennol o G.F.F.I Pontsian a Llanddewi, roedd yn amlwg nad oedd unrhyw broblem recriwtio bach o help wrth drefnu digwyddiadau.

Ar ôl Rali Llanddewi cynhaliwyd parti i ddathlu llwyddiant y Rali ar Fferm Prysg, lle cynhaliwyd ocsiwn i werthu yr holl arwyddion a beintiwyd ar gyfer diwrnod y Rali. Yn dilyn y noson honno cyflwynwyd siec o £896 i'r Uned yn Abertawe ym mis Awst. Yn ogystal cyflwynwyd siec o £200 a gasglwyd gan NFU San Clêr drwy raffl mewn Sioe.

Penderfynwyd wedyn ein bod am gynnal cyngerdd ym mis Rhagfyr gyda Bois y Rhedyn o Landdewi Brefi ac aelodau C.F.F.I Pontsian yn cymryd rhan. Bu'r noson yn un llwyddiannus tu hwnt gyda nifer wedi teithio yn y tywydd garw i'n cefnogi ni. Cafwyd gwin poeth a mins peis i'n cadw ni'n dwym yn Neuadd D.H.Evans, Pontsian. Cynhaliwyd hefyd Raffl fawr gyda llawer o bobl yn mynd adref gyda gwobrau di-ri. Yn dilyn y digwyddiad yma codwyd £3,100 i'r unedau.

Bum hefyd yn lwcus iawn i Gôr Lleisiau'r Werin ddewis rhoi yr arian a godwyd yn eu Noson Garolau yn Llanybydder, a chyflwynwyd siec o £460.

Ym mis Ebrill dathlodd Mam-gu a Dat-cu Caerfyrddin 50 mlynedd o fywyd priodasol a chynhaliwyd parti i ddathlu'r achlysur. Dewisodd Mam-gu a Dat-cu i beidio derbyn unrhyw anrhegion ond yn hytrach i roi cyfraniad ariannol i'r Uned yng Nglangwili. Derbyniwyd £840 a hynny drwy garedigrwydd teulu, ffrindiau a chymdeithion busnes.

Hoffem ddiolch o waelod calon i bawb a fu yn ein cefnogi, boed trwy fynychu'r gyngerdd, prynu raffl neu gyfrannu rhodd tuag at y raffl. Hoffem hefyd ddiolch i Gôr Lleisiau'r Werin, C.F.F.I Pontsian, Bois y Rhedyn ac i bawb am bob help dros y flwyddyn diwethaf.

Aeth Rhys, Betsan a minnau nôl i weld staff Ysbyty Singleton a staff Ysbyty Glangwili ar ôl i Betsan ddathlu ei phen-blwydd yn un oed. Roedd y staff i gyd yn falch iawn i weld fod Betsan wedi mynd o fod yn fabi mor fach i fod yn groten fach hapus a llon ei byd.



Ni allwn ddiolch digon i'r Unedau yma am bopeth a wnaethant i Betsan a minnau yn ystod ein arhosiad yno gan sicrhau ein bod yn gyfforddus bob amser. Gobeithiwn fod yr arian a godwyd wedi bod o gymorth i'r babanod a'u rhieni gan wneud eu hamser nhw yno mor esmwyth â'n un ni.

Rhys, Angharad a Betsan Fflur x

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Alan a Margaret Wilson, Brynsiriol ar enedigaeth wyres fach – Bethan Haf, merch i Rhian a James.

Ar wellhad

Gobeithio fod David Holmes, Llygaid-yr-Haul yn well erbyn hyn ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Llanwnnen



Rhys Williams yn dod yn ail yng nghystadleuaeth traws gwlad yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ac yn drydedd yng nghystadleuaeth traws gwlad yr Urdd yn Genedlaethol.



Tim Cyfnod Sylfaen a enillodd cystadleuaeth Cadw'n Sych yn Ffair Haf Ysgol Llanwenog

Ysgol Llanwnnen

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn mwynhau yng Nglanllyn ac yn elwa o brofiadau gwych wrth adeiladu rafft, dringo a bowllo deg.

Cawsom ddiwrnod mabolgampau arbennig gyda phawb yn rhoi o'u gorau yn y gwahanol gystadlaethau. Diolch i ffrind i'r ysgol am y rhodd arferol o rubanau hyfryd. Roedd hi'n braf iawn hefyd i groesawu Mrs Llwyd yn ôl atom i'n cynorthwyo yn ystod y dydd.

Da iawn i'r tîm merched a thîm y bechgyn a aeth i dwrnament pêl-droed Tregaron chwarae'n arbennig, er gwaethaf y glaw trwm!

Mae'r disgyblion a ffrindiau'r ysgol wedi bod yn brysur yn chwynnu, tyfu a thendio'r holl blanhigion sydd yn y polytunnel ac edrychwn ymlaen at flasu'r holl lysiau. Diolch hefyd i Erika Davies am ei rhodd o blanhigion blodau i harddu'r ysgol. Mae'r clwb garddio yn mynd o nerth i nerth bob nos iau.

Diolch i bawb a wnaeth gefnogi ein taith gerdded o amgylch y pentref, gan godi swm dda o arian tuag at goffrau'r ysgol. Mae pawb wedi cefnogi'r ymgyrch Bags2School yn ogystal, a diolch am eich cefnogaeth.

Gwnaeth dîm Cyfnod Sylfaen Llanwnnen yn dda yn her cadw'n sych ysgol Llanwenog, gan ennill y cwpan yng nghystadleuaeth ar gyfer timoedd y Cyfnod Sylfaen. Diolch i bawb o'r ysgol a wnaeth gystadlu yn y ddau dîm.

Cawsom wledd o gerddoriaeth yn ddiweddar wrth gael y profiad o fynychu cyngerdd gan gerddorfa'r sir, a byddwn hefyd yn cymryd rhan yn niwrnod ffermio gydag ysgolion Llanwenog a Chwrtnewydd. Bydd hyn yn gyfle i bawb ddysgu am ffermio yn yr hen ddyddiau.

Mae Rhys Williams wedi cael llwyddiant ysgubol mewn nifer o rasys traws gwlad yn ddiweddar. Daeth Rhys yn ail yn nhraws gwlad yr Urdd yng Ngheredigion a mynd ymlaen i gystadleuaeth Cymru, lle cafodd Rhys y fedal efydd am ddod yn drydydd. Tipyn o gamp yn wir.

Pob dymuniad da i Maria Thorley, Emily Roach, Lilly Smith a Steffan Evans a fydd yn ein gadael ar ddiwedd blwyddyn 6 i barhau gyda eu haddysg uwchradd ym Ysgol Bro Pedr. Maent wedi bod yn ddisgyblion arbennig yn Llanwnnen, a byddwn yn gweld eu heisiau yn fawr. Cofiwch alw mewn i'n gweld unrhyw bryd, bydd croeso cynnes ichi.



Clwb Garddio yn mynd o nerth i nerth gan dyfu cyfres o lysiau yn y Polyntunnel.

Aelod y Flwyddyn

Llongyfarchiadau i Luned Jones, Blaenwaun-ganol, ar dderbyn tarian Aelod y Flwyddyn C.F.F.I. Llanllwni yn ddiweddar. Rhoddwyd y darian barhaol hon (a gyflwynir yn flynyddol) gan deulu Pantycubal, sy'n berthnasau agos i Luned. Cyflwynwyd y darian iddi gan Arwel a Marion Howells yn ystod noson cinio blynyddol y clwb.

Sefydliad y Merched

Ddydd Gwener, 13 Mai aeth aelodau Sefydliad y Merched Llanwnnen ar eu trip haf i Aberteifi yn un o fysiau G&M i gwrdd â'r arlunydd enwog Aneurin Jones. Cafwyd orig ddifyr yn ei gwmni yn

Siop Awen Teifi yn edmygu ei waith yn yr oriel ac yn gwrandao arno yn trafod gwerth celf yn gyffredinol. Yna aethom yn ein blaenau i Westy'r Cliff, Gwbert i gael te prynhawn a chafwyd gwledd o frechdanau bach twt ac amrywiaeth o gacennau blasus i dynnu dŵr o'n dannedd. Yn dilyn, cafwyd cyfarfod byr gydag Avril Jones yn cadeirio. Enillwyd y wobwr am y gystadleuaeth, sef napcyn pert, gan Ceinwen Roach, gyda Mary Davies yn ail ac Irene Jackson yn drydydd. Diolchwyd yn fawr i Ceinwen a Mary am drefnu'r trip.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda

theulu y diweddar Gomer Lewis, Hafan, Bro Grannell a fu farw yn ystod y mis yng Nghartref Maes y Felin, Drefach. Bu'r angladd yn breifat yng Nghapel Alltlyblaca ac yno rhoddwyd ei gweddillion i orffwys.

Cyngor Cymuned

Yn y cyfarfod diwethaf etholwyd y Cyngorydd Catrin Thomas, Castell Du yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanwnnen ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2016-2017, gan gymryd yr awenau oddi wrth y Cyngorydd Elin Thomas. Llongyfarchiadau i Catrin a dymuniadau gorau am y flwyddyn i ddod.

TEIARS
HUW
LEWIS
TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
 LLANBEDR PONT STEFFAN
 01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
 Penffordd,
 Llanybydder,
 Ceredigion,
 SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
 haearn ac hefyd eich holl
 waith weldio ac atgyweirio

Mwnci ffwnci

Brodweithio
 a Phrintio Dillad.
 Darparu
 Dillad Gwaith
 a Hamdden.

**Sioned Green
 a Mared Jones**
 Nantgwyn,
 Heol Llanfair
 Llambed
 01570 423135
 07811917799 /
 07968821035
 mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services

Pob math o waith ar goed
 Torri cloddiau * Plygu cloddiau
 Wedi yswirio'n llawn
 Dyfynbris am ddim
 Coed tân ar werth
 Lyn Davies
 01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
 a nwyddau adeiladu
 a ffensio o bob math
 Glo caled a glo meddal
 o'r ansawdd gorau**



Enw: Steffan Alun Thomas
Oed: 20
Pentref: Llanllwni
Gwaith: Trydanwr
Partner: Sioned Douglas
Teulu: Dad, Mam a Carys (chwaer)

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
 Pan oedd freddo's yn 10 ceiniog, a bubblegum yn ddwy geiniog!

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
 Sam Tân

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

I weithio'n galed am y pethau gorau mewn bywyd. Bod yn gwrtais. A helpu pobol yn llai ffodus na fi.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
 Rho bet ar Leicester City i ennill yr uwch gynghrair yn 2016

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
 Trydanwr, Dyn Tân, Heddlu

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?

Pan oedden yn oedran ysgol feithrin, roeddwn yn chwarae yn yr ardd gefn. Ar waelod y sleid odd 'na pwdeu lle oedd dŵr yn casglu pan oedd hi'n bwrw glaw. A phan oedd y pwdeu yn llawn roedd 'na reial mess o mwd a dŵr yn yr ardal. Unwaith daeth Dad adref o'r gwaith, halodd Mam fe allan i weld beth roeddwn yn gwneud. Roeddwn wedi bod yn y dŵr a'r mwd ar waelod y sleid a'i daflu dros cefn y tŷ i gyd! Ac wedi i dad ofyn i fi pwy wnaeth yr holl mess, yr unig ateb odd "Carys" - a Carys wedi bod yn yr ysgol trwy'r dydd.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
 Trip i Barcelona. Neu sypreis o troi lan yn Costa yng Nghaerdydd i weld Sioned.



Beth yw dy lysenw?
 Steff, Steff Thom, Stiffi

Pwy yw dy arwyr?
 Mae gen i gwpwl. Leigh Halfpenny am ei allu i ddelio efo pwysau anferth ar ei ysgwyddau mewn gêm rygbi a dal i chwarae ar ei orau. Steven Gerrard, am ei allu fe i arwain tîm i fod yn fuddugol a bod yn hollol bositif mewn unrhyw fath o sefyllfa. Dwi'n ffan o Calum Von Moger hefyd, WFF Mr Universe yn y byd codi pwysau. Dyn â'r gallu i gymell unrhyw un yn hoffi gwneud beth mae ef yn ei wneud. Hefyd yn ambasadur da dros ben am fyw yn iach ac am chwaraeon dros y byd.

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?

Panther. Un sydd yn gallu edrych dros bopeth yn fanwl a chadw llygad ar ddigwyddiadau.

Beth yw dy arbenigedd?
 Gallu chware golff i safon handicap o 8, A'r gallu i chwarae unrhyw chwaraeon i ryw fath o safon a

mwynhau.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Rwy'n helpu pobol lleol yn eu cartrefi i fod yn ddiogel ac yn hapusach. Rwy'n cwrdd a phobol newydd bob dydd yn y swydd.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Teimlad o gymuned agos yn diflannu tra bod y genhedlaeth henach yn gadel, a phobol dierth yn dod i fyw yma o dramor a gwledydd eraill.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
 Cymraeg

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?

Person sy'n cael popeth gallen nhw byth angen, dim rhaid gweithio amdano a ddim yn gwerthfawrogi y cwblwl.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000

mewn awr?
 Trefnu trip i Awstralia.

Ac yn bersonol?

Pan oedden yn gapten i dîm dan 16 pêl droed Llanbed yn twrnament Felin Fach. Roeddwn wedi cael twrnament llwyddiannus dros ben yn sgorio bwndeli o gôls rhwng fi, Rhys Douglas a Jo Jenkins. Roeddwn yn y ffeinal yn erbyn Aberaeron (y rivals). Roedd yn gêm agos iawn yn 0-0 tan yr eiliadau olaf. Cafon ni gic gornel a Rhys Douglas i'w gymeryd. Mewn ddath y bêl yma yn syth amdanaf i, roedd y bêl damed yn rhy uchel i fi heado mewn. Es i am y cic dros y pen a sgorio efo 2 munud i fynd. Enillon ni'r twrnament a dwi dal yn cofio'r eiliad yn blaen heddiw.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Pan mi wnes i ffeindio allan fy mod yn dioddef efo clefyd y siwgr. Roeddwn yn un ar ddeg mlwydd oed, yn hapus, yn hyderus, ac yn edrych mlan am fabolgampau diwethaf yn ysgol gynradd Llanllwni. Ond yn anffodus mi wnes i aros yn yr ysbyty am dri diwrnod.

Beth yw dy hoff wisg?

Crys gwyn, jeans a shoes brown. Neu shorts, crys-t a trainers.

A'th hoff adeilad?

Camp Nou

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Krispy Kreme doughnuts ... 12 ohonyn nhw.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
 1000+

Sawl teest y dydd wyt ti hala?
 Dros gant yn rhwydd

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Carwen Richards
 Ffarmers

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
 Cyfeiriad _____
 Cod post _____
 Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
 I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

9	4		7				5
3				6			9
1	8				5		
			5			4	
	2		6		7		1
		3			9		
			8				3 6
	1			5			2
5				6		8	1

Swdocw Mai:

Llongyfarchiadau i **Rob Phillips, Llety Clyd, Llanbed** ac i bawb arall am gystadlu: Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Sian Blake, Penlon Cottages, Gorsgoch a Hugh Evans, Coedparc, Llanybydder.

6	1	5	9	2	3	4	7	8
8	3	9	4	7	6	1	2	5
2	7	4	8	1	5	3	6	9
5	9	7	2	8	4	6	3	1
1	2	6	3	5	7	8	9	4
4	8	3	6	9	1	2	5	7
3	6	8	7	4	9	5	1	2
7	4	1	5	3	2	9	8	6
9	5	2	1	6	8	7	4	3



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel shw mae? Wel mae'r haul yn dechrau dod allan i'n gweld ni ac mae'r blodau yn yr ardd yn tyfu'n dda. Gobeithio os bydd yr haul yn parhau y cawn ni gyfle i fynd i'r traeth i adeiladu cestyll tywod a nofio yn y môr. Ond cofiwch blant pan fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth, mae'n rhaid bod yn ofalus iawn a gwrandio ar oedolyn. Cofiwch wisgo eli haul, het a sbectol haul er mwyn gwneud yn siŵr nad ydych yn llosgi. Rhaid cofio hefyd i beidio mynd yn bell o olwg oedolion. Ond yn bwysicach oll, rhaid cofio i fwynhau yng nghanol y tywod.

Wel cefais rai lluniau drwy'r post a phawb wedi bod yn brysur yn lliwio'n lliwgar a thaclus. Roeddwn yn hoff iawn o lun Mari Rees o Gwmsychpant ond y llun sy'n dod i'r brig yw un Jac Rees, Maesllwyd, Cwmsychpant. Da iawn chi a llongyfarchiadau i ti Jac!

Dwi'n edrych ymlaen i wyliau'r haf er mwyn mynd am dro i draeth Aberystwyth i fola heulo ac adeiladu cestyll tywod. Fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth? Ble mae'ch hoff draeth chi? Beth am fynd ati i liwio llun o'r diwrnod ar y traeth a'i ddychwelyd ataf erbyn dydd Gwener, Awst 19eg.


Ta ta tan toc.



Enillydd
ymis!

Jac
Rees

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



GWARYGOROF, GOROF BRIANNE (85)

Mae 'corf / corof' yn elfen gyffredin mewn enwau lleoedd yn ne Cymru ac fel y mae'r ddau fap yn dangos ceir Gwarygorof ger Cwrtcadno a digwydd yr un enw nid nepell o bentref Pumsaint. Mae'r naill safle a'r llall ar ucheldir uwchben afon Cothi; ac mewn enwau lleoedd cyfeiria 'corf / corof' at ddibyn coediog mewn safle o'r fath. Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru mae corf / corof / gorof naill ai wedi ei fenthycu o'r Lladin 'corbis' neu'n ffurf gytras.

Mae'r gyfrol ddiddorol 'Blaenau Tywi: Enwau yn y Tirwedd' (2014) a gyhoeddwyd gan Grŵp Hanes Blaenau Tywi yn cynnwys cae o'r enw 'Gorof', bwthyn o'r enw 'Penygorof', a 'Gorofmelyn' a fu'n rhan o Stad Cawdor.


Ar un adeg roedd 'Gorofmelyn' wedi ei liwio gan ocr ond barn golygyddion y gyfrol yw bod 'melyn' naill ai'n cyfeirio at liw'r dyddodion yn nentydd yr ardal neu at liw'r isbridd neu at liw llystyfiant lleol.

Mae map Arolwg Ordnans 1891 yn dangos coedwig Gorof Brianne (SN800490) uwchlaw Nant Brianne. Mae'r cyfan bellach dan ddŵr cronfa Llyn Briannau. Mae 'briannau' yn ffurf anodd i'w dehonglu'n hollol sicr. Mae'n bosibl y dylid ei chysylltu â 'breuant' sef gwddf, corn gwddf, pibell wynt; 'pistyll y breuant' yw'r enw ar ben uchaf y bibell wynt. Mae 'breuannau' yn ffurf luosog ar 'breuant'.

Mae 'pistyll' hefyd yn elfen gyffredin mewn enwau lleoedd - 'Pistyll Rhaeadr' ger Llanrhaeadr yn Mochnant, a cheir pentref o'r enw Pistyll yn Llŷn.

O gofio am ystyr yr elfen gyntaf yn Gorof Brianne, mae'n ymddangos y byddai'n briodol ystyried mai dynodi 'ceunant' a wna'r ail elfen yn yr achos hwn. Rhoddai'r dehongliad hwn ystyrydd addas, yn ogystal, i Nant Brianne sef 'afonig sy'n llifo drwy hafn neu geunant'.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru enwaulleoedd@gmail.com



Papurau Bro Ceredigion Eisteddfod Ddwl

Hydref 14eg yn Neuadd Felinfach

Drysau yn agor am 7 i ddechrau am 7.30

Beirniad: John a Menna Jones

Arweinydd y Noson: Keith Evans

Mynediad £3.00

Yr Angor
Y Barcud
CLONC
Y Dolen
Y Dwrgrig
Y GAMBO
y Garthen
LLAIS AERON
Papur Pawb
Y TINCER

O'r Llwyfan
Dweud J8c
Sgets - Yn y Mart
Dweud stori a stumiau i bâr
Parti "Beat bocsi" (creu synau gan ddefnyddio'r llais yn unig)
Band y Garej

Gwaith Cartref
Ysgol Gynradd: Sgets pensil o Gastell
Ysgol Uwchradd: Dyddiadur Diwrnod ar y Testun - "Dyna beth oedd diwrnod".
Dysgwyr: script "Mynd i siopa".
Brawddeg: CARLISWNS
Limeric: Wedi cyrraedd ei ffrwyddyn riteiro
Fe roes Shanco ei fryd ar ymfudo
Corden: Brysiwch Wello (Denial)

Anfonwch eich gwaith cartref (i dan ffugenw, gyda manylion cyswllt ac enw papur bro masn onlin wedi etodi) erbyn 1af Hydref, at:
Mr a Mrs J Jones, Tynfron,
Pfair Rhes, Ystrad Meurig, SY25 6BS

CYFRI
CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305
07974 422 305



Mae gwyliau'r Haf yn agosáu ...
Beth am fynd allan am y diwrnod ar y Bws - gallai fod yn docyn delfrydol

Bwcabus
Ffônio-Casglu-Cysylltu Phone-Collect-Connect
01239 801 601
www.bwcabus.info

Llinell archebu ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7am - 7pm
01239 801 601
Gwasanaeth yn gweithredu o dydd Llun i dydd Sadwrn o 7am - 7pm

Beth am ymweld a'r amrywiaeth o atyniadau sydd gan Sir Gaerfyrddin a Cheredigion i'w cynnig yn ystod eich gwyliau
... rhowch gynnig ar Bwcabus!

Mae Bwcabus yn galluogi pobl i deithio rhwng pentrefi a threfi lleol ym mharth Bwcabus neu i gysylltu â'r prif wasanaethau bysiau gan deithio ymhellach i lefydd megis Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi a Chaerfyrddin.

460 T1 T5 Bwcabus - Creu Cysylltiadau

Hybiwg, Rhesymol, Economaidd, Cyfleus

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

University of South Wales Prifysgol De Cymru

Traveline Cymru
0300 200 22 33
www.traveline.cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government




Cyfraniadau hael...



Ar ôl taith feicio lwyddiannus trosglwyddodd Cara a Dion Evans o Dalgarreg sicc o £11,439.42 i Gwyneth nyrs o Uned Cemothorapi Glangwili er cof am eu mam Angela Jones. Hefyd yn y llun mae Nigel, tad Cara a Dion, Margaret a Carol a helpodd i drefnu'r digwyddiad.



Rhai o aelodau Côr Lleisiau'r Werin, Llanybydder yn cyflwyno sicc i Angharad James a Betsan Fflur, Alltyblaca ar ôl cynnal digwyddiad i godi arian tuag at Unedau Babanod yn yr ysbytai a fuodd Betsan am rai wythnosau ar ôl ei genedigaeth ym mis Mai 2015.

Rali C.Ff.I. Ceredigion



Rhys Douglas, C.Ff.I. Bro'r Dderi a enillodd gwpan am Gneifio dan 21 oed yn y Rali.



Enillydd y gystadleuaeth grefft am wneud 'time capsule' oedd Carwyn Davies, Llanwenog.



Ffion Jenkins ac Enfys Hatcher, C.Ff.I. Llanwenog enillodd cystadleuaeth Coginio yn Rali C.Ff.I. Ceredigion dan 26 oed.

Carnifal Cwmann



Y Frenhines a'u gosgordd yng Ngharnifal Cwmann.



Y Fflot buddugol yng Ngharnifal Cwmann. Adroddiad llawn ar dud 12.

Carnifal Llanybydder



Irene Davies yn cyflwyno Dion Morris Dyer.



Cyntaf i'r Oedolion - Katy Baker (Marge Simpson) Ail - Nia Jones (Marilyn Monroe) Trydydd - Gary Jones (Hollywood Movie Director).



Fflot Orau - Grease